
# Datblygiadau Ynni Haul Ffotofoltäig Sir Gaerfyrddin

## Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Paratowyd gan Anthony Jellard Associates LLP

# Cynnwys

Mae rhannau o'r ddogfen hon ar gael i'w gweld ar bapur yn unig oherwydd maint y delweddau a ddefnyddir.  Cysylltwch â'r Adain Blaengynllunio os hoffech chi weld y rhain - forwardplanning@carmarthenshire.gov.uk or by telephone 01267 228818.


**Adran Un: Cyflwyniad**

**Adran Dau: Methodoleg**

**Adran Tri: Cyd-destun y Dirwedd**

**Adran Pedwar: Sensitifrwydd y Dirwedd ac Asesiadau Capasiti** (ar gael i'w gweld ar gais)

**Adran Pump: Canllawiau ar gyfer Datblygu Ynni Solar**

**Adran Chwech: Ffigurau** (ar gael i'w gweld ar gais)

Atodiadau (ar gael i'w gweld ar gais)

**Atodiad 1:  Byrfoddau a Rhestr o Dermau Allweddol**

**Atodiad 2: Dogfennau Cyfeirio**

**Atodiad 3: Gwybodaeth Sylfaenol a Thechnegol**




# Adran 1:
# **CYFLWYNIAD**

1.1 Comisiynwyd yr astudiaeth hon gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae ardal yr astudiaeth yn ymestyn dros Sir Gaerfyrddin i gyd, heblaw am yr eithriadau canlynol:

- ardaloedd sy'n dod o fewn ardal weinyddol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;
- ardaloedd ar hyd ymyl yr arfordir ac o fewn y parth rhynglanwol ar hyd arfordir y môr – gan ystyrir bod yr ardaloedd hyn yn anymarferol ar gyfer datblygu systemau solar ffotofoltäig ar raddfa cae;
- ardaloedd trefol penodol o'r sir sydd wedi'u diffinio fel y cyfryw gan setiau data Agwedd Weledol a Synhwyraidd LANDMAP.[1]

1.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu swm y trydan sy'n cael ei gynhyrchu gan ffynonellau adnewyddadwy fel rhan o'i strategaeth gyffredinol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae adnodd ynni solar sylweddol gan Gymru, ac mae cynhyrchu ynni gan ddefnyddio'r adnodd hwn bellach yn dod yn ddull cynyddol o gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae lleoliad Sir Gaerfyrddin yn hanner deheuol y DU yn ei gwneud hi'n sir ddichonol ar gyfer datblygu ffermydd solar gan ei bod yn elwa ar lefelau uwch o ymbelydredd solar. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y cynigion ar gyfer gosodiadau ffotofoltäig ar raddfa fawr, ac mae nifer ohonynt wedi'u cymeradwyo. Mae'r diddordeb yn y sector gwynt a'r sector solar yn cynyddu o hyd, ac mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i dderbyn ymholiadau a cheisiadau cynllunio newydd. Dros y blynyddoedd diwethaf, yn ogystal â'r cynnydd yn y nifer o osodiadau panel solar ar adeiladau, gwnaed nifer sylweddol o geisiadau cynllunio i awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer codi gosodiadau cynhyrchu pŵer solar ffotofoltäig ar raddfa cae, sydd â'r potensial i arwain at effeithiau sylweddol ar y dirwedd sy'n eu derbyn. Nid oes digon o ganllawiau ar gael ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol na datblygwyr er mwyn galluogi i effeithiau posibl datblygiadau o'r fath gael eu hasesu'n gyson.

1.3 *Diben cyffredinol yr astudiaeth hon yw rhoi arweiniad er mwyn llywio'r gwaith o ddylunio a gosod datblygiadau solar ffotofoltäig yn briodol drwy nodi asesiad sylfaenol o'r dirwedd a sensitifrwydd gweledol ynghyd â chapasiti'r dirwedd mewn perthynas â gwahanol ddosbarthiadau datblygu.* Bydd yr astudiaeth yn llunio offeryn defnyddiol ar gyfer polisi cynllunio a swyddogion rheoli datblygiadau yr awdurdod cynllunio lleol wrth asesu'r dirwedd ac effeithiau gweledol cynigion ar gyfer datblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae. Bwriad yr astudiaeth yw rhoi sylfaen er mwyn helpu i gyflawni cyd-destun fel bod modd i swyddogion ac aelodau etholedig wneud penderfyniadau cyson a chadarn wrth ystyried ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau paneli solar ffotofoltäig, ac fel canllaw i ddatblygwyr.

1.4 Mae'r astudiaeth hon yn debyg i'r astudiaeth a gynhaliwyd ar gyfer tyrbinau ynni gwynt yn Sir Gaerfyrddin, a oedd yn seiliedig ar yr astudiaeth beilot ar gyfer datblygiadau tyrbinau ynni gwynt

[1] Castellnewydd Emlyn, Hendy-gwyn ar Daf, Sanclêr, Talacharn, Caerfyrddin, Porth Tywyn, Cydweli, Llanelli, Llangennech, Rhydaman, Glanaman, Brynaman Uchaf, Llandysul (rhan), Llanybydder, Llandeilo a Llanymddyfri

a gynhaliwyd yn 2015 ar gyfer consortiwm o bump o awdurdodau cynllunio lleol oedd yn gyfrifol am ardal Blaenau'r Cymoedd yn ne Cymru.

1.5 *Astudiaeth strategol yw hon ac nid yw'n ceisio bod yn gyfarwyddol ynghylch safleoedd unigol.* Nid yw'n disodli'r angen i Gyngor Sir Caerfyrddin ystyried ceisiadau cynllunio unigol yn ôl eu teilyngdod; nid yw ychwaith yn rhyddhau datblygwyr oddi wrth eu cyfrifoldeb i baratoi a chyflwyno asesiadau penodol o'r effaith weledol ac ar y dirwedd, wedi eu cynnal yn unol â chanllawiau proffesiynol cyfredol, fel rhan o'u cais cynllunio.

## Polisi Cynllunio Cenedlaethol

*Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 8* (Ionawr 2016)

1.6 Mae polisïau cynllunio defnydd tir ar gyfer Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn y canllawiau cynllunio cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru, yn sefydlu (ymysg polisïau eraill) amcanion y llywodraeth ar gyfer cadw a gwella'r dreftadaeth naturiol - yn benodol, diogelu cynefinoedd, coed a choetiroedd brodorol a thirweddau sydd â dynodiadau statudol. Mae system wybodaeth LANDMAP [2] wedi'i chymeradwyo fel adnodd pwysig i'w ddefnyddio ar gyfer asesu'r dirwedd. Caiff pob math o ynni adnewyddadwy ei hyrwyddo lle mae'n dderbyniol yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol.

1.7 Mae Argraffiad 8 o Bolisi Cynllunio Cymru yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy cynaliadwy yn y ffordd ganlynol:
*'Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud ei rhan drwy gyflawni rhaglen ynni sy'n cyfrannu at ostwng allyriadau carbon fel rhan o'n gwaith i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd (gweler 4.5) tra'n hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau Cymru er mwyn sicrhau gwell ansawdd bywyd i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol. Amlinellir hyn yn Natganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cymru Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012).'* [3]

1.8 O ran rhoi cyngor mwy penodol, mae Polisi Cynllunio Cymru'n mynd ymlaen i nodi:
*'Dylai polisïau cynllunio ar bob lefel hwyluso cyflawni'r uchelgais a fynegir yn Ynni Cymru: Newid Carbon Isel a thargedau'r DU ac Ewrop ar ynni adnewyddadwy. Mae'r Gyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy yn cynnwys rhwymedigaethau penodol er mwyn ei gwneud yn haws mynd ati'n effeithiol i ystyried ffynonellau ynni adnewyddadwy, technoleg hynod effeithiol a systemau gwresogi ac oeri ardal yng nghyd-destun datblygu ardaloedd diwydiannol a phreswyl. Hefyd (o 1 Ionawr 2012 ymlaen) bydd yn ei gwneud yn ofynnol bod pob adeilad cyhoeddus newydd, ac adeilad cyhoeddus presennol sy'n cael ei ailwampio, yn batrwm i eraill yng nghyd-destun y Gyfarwyddeb.* Mae'r materion sydd wrth graidd y dyletswyddau hyn yn rhai y bu'r polisi cynllunio yn canolbwyntio arnynt ers tro byd yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn, dylai awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr fel ei gilydd dalu sylw penodol i'r canllawiau a geir yn Nodyn Cyngor Technegol 8: *Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Chynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy - Llawlyfr i Gynllunwyr.'* [4]

---

[2] Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 8, paragraff 5.3.12, t. 85. LANDMAP yw'r dull swyddogol a hyrwyddir i asesu'r dirwedd yng Nghymru; gweinyddir ei system wybodaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
[3] *Polisi Cynllunio Cymru*, Argraffiad 8 (Ionawr 2016), paragraff 12.8.1, t. 178
[4] *Polisi Cynllunio Cymru*, Argraffiad 8 (Ionawr 2016), paragraff 12.8.2, t. 178–179

*Nodiadau Cyngor Technegol*

1.9 Cefnogir Polisi Cynllunio Cymru gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN).Cynhyrchwyd TAN8: *Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy* (Saesneg yn unig) ym mis Gorffennaf 2005. Nid yw wedi cael ei ddiweddaru ers hynny. Mae TAN8 yn darparu canllawiau cyfyngedig o ran technoleg cynhyrchu pŵer solar, a oedd, ar adeg ei baratoi, yn bennaf ar ffurf paneli solar thermol a solar ffotofoltäig wedi'u gosod ar doeon adeiladau. Mae'r canllaw cyffredinol ym mharagraff 3.15 o TAN8 yn berthnasol o hyd o ystyried cynlluniau cynhyrchu pŵer solar ffotofoltäig ar raddfa cae, ac mae wedi'i eirio fel a ganlyn:

*'Other than in circumstances where visual impact is critically damaging to a listed building, ancient monument or a conservation area vista, proposals for appropriately designed solar thermal and PV systems should be supported.'* [5]

1.10 Mae TAN 12: *Dyluniad* yn dadlau dros gymeradwyo cymeriad y dirwedd fel rhan o ddatblygiad dylunio llwyddiannus, gan nodi: *'Mae'r berthynas rhwng datblygiad a'i dirwedd drefol neu wledig neu'r forwedd yn dyngedfennol i'w lwyddiant. Oherwydd hyn, mae deall ansawdd y dirwedd, gan gynnwys ei chymeriad hanesyddol, yn sylfaenol i'r broses ddylunio.'* [6]

1.11 Mae'r astudiaeth hon yn ymateb i'r cyngor yn TAN12: '*Mae awdurdodau cynllunio lleol yn gyfrifol am wneud asesiad digonol o nodweddion cymharol eu tirwedd leol. Gall y cynllun datblygu fanylu ar ddisgwyliadau'r awdurdod lleol o ran dylunio'r dirwedd neu gall hefyd fod â rôl o ran paratoi canllawiau dylunio a chanllawiau cynllunio atodol ar gyfer datblygiadau penodol neu ardaloedd penodol.'*[7]Y nod yw sicrhau bod effeithiau niweidiol ar y dirwedd yn gyfyngedig drwy leoli datblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae mewn ardaloedd lle mae'r dirwedd yn gallu addasu iddynt heb achosi niwed sylweddol. Mae TAN12 yn cyfeirio at y defnydd o LANDMAP fel '*un dull o asesu ac mae iddo'r potensial i ddarparu fframwaith a sylfaen gwybodaeth y gellir datblygu dylunio a rheoli da ohoni*'.[8] Mae barn yr astudiaeth hon yn seiliedig ar ddata cyfredol LANDMAP a gyhoeddwyd, ar draws pob un o'r pump 'agwedd', ac mae'n adolygu cynnwys y setiau data hynny'n feirniadol.[9]

## Cyd-destun Polisi Lleol

1.12 Mae polisïau cynllunio canlynol Cyngor Sir Caerfyrddin, sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin (a fabwysiadwyd gan y cyngor sir ar 10 Rhagfyr 2014), yn cael eu hystyried yn berthnasol iawn i'r astudiaeth hon.

1.13 Polisïau Strategol:

***'SP2 Y Newid yn yr Hinsawdd***

---

5 TAN8, Gorffennaf 2005, paragraff 3.15, t. 11

6 TAN12, Mai 2016, paragraff 5.5.1, t. 33

7 TAN12, Mai 2016, paragraff 5.5.3, t. 34

8 TAN12, Mai 2016, paragraff 4.11, t. 15

9 Daeth yr adolygiad beirniadol hwn i'r casgliad mai prin oedd gwerth y data ar yr Agwedd Ddiwylliannol o ran llywio'r broses asesu ar gyfer yr astudiaeth hon.

*Bydd cynigion datblygu sy'n ymateb i achosion ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, yn eu gwrthsefyll, yn ymaddasu iddynt ac yn eu lleihau, yn cael eu cefnogi. Yn benodol bydd cynigion yn cael eu cefnogi os ydynt:*

- *a) Yn cadw at yr hierarchaeth gwastraff, ac yn benodol lleihau gwastraff;*
- *b) Yn hybu defnyddio adnoddau (gan gynnwys dŵr) yn effeithlon;*
- *c) Yn adlewyrchu egwyddorion trafnidiaeth gynaliadwy ac yn lleihau'r angen i deithio, yn arbennig mewn ceir modur preifat;*
- *d) Yn osgoi neu, lle bo'n briodol, yn lleihau perygl llifogydd gan gynnwys ymgorffori mesurau fel SDCau a dylunio sy'n gwrthsefyll llifogydd;*
- *e) Yn hybu'r hierarchaeth ynni trwy leihau'r galw am ynni, hybu effeithlonrwydd ynni a chynyddu'r cyflenwad ynni adnewyddadwy;*
- *f) Yn ymgorffori atebion dylunio priodol sy'n ymateb i'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys cyfeiriad, patrwm, dwysedd ac atebion carbon isel (gan gynnwys dyluniad a dulliau adeiladu) a defnyddio dulliau adeiladu cynaliadwy os yw'n ymarferol.*

*Gwrthwynebir cynigion ar gyfer datblygiadau sydd wedi'u lleoli mewn mannau lle ceir perygl llifogydd oni fônt yn gyson â darpariaethau TAN 15.'*

***'SP11 Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni***

*Bydd cynigion datblygu sy'n ymgorffori mesurau effeithlonrwydd ynni a thechnolegau cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn cael eu cefnogi mewn ardaloedd lle gellir mynd i'r afael â'r effeithiau amgylcheddol a chronnol yn foddhaol. Ni fydd datblygiadau o'r fath yn achosi niwed dangosadwy i amwynder preswyl a byddant yn dderbyniol yn y dirwedd. Bydd pob cynnig yn cael ei asesu fesul achos unigol.*

*Dim ond yn yr Ardaloedd Chwilio Strategol y bydd ffermydd gwynt mawr yn cael eu caniatáu.'*

***'SP14 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol***

*Dylai datblygiadau adlewyrchu'r angen i warchod a, lle bynnag y bo modd, gwella amgylchedd naturiol y sir.*

*Dylid ystyried pob cynnig datblygu yn unol â chanllawiau cenedlaethol/deddfwriaeth a pholisïau a chynigion y Cynllun hwn, gan roi ystyriaeth ddyledus i ardaloedd o werth cadwraeth natur, cefn gwlad, tirweddau ac ardaloedd arfordirol, gan gynnwys y rheiny a nodir isod:*

- *a) Safleoedd â dynodiad statudol gan gynnwys safleoedd Ramsar, AGA, ACA, SoDdGA a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol;*
- *b) Bioamrywiaeth a Gwerth Cadwraeth Natur, gan gynnwys rhywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig o bwysigrwydd cydnabyddedig yn ogystal â choridorau a llwybrau cysylltedd allweddol(Polisïau EQ4 ac EQ5);*
- *c) Safleoedd sy'n bwysig yn lleol ac yn rhanbarthol (a'u nodweddion) gan gynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol a RIGS(gweler Polisi EQ3);*
- *d) Ardaloedd o ansawdd tirweddol a morweddol dynodedig(gan gynnwys ATA);*
- *e) Nodweddion sy'n cyfrannu at natur unigryw leol, gwerth cadwraeth natur neu'r dirwedd(gweler Polisi EQ5);*
- *f) Y Cefn Gwlad Agored(gweler Polisi GP2);*
- *g) Y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlddefnydd(Graddau 2 a 3a);*
- *h) Asedau naturiol: gan gynnwys aer, pridd (gan gynnwys priddoedd â llawer o garbon), dyfroedd a reolir ac adnoddau dwr(gweler Polisïau EP1 ac EP2).'*

***'SP17 – Seilwaith***

*Caiff datblygiadau eu cyfeirio at leoliadau lle mae seilwaith digonol a phriodol ar gael neu y gellir ei ddarparu'n rhwydd. Felly mae'r CDLl yn cefnogi darparu seilwaith mewn modd darbodus trwy ddyrannu safleoedd mewn aneddiadau dynodedig ac yn unol â'r Fframwaith Aneddiadau.*

*Caiff cynigion ar gyfer datblygiadau atodol i'r seilwaith cyfleustodau eu caniatáu os:*

- *a) ydynt yn rhoi sylw i'w lleoliad;*
- *b) ydynt yn ymgorffori gwaith tirweddu;*
- *c) nad ydynt yn gwrthdaro â phriodweddau'r ardal o ran yr amgylchedd adeiledig, hanesyddol a diwylliannol, cadwraeth natur a'r dirwedd(Polisïau SP13 a SP14)*

*Mae'n bosibl y ceisir Rhwymedigaethau Cynllunio yn ymwneud â chyfraniadau datblygwyr tuag at welliannau angenrheidiol i seilwaith, yn ddarostyngedig i bolisi GP3.'*

1.16 Polisïau Penodol:

***'Polisi GP1 Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da***

*Caiff cynigion datblygu eu caniatáu os ydynt yn unol â'r canlynol:*

- *a) Mae'n cydymffurfio â chymeriad a golwg y safle, adeilad neu ardal, ac yn eu gwella, yn nhermau lleoliad, golwg, graddfa, uchder, mas, addurn y wynebau, a'r manylion;*
- *b) Mae'n ymgorffori nodweddion tirweddol neu nodweddion eraill sy'n bodoli eisoes, yn cymryd i ystyriaeth gyfuchlinau'r safle a newidiadau mewn lefelau a nenlinellau neu gefnennau amlwg;*
- *c) Mae'n defnyddio deunyddiau sy'n briodol i'r ardal lle y saif;*
- *d) Ni fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar amwynder defnyddiau tir, eiddo neu breswylwyr cyfagos, neu'r gymuned;*
- *e) Mae'n cynnwys cymysgedd integredig o ddefnyddiau sy'n briodol i raddfa'r datblygiad;*
- *f) Mae'n cadw, a lle bo'n briodol yn ymgorffori, nodweddion lleol pwysig (gan gynnwys adeiladau, mannau amwynder, mannau agored, coed, coetiroedd a pherthi) ac yn sicrhau y defnyddir tirweddu caled a meddal o ansawdd da ac yn manteisio ar gyfleoedd i wella bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol;*
- *g) Mae'n sicrhau ac yn creu lleoedd a mannau cyhoeddus deniadol a diogel, sy'n sicrhau diogelwch trwy egwyddorion 'dylunio i atal trosedd' Diogelu Drwy Ddylunio (gan gynnwys darparu gwyliadwriaeth naturiol, gweledедd, amgylcheddau sydd wedi'u goleuo'n dda a mannau lle mae'r cyhoedd yn symud o gwmpas);*
- *h) Mae mynedfa briodol yn bodoli neu gellir darparu un nad yw'n creu unrhyw bryderon ynghylch parcio neu ddiogelwch ar y ffyrdd ar y safle neu yn yr ardal;*
- *i) Mae'n gwarchod a gwella treftadaeth dirweddol, drefweddol, hanesyddol a diwylliannol y sir ac nid oes unrhyw effeithiau andwyol ar y lleoliad neu gyfanrwydd yr amgylchedd hanesyddol;*
- *j) Mae'n sicrhau neu'n darparu ar gyfer cynhyrchu, trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr brwnt mewn modd boddhaol;*
- *k) Mae'n rhoi sylw i gynhyrchu, trin a gwaredu gwastraff;*
- *l) Mae'n rhoi sylw i ddefnydd diogel, effeithiol ac effeithlon o'r rhwydwaith trafnidiaeth;*
- *m) Mae'n darparu rhwydwaith integredig sy'n hybu buddiannau cerddwyr, beicwyr a thrafnidiaeth gyhoeddus sy'n sicrhau mynediad rhwydd i bawb;*
- *n) Mae'n cynnwys, lle bo'n berthnasol, darpariaeth ar gyfer rheoli a dileu rhywogaethau goresgynnol yn briodol.*

*Caiff cynigion eu hystyried hefyd yng ngoleuni polisïau a darpariaethau'r Cynllun hwn a pholisïau cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 8 a TAN12: Dylunio (2014)).'*

***'Ynni Adnewyddadwy***

***Polisi RE3 Gosodiadau Ynni Adnewyddadwy Heblaw Gwynt***

*Cynigion o fewn Terfynau Datblygu*

*Bydd cynigion ar gyfer gosodiadau ynni adnewyddadwy heblaw gwynt yn cael eu caniatáu o fewn Terfynau Datblygu diffiniedig, ar yr amod nad ydynt yn achosi effaith annerbyniol ar gymeriad yr ardal leol ac ar amwynder tir, eiddo a phreswylwyr cyfagos a'r gymuned. Ni fydd cynigion yn cael eu caniatáu os ydynt yn cael effaith negyddol ar archeoleg neu leoliad a chyfanrwydd Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig neu nodweddion neu fannau eraill o werth hanesyddol.*

*Cynigion y tu allan i Derfynau Datblygu*

*Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer gosodiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach heblaw gwynt y tu allan i Derfynau Datblygu diffiniedig gyfiawnhau'n foddhaol yr angen i gael eu lleoli mewn lleoliad o'r fath. Dylai cynigion o'r fath gael eu lleoli'n agos i adeiladau a strwythurau sy'n bodoli eisoes ac ni fyddant yn achosi niwed dangosadwy i'r dirwedd.*

*Mae'n bosibl y bydd cynlluniau ar raddfa fawr y tu allan i Derfynau Datblygu diffiniedig yn cael eu caniatáu mewn amgylchiadau eithriadol lle mae angen, sy'n drech na dim arall, am y cynllun y gellir ei gyfiawnhau'n foddhaol, ac na fydd y datblygiad yn achosi niwed dangosadwy i'r dirwedd.*

*Ni fydd cynigion a fyddai'n achosi niwed dangosadwy i'r dirwedd, effaith weledol, sŵn, ecoleg, neu ddŵr daear a dŵr wyneb o ganlyniad i effaith gronnol gosodiadau ynni adnewyddadwy'n cael eu caniatáu.'*

***'Priodweddau Amgylcheddol – Amgylchedd Adeiledig a Naturiol***

***Polisi EQ1 Gwarchod Adeiladau, Tirweddau a Nodweddion o Bwysigrwydd Hanesyddol***

*Ni fydd cynigion ar gyfer datblygiadau sy'n effeithio ar dirweddau, trefweddau, adeiladau a safleoedd neu nodweddion o ddiddordeb hanesyddol neu archeolegol sydd, yn rhinwedd eu pwysigrwydd, cymeriad neu arwyddocâd hanesyddol mewn grwp o nodweddion yn gwneud cyfraniad pwysig at y cymeriad lleol ac at ddiddordeb yr ardal, yn cael eu caniatáu ond os ydynt yn gwarchod neu'n gwella'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol.'*

***'Polisi EQ6 Ardaloedd Tirwedd Arbennig***

*Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig wedi'u dynodi yn y mannau canlynol ac wedi'u nodi ar y map cynigion:*

*Dyffryn Tywi*
*Esgair Galchfaen Sir Gaerfyrddin*
*Dyffryn Teifi*
*Dre-fach Felindre*
*Cwm Brân (i'r gogledd o Lanymddyfri)*
*Mynydd Mallaen*
*Mynydd Llanllwni*
*Ucheldiroedd y Gogledd-ddwyrain*
*Mynydd y Betws*
*Gwastadeddau Gwendraeth*
*Mynydd Pen-bre*
*Swiss Valley*
*Talyllychau*
*Dyffryn Llwchwr*

*Dyffryn Taf Isaf*
*Dyffryn Cothi*
*Cwm Cathan*
*Bae ac Aberoedd Caerfyrddin*

*Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau a fydd yn gwella'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig trwy eu dyluniad, golwg a chynlluniau tirweddol yn cael eu caniatáu (yn ddarostyngedig i bolisïau a chynigion y Cynllun hwn).'*

# Adran 2 :
# METHODOLEG

## Trosolwg o'r Fethodoleg Asesu

2.1 Mae Cymru'n unigryw yn y DU o ran ei bod wedi gweithredu LANDMAP – dull cyson o asesu'r dirwedd ar draws y wlad gyfan, a gofnodir mewn cronfa ddata y mae modd i'r cyhoedd fynd ati. Mae'r astudiaeth hon yn seiliedig ar ddata cyfredol a gyhoeddwyd gan LANDMAP, a ategir, fel y bo'n briodol, gan ffynonellau gwybodaeth eraill ac arolygon maes.

2.2 Mae'r fethodoleg yn nodi nifer o nodweddion y dirwedd - a gasglwyd fel ymatebion wrth ymchwilio setiau data LANDMAP. Mae'r ymatebion hyn yn creu dangosyddion ynghylch sensitifrwydd y dirwedd i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae.

**Tabl 1**: Mae *Teipolegau*[1] yn nodi paramedrau'r cynlluniau paneli solar ffotofoltäig a ddefnyddir yn yr asesiad hwn.

**Tabl 2**: Mae *Diffiniad o Sensitifrwydd* yn nodi'r diffiniadau o sensitifrwydd.

**Tabl 3**: Mae'r *Meini Prawf ar gyfer Asesu'r Dirwedd a Sensitifrwydd Gweledol i Ddatblygu Paneli Solar Ffotofoltäig* yn nodi'n fanwl:

- pa gwestiynau ac ymatebion LANDMAP a ddefnyddiwyd er mwyn llywio'r astudiaeth hon;
- pam fod y cwestiynau hyn a'u hymatebion wedi'u dewis fel dangosyddion o sensitifrwydd y dirwedd i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae; a
- sut mae'r ymatebion hyn wedi cael eu dehongli er mwyn dangos sensitifrwydd uwch neu is.

Mae Tabl 3 hefyd yn dangos lle mae ffynonellau eraill o wybodaeth wedi cael eu defnyddio er mwyn llywio'r asesiad, a lle mae gwaith arolwg maes wedi bod yn arbennig o bwysig wrth roi gwybodaeth bellach sydd wedi'i hystyried.

**Tabl 4**: Mae'r *Meini Prawf ar gyfer Sefydlu Gwerth y Dirwedd* yn nodi'r meini prawf perthnasol ar gyfer sefydlu gwerth y dirwedd.

2.3 Yn absenoldeb unrhyw 'Ardaloedd Cymeriad Tirwedd' sydd wedi'u nodi gan waith asesu cymeriad tirwedd blaenorol yn ardal yr astudiaeth, mae 'Unedau Tirwedd' arwahanol wedi'u nodi, eu diffinio a'u mapio ledled y sir ar gyfer yr astudiaeth sensitifrwydd hon o baneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae. Adolygwyd data LANDMAP - yn benodol data Ardaloedd Agwedd Weledol a Synhwyraidd - fel ymarfer wrth y ddesg ac yn ystod arolygon maes, er mwyn mynd i'r afael â nodweddion

[1] Cyfeiriwch at y rhestr termau yn Atodiad 1 er mwyn cael esboniad o'r term hwn, a sut y mae'n cael ei ddefnyddio yn yr astudiaeth hon.

allweddol, gan gynnwys graddfa, tirffurf, ymdeimlad o le, gorchudd tir a derbynyddion gweledol. O ganlyniad i'r broses hon, penderfynwyd y gellir defnyddio Ardaloedd Agwedd Weledol a Synhwyraidd LANDMAP yn effeithiol fel sail ar gyfer yr Unedau Tirwedd a nodwyd. Mewn rhai achosion, mae Ardaloedd Agwedd Weledol a Synhwyraidd wedi'u cyfuno er mwyn llunio Unedau Tirwedd lle maent yn rhannu nodweddion allweddol tebyg, fel y nodir yn *Atodiad 3*.

2.4 Mae *Gwerth Tirwedd* wedi'i sefydlu ar gyfer pob Uned Dirwedd, gan ddefnyddio data LANDMAP – yn benodol 'Gwerthusiadau Cyffredinol' sy'n 'Uchel' neu'n 'Rhagorol' – a phresenoldeb neu agosrwydd dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol (ar gyfer cadwraeth tirweddau, cadwraeth bioamrywiaeth, cadwraeth ddaearegol neu warchod tirwedd hanesyddol). Yn nherminoleg LANDMAP, mae gwerthusiad 'Rhagorol' yn cael ei ystyried o bwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol; mae gwerthusiad 'Uchel' yn cael ei ystyried o bwysigrwydd rhanbarthol neu sirol.

2.5 Mae *gwerthusiad cyffredinol o sensitifrwydd* ar gyfer pob un o'r gwahanol deipolegau paneli solar ffotofoltäig hefyd wedi'i roi i bob Uned Dirwedd. Mae'r asesiadau o sensitifrwydd yn ystyried:

- rhagdueddiadau'r dirwedd a nodwyd;
- y gwerth a roddwyd ar y dirwedd; a
- phresenoldeb datblygiad paneli solar ffotofoltäig gweithredol neu a gydsyniwyd ar raddfa cae sydd o fewn yr Uned Dirwedd neu y gellir ei weld ohoni [ar sail data a gafwyd ym mis Mawrth 2017].

2.6 Mae *capasiti dangosol ar gyfer datblygiad paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae* wedi ei briodoli wedyn i bob Uned Dirwedd. Mae'r asesiad capasiti hwn yn seiliedig ar gyfuniad o sensitifrwydd yr uned, maint yr Uned Dirwedd, a phresenoldeb neu agosrwydd cynlluniau paneli solar ffotofoltäig gweithredol ar raddfa cae sydd o fewn yr Uned neu y gellir eu gweld o'r Uned.

2.7 Mae Adran 5 yr adroddiad hwn *yn rhoi canllawiau cyffredinol ar gyfer lleoli amrywiaeth o ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae*. Darperir canllawiau penodol hefyd ar gyfer pob Uned Dirwedd. Mae canllawiau sy'n benodol i uned yn ystyried, yn benodol, dynodiadau tirwedd neu ddiwylliannol yn yr uned, nodweddion y dirwedd yn yr uned, ac a ellir ei gweld o Unedau Tirwedd cyfagos.

2.8 Disgrifir methodoleg yr astudiaeth hon yn fanwl yn y testun canlynol.

***Tabl 1*: Teipolegau**

| | **Arwynebedd y safle** | **Allbwn dangosol yn seiliedig ar 2ha/MWp** |
|---|---|---|
| **Bach** | 1 hectar i 5 hectar | 0.5MWp i 2.5MWp |
| **Canolig** | >5 hectar i 15 hectar | >2.5MWp i 7.5MWp |
| **Mawr** | >15 hectar | >7.5MWp |

## Cam Un: Fframwaith Asesu

### *Canllawiau*

2.9 Seiliwyd y fethodoleg ar astudiaeth beilot 'Blaenau'r Cymoedd', ac fe'i hysbyswyd gan ddogfennau eraill a restrir yn *Atodiad 2*. Er y cafodd astudiaethau awdurdodau lleol ar gapasiti a sensitifrwydd tirweddau i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae yn Lloegr eu hastudio ar gyfer eu perthnasedd i'r astudiaeth dan sylw - gan gynnwys cyfeiriad at *Planning Guidance for Development of Large-scale Ground-mounted solar PV Systems*; *BRE National Solar Centre and Cornwall Council (Hydref 2013)* - nid oes, hyd yn hyn, unrhyw arweiniad o ran datblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae a ddyluniwyd yn benodol i'w ddefnyddio yng Nghymru. Yn unol â hynny, mae'r astudiaeth wedi dilyn arferion da drwy ddefnyddio'n helaeth *Guidelines for Landscape and Visual Impact Assessment*, Argraffiad 3 (Ebrill 2013), a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Tirwedd a'r Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol (GLVIA3). Dyma safon y diwydiant ar gyfer ymgymryd ag asesiadau o'r dirwedd ac asesiadau gweledol.

2.10 Mae GLVIA3 yn dadlau dros ddefnyddio barn broffesiynol ynghyd â dealltwriaeth o gymeriad tirwedd er mwyn asesu beth sy'n gwneud un dirwedd yn fwy neu'n llai sensitif na thirwedd arall i fath penodol o ddatblygiad. Yn allweddol i hyn yw dealltwriaeth drylwyr o ba agweddau ar y dirwedd (ffisegol a chanfyddiadol) sy'n arbennig o sensitif i'r math o ddatblygiad a gynigiwyd.

### *Ffynonellau Data*

2.11 Llywiwyd yr asesiad gan ddata a gasglwyd o ffynonellau o wybodaeth sylfaenol a restrir yn *Atodiad 3*.Setiau data agwedd LANDMAP cyfredol a gyhoeddwyd oedd y brif ffynhonnell ddogfennol, a ategwyd drwy gyfeirio at fapiau Arolwg Ordnans, asesiadau hanesyddol perthnasol o nodweddion tirweddau, gwaith maes helaeth, ac ymgynghoriadau â swyddogion prosiect y cleient – gan gynnwys swyddog tirwedd Cyngor Sir Caerfyrddin.

2.12 LANDMAP yw dull Cymru o asesu'r dirwedd, ac mae ei setiau data cyfredol a gyhoeddwyd wedi'u defnyddio'n helaeth er mwyn llywio'r astudiaeth hon, yn unol â chyngor gan GLVIA3. Mae LANDMAP yn adnodd tirwedd Cymru gyfan sy'n seiliedig ar System Gwybodaeth Ddaearyddol lle caiff nodweddion tirwedd, rhinweddau a dylanwadau ar y dirwedd eu cofnodi a'u gwerthuso er mwyn creu set ddata sy'n gyson yn genedlaethol. Mae LANDMAP yn cynnwys pum cyfres o ddata (haenau) sy'n gysylltiedig yn ofodol ac a ddisgrifir fel 'agweddau': tirwedd ddiwylliannol, tirwedd ddaearegol, tirwedd hanesyddol, cynefinoedd tirwedd, a gweledol a synhwyraidd. Ceir gwybodaeth fanwl am bob agwedd yn y 'Trosolwg o LANDMAP: Canllawiau i Gymru' (CCGC 2008).

2.13 Mae pob un o'r pum haen ofodol wedi'i rhannu'n unedau daearyddol arwahanol (polygonau System Gwybodaeth Ddaearyddol) y cyfeirir atynt fel 'ardaloedd agwedd'. Mae pob ardal agwedd ar y map yn cael ei diffinio gan ei nodweddion a rhinweddau tirwedd adnabyddedig. Gyda phob ardal agwedd mae disgrifiad (a elwir yn gofnod 'Arolwg Casglwr'), sy'n disgrifio ac yn dogfennu cymeriad, nodweddion a rhinweddau'r dirwedd. Mae argymhellion rheoli hefyd yn cael eu nodi, ynghyd â sgôr gwerthusiad cyffredinol, yng nghyd-destun *'ychydig neu ddim pwysigrwydd'* i *'bwysigrwydd rhyngwladol'*.Mae pob Arolwg Casglwr yn cofnodi gwybodaeth o safbwynt unigryw'r haen LANDMAP dan sylw, gyda phob haen LANDMAP yn cael ei chynhyrchu ar wahân ar gyfer pob un o'r pum haen.

Felly, pan gyfeirir at nodweddion allweddol ar draws nifer o haenau ar gyfer yr un ardal ddaearyddol, pwysleisir gwerth eu pwysigrwydd fel arfer.

2.14 Mae cafeat pwysig wedi'i gynnwys yn GLVIA3 mewn perthynas â defnyddio gwybodaeth asesu nodweddion tirwedd sydd eisoes yn bodoli. Mae'r canllawiau'n cynghori y dylid adolygu gwybodaeth asesu nodweddion tirwedd sydd eisoes yn bodoli yn feirniadol. [2] Fel rhan o adolygiad beirniadol o'r fath, daethom i'r casgliad, er bod Nodyn Canllaw 3 yn argymell y dylid defnyddio data o *bob un* o bum haen LANDMAP mewn unrhyw asesiad, nad oedd y wybodaeth Tirwedd Ddiwylliannol yn ardal yr astudiaeth yn cael ei hystyried yn ddigon manwl i'w defnyddio'n sylweddol at ddibenion yr astudiaeth hon. Mae nifer fach o Ardaloedd Agwedd Ddiwylliannol sy'n gorchuddio pob rhan o Sir Gaerfyrddin ac, oherwydd eu graddfa, prin yw'r wybodaeth y maent yn eu rhoi er mwyn cynorthwyo gyda gwahaniaethu un Uned Dirwedd o un arall. Mewn cyferbyniad â hyn, mae'r pedwar o setiau data agwedd eraill wedi nodi, dynodi a gwerthuso ardaloedd daearyddol llawer yn llai.

*Ardal yr Astudiaeth*

2.15 Mae *Ffigwr 02* yn dangos ardal yr astudiaeth yn Sir Gaerfyrddin, sy'n cynnwys ardal weinyddol awdurdod lleol Cyngor Sir Caerfyrddin ond sy'n eithrio'r rhan ddaearyddol honno o'r sir sydd o fewn ardal weinyddol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

2.16 Yn ogystal â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yr ardaloedd sydd o ddiddordeb tirwedd arbennig a ddengys ar *Ffigwr 02* yw Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, sydd wrth ymyl rhan ogledd-orllewinol ardal yr astudiaeth; saith o Dirweddau Cofrestredig sydd o Ddiddordeb Hanesyddol, sef Preseli, Aber Afonydd Taf a Thywi, Dyffryn Teifi Isaf, Dre-fach a Felindre, Dyffryn Tywi, y Mynydd Du a Mynydd Myddfai, a Dolaucothi; a 18 Ardal Tirwedd Arbennig a ddynodwyd gan y cyngor sir sy'n cynnwys dyffrynnoedd afonydd, tirweddau ucheldirol, a thirweddau arfordirol.

2.17 Mae ardal yr astudiaeth yn cynnwys Ardal Chwilio Strategol G Coedwig Brechfa TAN 8, a'r rhan ogledd-orllewinol uchaf o Ardal Chwilio Strategol E Pontardawe - sy'n dynodi meysydd chwilio lle ystyrir bod datblygiadau ffermydd gwynt ar raddfa fawr yn addas. Mae bodolaeth yr Ardaloedd Chwilio Strategol hyn yn ffactor pwysig wrth ystyried effeithiau cronnol posibl datblygiad paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae ar y cyd â datblygiadau tyrbinau gwynt gweithredol neu gynlluniedig - yn enwedig y rhai sydd ar raddfa fawr.

2.18 Mae *Ffigwr 04* yn dangos y topograffi nodedig iawn sydd yn ardal yr astudiaeth.

*Meini Prawf Sensitifrwydd Tirwedd a Gweledol*

2.19 Defnyddiwyd data cyfredol LANDMAP a gyhoeddwyd er mwyn rhoi disgrifiad cyson a wiriwyd yn annibynnol o nodweddion y dirwedd (ffisegol a chanfyddedig) a allai gael eu heffeithio arnynt gan ddatblygiad paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae.

[2] GLVIA3, paragraff 5.13, t. 77, a *Summary Advice on Good Practice*, tt. 93–94

2.20 Mae *Tabl 3* yn nodi:

- y nodweddion sydd wedi cael eu nodi fel dangosyddion o sensitifrwydd i wahanol baramedrau o ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae, ac esboniad o sut maent yn cael effaith ar ragdueddiad y dirwedd a/neu ragdueddiad gweledol;
- ymatebion i gwestiynau LANDMAP a ffynonellau eraill o wybodaeth a ddefnyddiwyd er mwyn sefydlu'r nodweddion sydd ym mhob Uned Dirwedd;
- gwerthusiadau LANDMAP a ffynonellau eraill o wybodaeth a ddefnyddiwyd er mwyn sefydlu gwerth pob Uned Dirwedd.

2.21 Gall tirwedd sy'n cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan gymdeithas ddal addasu i ryw fath o ddatblygiad paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae yn y lleoliad cywir – cyhyd â'i fod yn gweddu i nodweddion y dirwedd sy'n ei dderbyn. Mewn tirweddau dynodedig cenedlaethol (parciau cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol), mae datblygiad paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae yn dderbyniol, cyhyd â nad yw'n peryglu pwrpas y dynodiad. Mewn tirweddau nad ydynt wedi'u gwarchod yn statudol gan ddynodiadau o'r fath, mae datblygiad paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae yn dderbyniol, cyhyd â nad yw'n peryglu ansawdd y rhinweddau a'r gwerthoedd a briodolir i'r dirwedd. I'r gwrthwyneb, gall tirwedd nad oes ganddi ddynodiad ffurfiol fod yn hynod sensitif, mewn gwirionedd, i ddatblygiad paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae – os oes ganddi nodweddion tirwedd neu weledol penodol sy'n sensitif iawn i ddatblygiad paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae.

2.22 Cafodd sensitifrwydd pob Uned Dirwedd yn ardal yr astudiaeth ei asesu yn erbyn pob maen prawf o ran sensitifrwydd, fel y disgrifir yn *Nhabl 3*, a rhoddwyd gradd iddi gan ddefnyddio graddfa sensitifrwydd tri phwynt: uchel, canolig neu isel. Mae *Tabl 3* yn dangos sut mae ymatebion i gwestiynau neu werthusiadau LANDMAP wedi'u defnyddio i nodi sensitifrwydd i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae. Mae *Tablau Sensitifrwydd a Chapasiti* ar gyfer pob Uned Dirwedd yn llunio *Adran Pedwar* o'r astudiaeth hon.

2.23 Yn unol â GLVIA3, mae safbwyntiau ynglŷn â sensitifrwydd tirwedd a gweledol yn deillio o gyfuno safbwyntiau ynghylch y sensitifrwydd i newidiadau sy'n codi o'r cynigion penodol gyda safbwyntiau ynglŷn â'r gwerth a briodolir i'r dirwedd a derbynyddion gweledol.

2.24 Mae'r asesiad terfynol o sensitifrwydd yn cyfuno:

- safbwyntiau sy'n ymwneud â sensitifrwydd y dirwedd;
- safbwyntiau sy'n ymwneud â sensitifrwydd gweledol;
- y gwerth a briodolir i'r dirwedd; a
- phresenoldeb a math o dderbynyddion gweledol.

### ***Tabl 2*: Sensitifrwydd**

| **Sensitifrwydd*** | **Diffiniad** |
|---|---|
| **Isel** | Nid yw nodweddion allweddol yr Uned Dirwedd yn agored iawn i newid, a gallent addasu i dderbyn datblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae o'r |

| | |
|---|---|
| | deipoleg benodedig, os ydynt wedi'u lleoli a'u dylunio'n ofalus. |
| **Canolig** | Gall nodweddion allweddol yr Uned Dirwedd fod yn agored i newid, ond gallent addasu i dderbyn rhywfaint o ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae o'r deipoleg benodedig, os ydynt wedi'u lleoli a'u dylunio'n ofalus. |
| **Uchel** | Mae nodweddion allweddol yr Uned Dirwedd yn agored i niwed ac yn debygol o gael eu heffeithio'n niweidiol gan ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae o'r deipoleg benodedig. |
| *Sylwer bod asesiad o *sensitifrwydd cyffredinol* pob Uned Dirwedd yn seiliedig ar raddfa pum pwynt fel y manylir yn Adran 2.28 isod. | |

## *Cam Dau:* Asesu Sensitifrwydd Tirwedd a Gweledol

*Asesiad Sylfaenol*

2.25 Roedd cam cyntaf y broses yn cynnwys adolygu'r wybodaeth ganlynol yn fanwl:

- Mapiau Arolwg Ordnans a ffotograffau o'r awyr;
- Tirweddau dynodedig a thirweddau a werthfawrogir yn genedlaethol/rhanbarthol/lleol, gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Ardaloedd Tirwedd Arbennig, Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig, a Pharciau a Gerddi Cofrestredig;
- Gwybodaeth o setiau data LANDMAP;
- Data mapio System Gwybodaeth Ddaearyddol Treftadaeth Naturiol ac Adeiledig; a
- Datblygiadau paneli solar ffotofoltäig sy'n bodoli eisoes yn ardal yr astudiaeth.

2.26 Caiff canfyddiadau'r arolygon wrth y ddesg, a gafodd eu mireinio wedyn yn dilyn y gwaith arolwg maes, eu cyflwyno yn *Adran 4*.Maent yn cynnwys trosolwg o nodweddion tirwedd allweddol ardal yr astudiaeth, disgrifiad o ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig sy'n bodoli eisoes ac sydd wedi derbyn caniatâd a'u heffeithiau ar y dirwedd, a sylwadau ar unrhyw broblemau o ran effeithiau presennol ac effeithiau cronnol posibl.

*Asesu Sensitifrwydd Unedau Tirwedd*

2.27 Cafodd taflenni asesu sensitifrwydd eu paratoi ar gyfer pob Uned Dirwedd, fel y cyflwynir yn *Adran 4*.Caiff nodweddion allweddol pob Uned Dirwedd eu disgrifio a'u gwerthuso yn erbyn y meini prawf ar gyfer sensitifrwydd a ddisgrifir yn *Nhabl 3*, gan ddefnyddio graddfa thri phwynt: uchel, canolig neu isel. Tynnir sylw at y nodweddion hynny sy'n cael eu hystyried yn sensitif iawn i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae. Sefydlir y gwerth sy'n gysylltiedig â'r dirwedd yn unol â'r meini prawf a nodir yn *Nhabl 4*.

2.28 Gwneir dyfarniad ar sensitifrwydd cyffredinol pob Uned Dirwedd i newid, yn gysylltiedig â phob math o deipoleg datblygiad paneli solar ffotofoltäig a nodir yn *Nhabl 1*, ar sail graddfa sensitifrwydd pum pwynt: isel, isel-canolig, canolig, canolig-uchel, ac uchel. Roedd y broses hon yn gofyn am ymagwedd gytbwys, gan ystyried yr holl feini prawf asesu. Roedd y gwerthusiadau hyn yn cynrychioli barn dau bensaer tirwedd siartredig sy'n gymwys ac yn brofiadol, ac maent yn seiliedig ar astudiaethau pen desg ac arolygon maes ill dau. Nid yw'r gwerthusiadau o sensitifrwydd yn seiliedig ar fformiwla fathemategol. Gall sensitifrwydd amrywio yn lleol o fewn yr Unedau Tirwedd a nodir, ac mae'r gwerthusiad cyffredinol yn cynrychioli'r sensitifrwydd cyffredinol ar draws yr Uned Dirwedd, er mwyn adlewyrchu natur strategol yr astudiaeth hon. Mae'r nodiadau cyfarwyddyd yn rhoi rhywfaint o wybodaeth ychwanegol ynghylch yr amrywiadau o fewn Unedau Tirwedd.

*Arolwg Maes*

2.29 Fel rhan o'r broses asesu, ymgymerwyd ag arolygon maes er mwyn helpu i brofi a mireinio'r canfyddiadau a darparu gwybodaeth ychwanegol, fel y manylir yn *Nhabl 3*.

2.30 Cam cyntaf y broses oedd asesu'r dirwedd bresennol yn ardal yr astudiaeth, gan gynnwys ei nodweddion penodol, dynodiad(au) tirwedd presennol, golygfeydd presennol, a chyd-destun datblygiadau ynni adnewyddadwy presennol.

2.31 Ar sail canlyniadau'r arolygon maes, cafodd gwerthusiadau drafft o ran sensitifrwydd Unedau Tirwedd eu mireinio, a pharatowyd yr asesiad sensitifrwydd terfynol a'r tablau cryno cysylltiedig ar gyfer pob Uned Dirwedd.

## ***Cam Tri:*** **Asesu Amcanion Tirwedd a Chapasiti**

2.32 Roedd y cam hwn yn yr astudiaeth yn cymhwyso safbwynt proffesiynol i benderfynu'r amcan(ion) tirwedd mwyaf addas a chapasiti perthynol pob un o'r Unedau Tirwedd a nodwyd. Cafodd y sensitifrwydd i bob math o deipoleg datblygiad paneli solar ffotofoltäig ei dynnu o'r meini prawf ar gyfer sensitifrwydd tirwedd a gweledol, gwerth y dirwedd, a'r potensial ar gyfer effeithiau cronnol.

*Amcanion Tirwedd*

2.33 Mynegwyd hyn fel y ddau amcan tirwedd canlynol:

*<u>Amcan 1: Gwarchod y Dirwedd</u> – dim newid i gyfanrwydd ac ansawdd cymeriad y dirwedd mewn tirweddau cenedlaethol dynodedig.*

Mae *gwarchod y dirwedd* yn berthnasol i'r tirweddau hynny lle mae cadwraeth adnoddau'r dirwedd a phrofiad gweledol o'r dirwedd wedi cael eu hasesu fel elfennau sy'n uchel iawn o ran pwysigrwydd.

Nod yr amcan hwn yw cadw neu atgyfnerthu cymeriad, ansawdd a chyfanrwydd presennol y dirwedd.

*Amcan 2: Addasu'r Dirwedd – cynnal cymeriad y dirwedd*

Mae *addasu'r dirwedd* yn berthnasol i'r tirweddau hynny lle mae cadwraeth cymeriad y dirwedd ac amwynder gweledol wedi cael eu hasesu i fod o bwysigrwydd cymedrol i uchel. Mae'r amcan hwn yn anelu at gadw cymeriad, ansawdd a chyfanrwydd cyffredinol y dirwedd, gan dderbyn ar yr un pryd y gall datblygiadau achlysurol ar raddfa fach i ganolig gael eu caniatáu. Efallai y bydd datblygiadau o'r fath yn effeithio ar y dirwedd leol ond ni ddylent beri newidiadau andwyol sylweddol i'w chymeriad.

2.34 Neilltuir amcan tirwedd i bob Uned Dirwedd, er mwyn helpu'r awdurdod lleol i wneud penderfyniadau ar geisiadau newydd. Mae'r amcanion tirwedd hyn yn ffurfio sail wedyn i argymhellion ar deipoleg y datblygiadau paneli solar ffotofoltäig a allai fod yn briodol ym mhob un o'r Unedau Tirwedd. Mae'r trothwy o ran newid tirwedd a all godi o ddatblygiad yn amrywio, ond tybir bod yna fwy o gapasiti fel arfer ar gyfer datblygiad paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae mewn ardaloedd o sensitifrwydd is lle mae newid tirwedd yn cael ei ystyried yn fwy derbyniol, tra bydd ardaloedd o sensitifrwydd uwch – yn enwedig y rhai hynny sydd wedi'u dynodi – yn debygol o fod â chapasiti isel iawn neu ddim capasiti o gwbl.

### *Capasiti Dangosol Tirwedd*

2.35 Mae capasiti dangosol cyffredinol tirwedd wedi'i bennu ar gyfer pob Uned Dirwedd drwy ystyried y ffactorau canlynol:

- Sensitifrwydd y Dirwedd – sensitifrwydd cyffredinol yr Uned Dirwedd i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae, yn seiliedig ar y sensitifrwydd tirwedd a gweledol a'r meini prawf o ran gwerth [fel y nodir yn *Nhabl 3 a Thabl 4*] a phresenoldeb datblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae sy'n bodoli eisoes neu sydd wedi derbyn caniatâd;
- Amcan Tirwedd – yr amcan(ion) a ddyrannwyd i'r Uned Dirwedd honno;
- Maint – efallai y bydd modd cynnwys mwy o ddatblygiadau mewn Unedau Tirwedd mawr nag mewn unedau llai.

2.36 Er y bydd y capasiti dangosol cyffredinol a aseswyd ar gyfer pob Uned Dirwedd yn helpu i ganfod y math o ddatblygiadau y gellid eu cynnwys, nid yw'n awgrymu y bydd ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae yn unol â'r capasiti dangosol ar gyfer unrhyw Uned Dirwedd benodol yn briodol bob amser.

### *Canllawiau ar Leoli a Dylunio*

2.37 Mae canllawiau wedi'u rhoi ar gyfer pob Uned Dirwedd – a fanylir yn *Adran 4*. Mae'r rhain yn nodi'r problemau tirwedd a gweledol allweddol sy'n debygol, o ran y cyfleoedd ac o ran y cyfyngiadau a all leihau'r posibilrwydd y gallai Uned Dirwedd benodol gynnwys datblygiad paneli solar ffotofoltäig.

2.38 Mae canllawiau cyffredinol hefyd wedi'u datblygu er mwyn mynd ochr yn ochr â'r canllawiau Uned Dirwedd penodol, ac mae’r rhain wedi'u cynnwys yn *Adran 5*.

**Tabl 3:**
**Meini Prawf ar gyfer Asesu Sensitifrwydd Tirwedd a Gweledol i Ddatblygiadau Paneli Solar Ffotofoltäig ar Raddfa Cae**

| ***Meini Prawf Tirwedd*** | | | |
|---|---|---|---|
| **LANDMAP a ffynonellau data eraill** | **Sensitifrwydd i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae** | | |
| | **Isel** | **Canolig** | **Uchel** |
| | | | |
| **Graddfa'r Dirwedd** | | | |
| *Mae tirweddau ar raddfa fawr fel arfer yn llai sensitif i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig mawr ar raddfa cae na thirweddau clyd ar raddfa fach.*<br><br>Fodd bynnag, gall tirweddau ar raddfa fach sydd â llawer o gaeau caeedig oherwydd gwrychoedd trwchus â choed, lleiniau neu goedlannau ('coedcae'), a darnau o goetir fod yn llai sensitif. | | | |
| **VS8: Graddfa** | tirweddau eang neu ar raddfa fawr | tirweddau ar raddfa ganolig | tirweddau ar raddfa fach |
| | | | |
| **Tirffurf** | | | |
| *Bydd araeau o baneli solar ffotofoltäig yn llai gweledol ar dirweddau gwastad nag ar lethrau, yn enwedig llethrau uwch ac ochrau uwch dyffrynnoedd.*<br><br>Mae'n debygol y bydd tirffurfiau sy'n llyfn, yn rheolaidd ac yn amgrwm, neu'n wastad ac yn unffurf, yn llai sensitif i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig na thirffurfiau amlwg a llethrau gweledol, neu dirffurfiau cymhleth ac amrywiol sydd â thirnodau nodweddiadol – gan gynnwys clogwyni arfordirol neu lethrau arfordirol serth – lle gallai araeau amlwg o baneli solar ffotofoltäig gael effaith niweidiol ar olwg y tirffurf a'r profiad a ddarperir ganddo.<br>Gall tirffurfiau cymhleth gynnig rhywfaint o gyfleoedd sgrinio ar gyfer araeau o baneli solar ffotofoltäig, ond rhaid cymryd gofal wrth eu lleoli er mwyn peidio â goruchafu dros dirffurfiau cymhleth na thynnu oddi arnynt. | | | |
| **VS4: Y Ffurf Dopograffig** | gwastadeddau, wedi'i tharfu | tir tonnog, bryniau/dyffrynnoedd, llwyfandiroedd | bryniau uchel/mynyddoedd |
| | | | |
| **Patrwm y Tirorchudd** | | | |
| *Nid yw'r maen prawf hwn yn ymwneud â sensitifrwydd perthnasol penodol math o dirorchudd (sy'n cael ei ystyried yn yr asesiadau ecolegol), ond yn hytrach â chymeriad y dirwedd a grëwyd drwy batrwm y tirorchudd.*<br><br>Mae caeau ar raddfa fawr sy'n ffurfio patrymau rheolaidd yn debygol o fod yn llai sensitif i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig. Gall ardaloedd o arddwriaeth fasnachol a ffermio dwys fod yn arwydd hefyd o sensitifrwydd is.<br>Mae gorchudd coed a choetir yn cynnig y potensial i sgrinio datblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae mewn rhai sefyllfaoedd, hyd yn oed ar bellter agos (yn enwedig ar y cyd â thirffurf tonnog), yn benodol lle mae cymeriad y dirwedd yn deillio o dirwedd amaethyddol draddodiadol o gaeau bychan a amgaewyd gan wrychoedd parhaus trwchus gyda choed ('coedcae'), a blannir yn aml ar gloddiau. Fodd bynnag, dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw araeau o baneli solar ffotofoltäig yn goruchafu dros nodweddion lleol arbennig neu'n tynnu oddi arnynt, megis esiamplau o goed hynafol neu goed rhodfa, neu'n achosi newid i batrwm cymhleth tirwedd lle byddai cynllun o baneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae yn ymestyn dros nifer o gaeau bach ac yn amharu ar ffiniau. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Lle mae'r dirwedd yn gymhleth oherwydd dylanwadau masnachol/diwydiannol ar hyn o bryd neu yn y gorffennol ac mae'r rhain yn weledol, mae hyn yn nodi sensitifrwydd is yn hytrach nag uwch. | | | |
| **Dosbarthiad VS Lefel 3** | cloddfeydd, mosäig gwastad ar iseldir, iseldir coediog gwastad, mosäig o iseldir tonnog | ucheldir coediog a llwyfandiroedd, mosäig o lechweddau a llethrau sgarp, mosäig o fryniau a llwyfandiroedd isel, bryniau coediog a llwyfandiroedd isel, mosäig o dir uchel a llwyfandiroedd, ffermdir ar iseldir gwastad ac agored, ffermdir tonnog ac agored, gwlyptiroedd iseldir, mosäig o ddyffrynnoedd iseldir, dyffrynnoedd iseldir agored, pentrefi | rhostir/pori ucheldirol, dyffrynnoedd ucheldir agored, dyffrynnoedd ucheldir agored/mosäig, rhostir/pori ar fryniau a llethrau sgarp, rhostir/pori ar fryniau a llwyfandiroedd isel, bryniau agored a llwyfandiroedd isel, twyni a thwyni llac, tir gwyllt arfordirol arall, tir amwynderol, mannau agored anffurfiol |
| **VS5: Patrwm y Tirorchudd** | datblygu | cymysg, coetir, mosäig/patrwm cae | tir agored |
| **VS16: Patrwm** | ffurfiol | rheolaidd | ar hap |
| **Dosbarthiad HL Lefel 3** | tir adferedig, echdynnol, prosesu, cynhyrchu, cyfathrebu, milwrol, anheddiad cnewyllol | caeau rheolaidd/anrheolaidd, tir ymylol, coetir, anheddiad di-gnewyllol, anheddiad arall | dŵr a chorstir, adloniant, wedi'i ddylunio |
| | | | |
| **Yr Amgylchedd Adeiledig** | | | |
| *Mae'r maen prawf hwn yn ymwneud â phresenoldeb strwythurau adeiledig a thystiolaeth fod bodau dynol wedi ymyrryd ar y dirwedd. Mae gosodiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae yn cyflwyno ffordd newydd a gwahanol iawn o ffurf adeiledig.*<br><br>Gall presenoldeb strwythurau modern megis tyrbinau gwynt, trafnidiaeth, a seilwaith ar gyfer cyfleustodau neu gyfathrebu – neu ddatblygiadau diwydiannol a masnachol ar raddfa fawr – leihau sensitifrwydd y dirwedd i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig, yn yr un modd ag y gall dylanwadau gweladwy fel chwarelu neu safleoedd tirlenwi, neu dir a adferwyd o gloddio glo.<br>Gall amlder y ffurf adeiledig ac ymyriadau gan fodau dynol mewn ardaloedd o aneddiadau dwys, mwy cyfoes (a safleoedd tir llwyd rhyngddynt) hefyd fod yn arwydd o sensitifrwydd is i gyflwyno araeau o baneli solar ffotofoltäig.<br>Fodd bynnag, ym mhob un o'r achosion hyn, rhaid cymryd gofal er mwyn osgoi gwrthdaro gweledol pellach neu newid cronnol sylweddol drwy gyflwyno strwythurau adeiledig ychwanegol – er eu bod yn wahanol iawn o ran cymeriad.<br>Mae ardaloedd sydd wedi'u nodweddu'n gryf gan ffurfiau adeiledig hirsefydlog, traddodiadol neu hanesyddol – gan gynnwys strwythurau hanesyddol megis ffermydd traddodiadol a adeiladwyd o gerrig, ysguboriau cae o gerrig a waliau ffiniol o gerrig – yn debygol o fod yn fwy sensitif i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae. | | | |
| **VS6: Patrwm Aneddiadau** | trefol, llinellol | pentref, cymysg, | dim, gwledig/ffermydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | clystyrog | gwasgaredig |
| **VS20: Defnydd o Ddeunyddiau Adeiladu** | anaddas | anaddas ar y cyfan | addas, addas ar y cyfan |
| **VS25: Ymdeimlad o Le** | gwan, dim | canolig | cryf |
| **Ffurf Adeiledig** (arsylwi a mapio) | presenoldeb adeiladau a seilwaith ar raddfa fawr | adeiladau a seilwaith ar raddfa ganolig, patrwm aneddiadau rhwydol | presenoldeb ffurf adeiledig ar raddfa fach / ar raddfa ddynol, e.e. preswyl |
| **Presenoldeb datblygiad/seilwaith ar raddfa fawr** (arsylwi a mapio) | llinellau uwchben sy'n cael eu cynnal ar dyrau dur, mastiau cyfathrebu, siediau mawr, cefnffyrdd, llinellau rheilffordd â nifer o gledrau | llinellau uwchben sy'n cael eu cynnal ar bolion pren dwbl, datblygiadau preswyl a masnachol ar raddfa lai, priffyrdd, llinellau rheilffordd â chledrau sengl | dim (rhwydwaith ffyrdd bach yn unig) |
| | | | |
| ***Meini Prawf Gweledol*** | | | |
| **Ffynhonnell ddata LANDMAP a ffynonellau data eraill** | **Sensitifrwydd i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae** | | |
| | **Isel** | **Canolig** | **Uchel** |
| | | | |
| **Nenlinellau a Lleoliadau** | | | |
| Mae tirweddau sydd â llethrau serth yn syth o dan nenlinellau nodedig yn debygol o fod yn fwy sensitif i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig na nenlinellau sydd yn llai nodedig – neu sydd wedi'u heffeithio gan strwythurau cyfoes sy'n bodoli eisoes megis heolydd neu seilwaith trydanol neu gyfathrebu. Mae presenoldeb nodweddion tirweddol nodedig neu hanesyddol megis henebion pen bryn, tyrau eglwys neu bentrefi brodorol yn cynyddu sensitifrwydd. | | | |
| **Data Topograffig ac Arsylwi** | tirweddau llyfn, gwastad | tirweddau tonnog | cefnenau nodedig a phwyntiau ffocws |
| **Gwybodaeth Leol – gan gynnwys gwybodaeth a ddarparwyd gan y grŵp cleientiaid** | nenlinell undonog neu unffurf | nenlinell donnog / sy'n tonni'n ysgafn | presenoldeb nodweddion hanesyddol a/neu nodedig ar y nenlinell |
| | | | |
| **Amlygrwydd a Phrif Olygfeydd** | | | |
| *Mae'r tebygrwydd y bydd araeau o baneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae yn hynod weladwy yn y dirwedd yn dibynnu ar faint y datblygiad, y tirffurf y mae'r datblygiad wedi'i leoli ynddo, ac effeithiau sgrinio'r tirorchudd – yn enwedig adeiladau, coed, gwrychoedd uchel a thrwchus ar ffin caeau, a choetiroedd.*<br><br>Mae tirweddau sydd yn gynwysedig yn weledol, ac sydd â golygfeydd cyfyngedig tuag at i mewn a thuag allan o ganlyniad, yn debygol o fod yn llai sensitif na thirweddau agored sydd â golygfeydd helaeth tuag at i mewn a thuag allan.<br>Bydd y golygfeydd sydd ar gael o'r tirweddau hyn o ardaloedd cyfagos hefyd yn dylanwadu ar sensitifrwydd. Bydd tirweddau gwledig sy'n ffurfio cefndir i aneddiadau yn fwy sensitif i newidiadau | | | |

sy'n codi o osod paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae.
Mae tirweddau sy'n cael eu profi o lwybrau i dwristiaid, llwybrau cenedlaethol neu ranbarthol, a mannau a golygfannau eraill i ymwelwyr a gydnabyddir neu a hyrwyddir yn fwy sensitif i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae. Yn yr un modd, gall bod yn agos at aneddiadau – sy'n cynyddu'r perygl o gael effeithiau niweidiol ar yr amwynder gweledol – gynyddu sensitifrwydd ardal.
Eithriad nodedig i'r arsylwad hwn yw lle mae tirwedd gaeedig iawn yn agos at anheddiad, megis pan fod tirwedd amaethyddol 'coedcae' greiriol yn parhau ar ffurf 'celloedd' mewn patrwm aneddiadau rhwydol ehangach –megis yr hyn sy'n cael ei ffurfio gan rwydwaith o bentrefi a phentrefannau maes glo llinellol, parhaus a rhyng-gysylltiedig

| **VS9: Amgaead** | caeedig | agored | amlwg |
|---|---|---|---|
| **Golygfeydd i mewn i'r ardal** (arsylwi a mapio) | cyfyng neu ddim golygfeydd i mewn i'r ardal | rhywfaint o olygfeydd, golygfeydd wedi'u fframio i mewn i'r ardal | golygfeydd helaeth o'r ardal o'r cefn gwlad cyfagos |
| **Golygfeydd tuag allan o'r ardal (sy'n ei gwneud yn fwy sensitif yn weledol i ddatblygiadau y tu allan i'r ardal)** (arsylwi a mapio) | golygfeydd cyfyngedig tuag allan o'r ardal | rhywfaint o olygfeydd, golygfeydd wedi'u fframio tuag allan o'r ardal | golygfeydd helaeth tuag allan o'r ardal i'r cefn gwlad cyfagos |

**RhyngweledEdd, Cysylltiadau â Thirweddau Cyfagos**

*Mae unedau tirwedd sydd â rhyngwelededd cyfyngedig (golygfeydd tuag at i mewn i dirweddau cyfagos a thuag allan ohonynt) yn debygol o fod yn llai sensitif nag unedau sydd â golygfeydd helaeth tuag at i mewn a thuag allan.*

Pan fo tirweddau cyfagos yn rhyngweladwy a'u bod yn fwy sensitif, mae hyn yn cynyddu sensitifrwydd yr uned dirwedd.
Gall lleoliad tirweddau dynodedig fod yn fwy sensitif pan ystyrir bod y lleoliad yn cyfrannu'n gadarnhaol at ansawdd golygfaol cyffredinol y dirwedd ddynodedig honno.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **VS22: Mae golygfeydd atyniadol** | ddim tuag at i mewn na thuag allan | tuag allan | tuag at i mewn a thuag allan, o fewn, tuag at i mewn neu tuag allan |
| **VS23: Mae golygfeydd difrïol** | tuag at i mewn a thuag allan, o fewn, tuag at i mewn neu tuag allan | tuag allan | ddim tuag at i mewn na thuag allan |
| **Arsylwadau yn ystod Arolwg Maes** | golygfeydd cyfyngedig neu ddim golygfeydd tuag at i mewn i'r uned neu tuag allan ohoni | golygfeydd wedi'u fframio a golygfeydd ysbeidiol, tuag at i mewn i'r uned a thuag allan ohoni | golygfeydd helaeth tuag at i mewn i'r uned a thuag allan ohoni |

| Derbynyddion Nodweddiadol | | | |
|---|---|---|---|
| **Mathau o Dderbynyddion** (astudiaeth ddesg) | diwydiannol neu fasnachol, llwybrau trafnidiaeth | mannau gwaith eraill, sefydliadol | preswyl, hamdden, twristiaid |

| Golygfeydd tuag at/o Nodweddion Tirwedd Arbennig, Tirwedd Hanesyddol a Threftadaeth Ddiwylliannol |
|---|
| *Mae tirweddau sy'n bwysig i'r golygfeydd y tu mewn i ardaloedd tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol dynodedig allweddol, a lleoliad yr ardaloedd hyn a'u nodweddion canolog, yn debygol o fod yn fwy sensitif. Byddai ardaloedd sydd â chymeriad tirwedd hanesyddol cynhenid sylweddol a lle mae posibiliad fod tystiolaeth archeolegol gadwedig yn fwy sensitif i osodiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae.*<br><br>Mae'r rhain yn cynnwys parciau cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Safleoedd Treftadaeth y Byd, Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig, parciau a gerddi cofrestredig, ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae'n debygol y bydd datblygiadau paneli solar ffotofoltäig yn effeithio ar eu rhinweddau arbennig neu nodweddion allweddol penodol.<br>Maent hefyd yn cynnwys ardaloedd cadwraeth; Llwybrau Cenedlaethol, rhwydweithiau beicio cenedlaethol a rhanbarthol, a llwybrau eraill a hyrwyddir; a safleoedd dynodedig (gan gynnwys henebion cofrestredig), tirnodau neu atyniadau ymwelwyr allweddol/canolog, megis bryngaerau/cestyll/tyrau eglwys hanesyddol a henebion neu gofebion. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Golygfeydd tuag at/o nodweddion tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol** (arsylwadau o arolygon maes a mapio, a gwybodaeth leol) | dim neu ychydig, ychydig o rhyngwelededd rhwng ardaloedd dynodedig neu safleoedd canolog allweddol | rhyngwelededd ysbeidiol o ardaloedd dynodedig / safleoedd canolog allweddol / Llwybrau Cenedlaethol a llwybrau/henebion/cofebion eraill a hyrwyddir | Parc Cenedlaethol / Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol / Safle Treftadaeth y Byd / rhyngwelededd rhwng safleoedd; presenoldeb a golygfeydd agos o Lwybrau Cenedlaethol a llwybrau, henebion neu gofebion eraill a hyrwyddir |

| ***Meini Prawf Esthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol*** | | | |
|---|---|---|---|
| **Ffynhonnell ddata LANDMAP a ffynonellau data eraill** | **Sensitifrwydd i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae** | | |
| | **Isel** | **Canolig** | **Uchel** |

| Ansawdd a Chymeriad Golygfaol |
|---|
| *Fel arfer, bydd ardaloedd ag ansawdd golygfaol uchel, cyfanrwydd uchel, ac sydd ag ymdeimlad cryf o le ac arwahanrwydd lleol yn fwy sensitif i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae nag ardaloedd llai golygfaol, neu'r rheiny sydd ag ymdeimlad gwan o le neu nad ydynt yn wahanol.*<br><br>Mae'r rhain yn cynnwys tirweddau a ddynodwyd oherwydd eu harddwch naturiol (*gweler yr adran uchod*) – gan gynnwys Ardaloedd Tirwedd Arbennig a ddynodwyd yn lleol – ond hefyd ardaloedd tirwedd nas dynodwyd, gan gynnwys ardaloedd sy'n unigryw yn lleol neu sydd â chymeriad cryf.<br>*Ar gyfer y maen prawf hwn, mae'r data LANDMAP hwn wedi'i gefnogi gan waith arsylwi yn y maes.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **VS46: Ansawdd Golygfaol** | Isel | Canolig | Eithriadol, Uchel |
| **VS47: Cyfanrwydd** | Isel | Canolig | Eithriadol, Uchel |
| **VS48: Cymeriad** | Isel | Canolig | Eithriadol, Uchel |
| | | | |
| **Pellenigrwydd/Llonyddwch** | | | |
| *Mae gan ardaloedd sy'n eithaf anghysbell ac sydd â chymeriad anghysbell, gwyllt a/neu dawel canfyddedig, a heb lawer o ddatblygiadau adeiledig, sensitifrwydd uwch i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig, o'u cymharu â thirweddau sy'n arddangos arwyddion o ddatblygiad modern. Diffinnir llonyddwch fel cyflwr tawel a llonydd sy'n gysylltiedig â heddwch, a ystyrir yn ased sylweddol mewn tirwedd.*<br><br>Gall datblygiadau paneli solar ffotofoltäig cyfagos danseilio rhinweddau a lleoliad arbennig ardaloedd o'r fath. Lle bo'r datblygiad yn gysylltiedig â graddfa a chymeriad mathau eraill o ddatblygiad yn y cyd-destun lleol ac yn unol â nhw, megis ffermydd mawr (gan gynnwys y rheiny ag unedau da byw dwys), gall yr effeithiau ar ganfyddiad pobl o baneli solar ffotofoltäig fod yn llai. | | | |
| **VS24: Nodweddion Canfyddiadol a Synhwyraidd Eraill** | swnllyd, annymunol, bygythiol | cysgodol, sefydlog, diogel | deniadol, anghysbell, tawel, gwyllt |
| **Arsylwadau yn ystod Arolwg Maes** | poblogaidd/prysur | diarffordd/bylchog | anhygyrch/anghysbell |
| | | | |

**Tabl 4: Meini Prawf ar gyfer Asesu Gwerth y Dirwedd**

| ***Meini Prawf Gwerth*** | | | |
|---|---|---|---|
| **Ffynhonnell ddata LANDMAP a ffynonellau data eraill** | **Gwerth y Dirwedd** | | |
| | **Isel** | **Canolig** | **Uchel** |
| **Gwerth y Dirwedd** | | | |
| Mae tirweddau sydd wedi'u dynodi'n ffurfiol oherwydd eu gwerth golygfaol, dyluniadol neu adloniadol yn debygol o fod yn fwy sensitif i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae nag ardaloedd nas dynodwyd. Mae graddfa'r sensitifrwydd yn dibynnu ar natur y cynnig a nodweddion y dirwedd a werthfawrogir gan y dynodiad. Mae hierarchaeth y dynodiad yn effeithio ar sensitifrwydd y dirwedd. Mae tirweddau a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol megis Safleoedd Treftadaeth y Byd, parciau cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cael eu hystyried yn sensitif iawn, gyda dynodiadau rhanbarthol a lleol fel Arfordiroedd Treftadaeth ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn dilyn ar ôl y rhain. Caiff gwerth tirwedd ei gydnabod yn ffurfiol gan ddynodiad, ond gall gwerth hefyd gael ei bennu gan ddogfennau a gyhoeddwyd, megis taflenni i dwristiaid, celf a llenyddiaeth, neu gysylltiadau diwylliannol lleol penodol.<br>Mae ardaloedd sy'n cael eu cydnabod yn bennaf gan werthusiadau Eithriadol neu Uchel LANDMAP ar yr haenau Gweledol a Synhwyraidd, Cynefin Tirwedd neu Ddaearegol hefyd yn debygol o fod yn fwy sensitif i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig. | | | |
| **Dynodiad** | dim | dynodiadau lleol (Ardal Tirwedd Arbennig ac ati), parciau a gerddi lleol | Safleoedd Treftadaeth y Byd, Parc Cenedlaethol, Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Hanesyddol |
| **VS50: Gwerthusiad Cyffredinol** | isel | canolig | uchel i eithriadol |
| **VS49: Prinder** | isel | canolig | uchel i eithriadol |
| **LH45: Gwerthusiad Cyffredinol (cynefinoedd)** | isel | canolig | uchel i eithriadol |
| **GL31: Prinder** | isel | canolig | uchel i eithriadol |
| **GL33: Gwerthusiad Cyffredinol** | isel | canolig | uchel i eithriadol |
| | | | |
| **Gwerth Hanesyddol** | | | |
| Mae ardaloedd a ddynodwyd ar gyfer eu gwerth rhyngwladol, cenedlaethol neu ranbarthol o ran treftadaeth hanesyddol neu ddiwylliannol, fel Safleoedd Treftadaeth y Byd, yn debygol o fod yn fwy sensitif i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae, yn enwedig os yw cymeriad y dirwedd y maent wedi'u lleoli ynddi, neu'r canfyddiad ohoni, yn debygol o gael ei newid yn sylweddol. Nid yw Tirweddau Cofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol a Pharciau a Gerddi Cofrestredig yn cael eu diogelu gan ddynodiad, ond ystyrir eu bod o werth cenedlaethol. Mae ardaloedd a gydnabyddir yn bennaf gan werthusiadau LANDMAP Eithriadol neu Uchel yn yr haen Hanesyddol yn debygol o fod yn fwy sensitif i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae. | | | |
| **Safleoedd Dynodedig** | isel | dynodiadau lleol (Ardal Tirwedd Arbennig ac ati) | Safleoedd Treftadaeth y Byd, Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig, adeiladau rhestredig niferus neu henebion cofrestredig |
| **HL38: Prinder** | isel | canolig | eithriadol, uchel |
| **HL35: Cyfanrwydd** | isel | canolig | eithriadol, uchel |
| **HL40: Gwerthusiad Cyffredinol** | isel | canolig | eithriadol, uchel |
| Yn ogystal â'r uchod, gall y meini prawf o ran sensitifrwydd esthetig, canfyddiadol a phrofiadol hefyd fod yn ddangosyddion o'r gwerth a roddir ar dirwedd. | | | |
| | | | |

# Adran 3:
# **CYD-DESTUN Y DIRWEDD**

## Cymeriad y Dirwedd

3.1 Mae ardal yr astudiaeth yn cynnwys amrywiaeth eang o gymeriadau tirwedd, sy'n amrywio o rostiroedd ucheldirol agored i ddyffrynnoedd coediog caeedig yn yr iseldiroedd, ac o dir fferm agored a thonnog i aberoedd afon a chlogwyni arfordirol a chorsydd. Er na chaiff yr ardaloedd hynny o Sir Gaerfyrddin sydd wedi'u lleoli ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog eu cynnwys yn yr astudiaeth hon, mae gan ardaloedd sylweddol o'r sir ddynodiadau tirwedd lleol sy'n cynorthwyo â'r gwaith o'u gwarchod, ac mae'r gwaith o adnabod a nodi Ardaloedd Tirwedd Arbennig wedi'i seilio ar ddadansoddi a deall cymeriadau tirwedd. Yn ogystal, mae darnau mawr o dirwedd y sir sydd o bwysigrwydd mor fawr o ran hanes eu tirwedd fel eu bod wedi'u cynnwys ar y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. Mae'r ardaloedd sydd wedi'u cynnwys ar y gofrestr wedi bod yn destun astudiaethau hanesyddol arbenigol ar nodi cymeriad tirweddau, yn ogystal ag asesiad ar gymeriad tirwedd yn seiliedig ar bob un o'r pum agwedd ym methodoleg LANDMAP.

3.2 Mae rhannau o ardal yr astudiaeth yn cael eu gwarchod gan ddynodiadau tirwedd statudol ac anstatudol. Caiff lleoliad y dynodiadau tirwedd hyn ei esbonio yn *Ffigwr 9*, a chaiff y dynodiadau allweddol sy'n ymwneud â chymeriad tirweddau a'u gwerth eu hamlinellu isod. Mae *Ffigwr 10* yn esbonio'r nodweddion treftadaeth ddiwylliannol yn ardal yr astudiaeth.

### Parciau Cenedlaethol

3.3 Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cydgyffwrdd â'r rhan fwyaf o ffin ddwyreiniol ardal yr astudiaeth, o fan i'r gogledd o Lanaman i fan yn agos at Lanymddyfri. Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ffinio ag ardal fach yng ngorllewin pell ardal yr astudiaeth, yn agos at yr A478. Ni chaiff yr ardaloedd hyn eu cynnwys yn yr astudiaeth hon.

### Tir Mynediad Agored

3.4 Ym mis Mai 2005, daeth Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i rym, a oedd yn rhoi gweithdrefn ar waith ar gyfer nodi a mapio'n glir ardaloedd o 'dir mynediad' (tir agored a/neu dir comin); mae oddeutu 20% o arwynebedd tir Cymru wedi ei fapio fel tir mynediad, lle y mae gan y cyhoedd hawl mynediad ar droed. Mae cyfran nodedig o dir yn ardal yr astudiaeth wedi'i mapio fel tir mynediad, lle y mae gan y cyhoedd yr hawl i gael mynediad at gefn gwlad a'i fwynhau, ac mae lleoliad y tir mynediad hwn wedi'i egluro yn *Ffigwr 11*.Mae'r ardal fwyaf o'r holl ardaloedd hyn wedi'i lleoli yn rhan ogleddol Sir Gaerfyrddin.

3.5 Deellir y gellid datblygu paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae ar dir agored neu ar dir comin.

### Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig (Cymru)

3.6 Mae'r Gofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru yn anelu at gynorthwyo cynllunwyr a datblygwyr i gyflwyno newidiadau a datblygiadau newydd mewn ffyrdd a fydd yn achosi cyn lleied o niwed â phosibl i gymeriad hanesyddol y dirwedd. Nid yw bod ar y gofrestr yn rhoi gwarchodaeth statudol, ond mae yn helpu i dynnu sylw at

bwysigrwydd treftadaeth ddiwylliannol ardaloedd penodol o'r dirwedd. Mae'n bwysig nodi bod y ddau gategori o ddiddordeb ar gyfer y Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig hyn – 'Eithriadol' ac 'Arbennig' – yn ymwneud â natur y cyfansoddiad hanesyddol o'r ardaloedd dan sylw:
*'Mae'r holl ardaloedd o dirwedd a ddynodir ar y Gofrestr yn rhai sydd o bwysigrwydd yng nghyd-destun Cymru. Mae'r gwahaniaeth rhwng y tirweddau o ddiddordeb hanesyddol eithriadol … a'r tirweddau o ddiddordeb hanesyddol arbennig … felly, yn adlewyrchu gwahanol raddau o hynodrwydd hanesyddol yn hytrach na gwahaniaeth o ran safon.'*[1]
Nid oes gwahaniaeth ymhlyg rhwng y categorïau hyn o ran gwerth hanfodol y dirwedd ddynodedig, na'i sensitifrwydd i ddatblygiadau neu newidiadau yn y gwaith o'i rheoli.

3.7 Mae chwech o Dirweddau Hanesyddol Cofrestredig wedi'u lleoli'n llwyr neu'n rhannol yn ardal yr astudiaeth, a thirwedd arall sy'n ffinio ag ardal yr astudiaeth. Caiff y rhain eu crynhoi isod, ac eglurir lleoliad y Tirweddau Cofrestredig hyn yn *Ffigwr 03*.Yn ogystal, caiff eu perthynas â'r Unedau Tirwedd a nodir hefyd ei chrynhoi ar ffurf tabl yn *Atodiad 4*.

3.7.1 Mae *Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol y Preseli* yn cynnwys ardal fawr o ucheldir agored sydd wedi'i lleoli yn bennaf i'r gorllewin o ardal yr astudiaeth, ond â rhan fach wedi'i lleoli y tu mewn iddi. Mae llawer o'r dirwedd uchel, agored a garw hon yn Sir Benfro ac wedi'i lleoli ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro gerllaw. Mae'n ddarn mawr o dir sy'n weladwy o nifer o filltiroedd o'i gwmpas. Mae creigiau uchel ar gopaon y bryniau, sydd â hanes hirfaith a chymhleth o anheddiad dynol a chysylltiadau crefyddol a diwylliannol.

3.7.2 Mae *Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Aber Taf a Thywi* yn cynnwys hyd Dyffryn Tywi o ychydig i lawr yr afon o Gaerfyrddin i gyn belled â'i cheg yn y môr agored. O'r fan hon, mae'r dirwedd gofrestredig yn ymestyn tua'r dwyrain, gan gynnwys Cydweli, Coedwig Pen-bre a'r tir hyd at Borth Tywyn bron, a thua'r gorllewin, ar hyd yr arfordir i Bentywyn a'r tu hwnt. Mae hefyd yn cynnwys aber Afon Taf a rhannau isaf ei dyffryn i'r gorllewin, sy'n ymestyn i fyny'r afon o Dalacharn bron hyd at Sanclêr. Mae'n cynnwys ardaloedd helaeth o iseldiroedd arfordirol, clogwyni, corsydd, twyni tywod a banciau tywod rhynglanwol sydd wedi'u lleoli yn aberoedd Afon Taf, Afon Tywi ac Afon Gwendraeth, ac sy'n cynnwys tystiolaeth amrywiol o weithgarwch o'r cyfnod cynhanesyddol ymlaen.

3.7.3 Mae *Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Tywi* yn ddarn o dir hirfaith a throellog sy'n ymestyn o ffiniau Tirwedd Gofrestredig Aber Taf a Thywi i lawr yr afon o Gaerfyrddin ar hyd cyfan Dyffryn Tywi i fyny'r afon at ffiniau Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'r dwyrain o Lanymddyfri a chyn belled â glannau deheuol cronfa ddŵr Llyn Brianne. Mae'n ddyffryn afon hir a chul sydd o ansawdd golygfaol clodfawr, o'i darddle yn ne Elenydd hyd at ei aber ym Mae Caerfyrddin, ac mae'n cynnwys llwybrau hynafol a'r lleoliad ar gyfer grŵp heb ei debyg o dirweddau cynlluniedig.

3.7.4 Mae *Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dolaucothi* yn ardal fach, gyfyng yng ngogledd Sir Gaerfyrddin, ac mae wedi'i lleoli yn rhan uchaf rhannau canol dyffryn cul Afon Cothi. Mae'n rhan o ddyffryn afon a thiroedd iseldirol sydd wedi'u lleoli ar ymylon deheuol

[1] *Canllaw Arfer Da ar Ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn y Broses Gynllunio a Datblygu;*Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Llwyodraeth Cymru; 2il argraffiad, 2007; paragraff 1.6, t. 9

Elenydd, a chanddi dystiolaeth dda o gloddio am aur o'r amseroedd Rhufeinig a'r gorffennol diweddar.

3.7.5 Mae *Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Mynydd Du a Mynydd Myddfai* yn cynnwys godreon a llethrau gogledd-orllewinol Mynydd Du, ac mae wedi'i hamgylchynu gan Fynydd Myddfai yn y gogledd (sy'n 440m uwch datwm ordnans) a chrib o fryniau sydd ychydig yn fyrrach tua'r de-orllewin ac sy'n edrych dros Ddyffryn Tywi i'r dwyrain o Landeilo. Mae'n dirwedd o ucheldiroedd tonnog sy'n cynnwys mynyddoedd a godreon a rennir gan ddyffrynnoedd ac sy'n gyfoethog mewn tystiolaeth amrywiol o ddefnydd tir o'r cyfnod cynhanesyddol hyd at hanes diweddar. Mae pob rhan o'r dirwedd gofrestredig hon wedi'i lleoli ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ond mae gan ei phresenoldeb ddylanwad ar y tir cyffiniol sydd yn ardal yr astudiaeth.

3.7.6 *Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Dyffryn Teifi Isaf* yw'r ardal yn Nyffryn Teifi sydd rhwng y môr agored yn Nhrwyn Cemaes a phwynt i fyny'r afon o bentref Cenarth, ac felly mae wedi'i lleoli yn bennaf yn y sir gyfagos, sef Ceredigion. Afon Teifi yw un o brif afonydd Cymru ac un o'i hafonydd enwocaf yn hanesyddol, ac mae'r aber a rhannau'r dyffryn isaf a ddynodir yn cynnwys tystiolaeth amrywiol a sylweddol o ddefnydd tir a gweithgarwch parhaus o'r cyfnod cynhanesyddol hyd at hanes diweddar.

3.7.7 Mae *Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Dre-fach Felindre* yn fach ac mae'n cynnwys dyffrynnoedd a rhagnentydd tair llednant fer i Ddyffryn Teifi yng ngogledd Sir Gaerfyrddin, a ddaeth yn un o ardaloedd blaenllaw y diwydiant gwlân yng Nghymru ar ddiwedd yr 19eg a dechrau'r 20fed ganrif. Er gwaethaf mecaneiddiad a datblygiadau mewn cynhyrchu ar raddfa ffatri, arhosodd yr ardal yn agos iawn at ei gwreiddiau economaidd amaethyddol, ac mae'n cynnwys cnewyllyn nodedig o felinau a ffatrïoedd, tystiolaeth ffisegol o'r defnydd o bŵer dŵr, tai diwydiannol, a chysylltiadau cysylltiedig a chynharach pwysig sy'n ymwneud â hanes a diwylliant.

## Parciau a Gerddi Cofrestredig

3.8 Mae 18 o Barciau a Gerddi Cofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig wedi'u lleoli yn ardal yr astudiaeth. Er nad ydynt wedi'u gwarchod gan ddynodiadau statudol, fe'u hadwaenir yn ffurfiol ac fe'u trysorir yn genedlaethol yng Nghymru, am eu bod yn rhan bwysig ac annatod o hanes a diwylliant Cymru. Caiff y rhain eu crynhoi isod, ac eglurir lleoliad y parciau a gerddi cofrestredig hyn yn *Ffigwr 03*.Yn ogystal, gweler manylion am y safleoedd hyn a'u perthynas â'r Unedau Tirwedd ar ffurf tabl yn *Atodiad 3*.Mae'r system raddio a ddefnyddir ar y gofrestr yn debyg i'r system a ddefnyddir ar gyfer adeiladau rhestredig, ac mae'n nodi'r nodweddion canlynol:

- Gradd I: Parciau a gerddi sydd, oherwydd eu cynllun hanesyddol, eu nodweddion a'u haddurniadau pensaernïol pan ystyrir y rhain gyda'i gilydd, o ddiddordeb eithriadol
- Gradd II*: Parciau a gerddi sydd, oherwydd eu cynllun hanesyddol, eu nodweddion a'u haddurniadau pensaernïol pan ystyrir y rhain gyda'i gilydd, o ansawdd ardderchog
- Gradd II: Parciau a gerddi sydd, oherwydd eu cynllun hanesyddol, eu nodweddion a'u haddurniadau pensaernïol pan ystyrir y rhain gyda'i gilydd, o ddiddordeb arbennig

3.8.1 Mae *Aberglasne* yn safle Gradd II* sydd wedi'i leoli i'r gorllewin o bentref bach Llangathen, sydd oddeutu 5.5km i'r gorllewin o Landeilo. Mae'n cynnwys gerddi pleser, gerddi ffurfiol, gardd goetir a nodweddion cysylltiedig sy'n amgylchynu hen blasty gwledig hirsefydledig sy'n adeilad

rhestredig Gradd II*. Mae'r safle'n ffinio â rhan o brif gefnffordd yr A40, i’r de o bentref bach Derwen Fawr.

3.8.2 Mae *Derwydd* yn safle Gradd II sydd mewn dyffryn bach a ffurfir gan rannau uchaf Afon Marlas, i'r gogledd-orllewin o Llandybïe ac oddeutu 6km i’r gogledd o Rydaman. Mae gerddi pleser o gwmpas y tŷ, sy'n adeilad rhestredig Gradd II*, yn ogystal â goroesiad ambell i goeden nodweddiadol a gardd gegin gyda wal o'i chwmpas.

3.8.3 Mae *Dolaucothi* yn safle Gradd II sydd i'r dwyrain o bentref Pumsaint yng ngogledd-ddwyrain y sir. Roedd tŷ Dolaucothi wedi'i leoli oddeutu 1.6km i'r gogledd-ddwyrain o'r pentref. Mae'r safle'n cynnwys parcdir wedi’i dirlunio gyda llwyni a gardd gyda wal, ac mae dau adeilad rhestredig Gradd II wedi'u lleoli yma.

3.8.4 Mae *Edwinsford* wedi'i leoli yn nyffryn Cothi, i’r gogledd-orllewin o Dalyllychau, a saif y safle Gradd II hwn ar ddwy ochr Afon Cothi i’r gorllewin o’r B4337. Mae Edwinsford House yn adeilad rhestredig Gradd II*, gyda gerddi pleser, parcdir a choetir yn ei amgylchynu, ac mae’r lleoliad hanfodol yn ymestyn tua'r gorllewin, hyd at fin yr afon.

3.8.5 Hen blasty yw *Glynhir* sydd wedi'i leoli i’r dwyrain o Landybïe, yn nwyrain y sir. Mae hwn yn safle Gradd II ac mae'n cynnwys gardd bleser fach sy'n gysylltiedig â'r plasty (adeilad rhestredig Gradd II), perllan a gardd gegin gyda wal, a llwybrau cerdded coetir sy'n ymestyn dros ochr serth y dyffryn. Mae’n adnabyddus am ei olygfeydd godidog o readrau naturiol, a saif y lleoliad hanfodol i’r dwyrain o’r rhan uchaf hon o Afon Llwchwr.

3.8.6 Mae *Gelli-aur* yn safle Gradd II* sydd wedi'i leoli uwchben ochr ddeheuol Dyffryn Tywi, i’r de-orllewin o Landeilo. Dyma oedd un o ystadau pwysicaf gorllewin Cymru am amser hir, ac mae’n cynnwys terasau ffurfiol, gerddi a thiroedd pleser yn amgylchynu'r plasty cyfredol, sy’n adeilad rhestredig Gradd II. Mae coedardd, pinwyddlan, parc ceirw a pharcdir hefyd. Mae'r lleoliad hanfodol, sy’n goediog i raddau helaeth, yn ymestyn tua'r gogledd o ffin ogleddol y safle i lawr llethrau uchaf Dyffryn Tywi tuag at heol y B4300, gan ei chyrraedd yn North Lodge. Mae mannau o'r tiroedd ar agor i'r cyhoedd fel parc gwledig.

3.8.7 Saif *Castell Talacharn* yng nghanol pentref Talacharn, wrth ymyl aber Afon Taf. Mae'n safle Gradd II ac mae'n cynnwys gardd a adferwyd o ddechrau'r 19eg ganrif, gyda nodweddion cynharach yng ngwardiau'r castell, a muriau amddiffynnol. Mae lleoliad hanfodol y safle'n agos at ffiniau dwyreiniol a gorllewinol y safle ac yn ffinio â'r blaendraeth, gyda golygfeydd agored ar draws y dŵr tuag at y dwyrain a'r de-ddwyrain. Mae'r castell yn adeilad rhestredig Gradd I ac mae Castle House yn adeilad rhestredig Gradd II*.

3.8.8 Lleolir *Llanmiloe House* yng nghanol pentref Llanmiloe, sydd oddeutu 1.6km i'r dwyrain o Bentywyn. Mae'n safle Gradd II sy'n cynnwys gardd Edwardaidd mewn cyflwr da a chanddi lawer o'r planhigion gwreiddiol. Mae ei leoliad hanfodol yn ymestyn dros lethrau coediog serth i’r gogledd-orllewin a’r gogledd o’r safle. Mae golygfa sylweddol i’r de, dros gors arfordirol wastad West Marsh ac ymhellach tuag at dwyni tywod Pentywyn.

3.8.9 Saif *Llechdwnni* ar y tir ffermio tonnog i'r gogledd o Gydweli, pellter byr i'r dwyrain o Gwm Gwendraeth Fach, ac oddeutu 2km i'r de-ddwyrain o Landyfaelog. Mae'n safle Gradd II. Mae gardd anarferol yn dal i sefyll a chanddi wal a phwll ffurfiol, ac mae'n gysylltiedig ag un o'r hen dai mwyaf hanesyddol wedi'i leoli yn ne'r sir, gyda'r hen dŷ yn adeilad rhestredig Gradd II. Mae ei leoliad hanfodol yn ymestyn i'r gogledd a'r de o'r safle ac mae nifer o olygfeydd sylweddol tuag allan o'r safle: o'r gogledd i'r gogledd-orllewin, ac o'r de-ddwyrain i'r de-orllewin.

3.8.10 Mae *Llwynywermwd* yn barc wedi'i dirlunio a chanddo rodfeydd, llyn gweddilliol a gardd gegin gyda wal, ac mae wedi'i leoli oddeutu 1.58km i'r gogledd o bentref Myddfai, rhyw 3km i'r de o Lanymddyfri. Mae adfeilion dramatig plas Llwynywermwd wedi'u lleoli ar frig llethr ddeheuol dyffryn Afon Ydw, ac maent yn edrych dros y parcdir tua'r gogledd. Mae'n safle Gradd II ac yn cynnwys beudy rhestredig Gradd II. O'r adfeilion, mae golygfeydd sylweddol yn edrych tua'r gogledd. Mae'r lleoliad hanfodol yn ymestyn i'r gorllewin ar draws yr afon, gan amgylchynu ochr goediog y dyffryn, ac i'r de-ddwyrain, lle y mae'n cynnwys Penhill Wood.

3.8.11 Mae *Maesycrugiau Hall*, a adwaenwyd ynghynt fel y Manor Hotel, wedi'i leoli oddeutu 1.5km i'r de o bentref Maesycrugiau, yn Nyffryn Teifi yng ngogledd y sir. Mae'n safle Gradd II sy'n cynnwys teras, pwll a gardd ffurfiol (yn union y tu blaen i'r tŷ), a llynnoedd, tŷ haf a llwybrau cerdded coetir. Mae golygfa sylweddol yn edrych tua'r gogledd-orllewin.

3.8.12 Mae *Neuadd Middleton* yn ddarn helaeth o dir sydd wedi'i leoli ar dir tonnog ar flwff deheuol Dyffryn Tywi, oddeutu 14km i'r dwyrain o Gaerfyrddin. Mae'r safle Gradd II hwn yn barc wedi'i dirlunio a grëwyd gan Syr William Paxton, a chanddo ardd â wal ddwbl, rhaeadrau, pontydd, a gweddillion nodweddion dŵr helaeth. Mae golygfeydd sylweddol yn edrych tua'r gogledd-ddwyrain a'r de-ddwyrain. Mae canol y parc, gan gynnwys safle'r plasty, y stabl, yr ardd bleser a'r ardd gegin gyda wal, wedi'i addasu yn rhan o Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

3.8.13 Mae *Pantglas* wedi'i leoli oddeutu 12km i'r gogledd o Gaerfyrddin a rhyw 1.5km i'r gogledd-orllewin o anheddiad hynafol Llanfynydd. Mae'n safle Gradd II, ac mae'n cynnwys terasau a gerddi ffurfiol o gwmpas y tŷ, sy'n adeilad rhestredig Gradd II, planhigion ecsotig prennaidd a llwyni wedi'u plannu'n anffurfiol tua'r llyn, a phont fach glasurol sy'n arwain at lwybrau cerdded coetir a pharcdir. Mae'r lleoliad hanfodol yn ymestyn tua'r de-orllewin o'r ffin dde-orllewinol am oddeutu 300 metr.

3.8.14 Mae *Parc Howard* wedi'i leoli ar gyrion gogleddol Llanelli, yn union i'r gorllewin o heol yr A476 i Cross Hands. Mae'n barc trefol a chanddo lawntydd, gwelyau blodau, bandstand a nodweddion amwynderol eraill. Mae'r plasty, y bandstand, y gatiau a'r rheiliau oll yn adeiladau rhestredig Gradd II. Mae'r lleoliad hanfodol yn ymestyn i amgylchynu'r fynwent sydd wrth ymyl y ffin ddeheuol a'r tir i'r gogledd-orllewin cyn belled i'r gogledd â Heol Pentrepoeth. Erbyn hyn, mae wedi'i amgylchynu gan ddatblygiadau trefol.

3.8.15 Mae *Tŵr Paxton* yn dirnod trawiadol sy'n amlwg o filltiroedd i ffwrdd, ac mae'n adeilad sy'n cynnig golygfeydd ysblennydd a phanoramig, yn enwedig dros Ddyffryn Tywi i'r gogledd. Mae'n dŵr ffoledd ac yn safle Gradd II*. Mae'r tŵr ei hun a'r porthdy gerllaw yn adeiladau rhestredig Gradd II* a Gradd II yn y drefn honno. Mae lleoliad hanfodol y safle yn cynnwys llethrau coediog uchaf Dyffryn Tywi ar ei ochr ogleddol. Mae'r golygfeydd sylweddol enwog sy'n perthyn i'r nodwedd hon ar ffurf

bwa, o'r gorllewin i'r gogledd-ddwyrain. Mae golygfeydd tua'r de-orllewin a thros dirwedd Neuadd Middleton gerllaw.

3.8.16 Mae *Plas Dinefwr* wedi'i leoli mewn parcdir tonnog ychydig i'r gogledd-orllewin o dref farchnad Llandeilo. Mae hwn yn safle Gradd I, sef parc wedi'i dirlunio yn y deunawfed ganrif sy'n hynod o brydferth a darluniadwy ac sy'n cynnwys gweddillion castell canoloesol. Yn ogystal, mae gardd fach ffurfiol, gardd gyda wal, gardd gegin gyda wal, ac adeileddau iwtilitaraidd fel tŷ rhew, colomendy ac anheddau'r gweision. Mae nifer o adeiladau rhestredig yno, megis Hen Gastell Dinefwr (Gradd I), Plas Dinefwr (Gradd II*), rhesi'r libartiau mewnol ac allanol (Gradd II*), ac Eglwys Sant Tyfi (Gradd II). Mae lleoliad hanfodol y safle yn ymestyn y tu hwnt i'r ffiniau deheuol a de-orllewinol, hyd at ac yn cynnwys Afon Tywi. Mae hefyd yn cynnwys ardal fach yn King's Lodge Wood, lle y mae'n cwrdd â chefnffordd yr A40. Mae golygfeydd sylweddol wedi'u nodi, gan gynnwys tua'r gorllewin ar draws y safle o Barc Lan-fawr yn y dwyrain, tua'r gorllewin o Blas Dinefwr dros y parc ceirw, ac i holl bwyntiau'r cwmpawd o safle uchel Hen Gastell Dinefwr. Fe'i rheolir gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a chaiff ei gysylltu'n agos â thref Llandeilo.

3.8.17 Mae *Castell y Strade* wedi'i leoli ar gyrion gorllewinol tref Llanelli, ar dir gweddol uchel, ychydig dros 1km i'r gogledd-orllewin o ganol y dref. Mae'n safle Gradd II ac mae'n amgylchynu adeilad rhestredig Gradd II* Castell y Strade. Mae ganddo ardd deras ffurfiol yn edrych dros barcdir, nodweddion dŵr a llwybrau cerdded coetir, yn ogystal â gardd gegin gyda wal. Mae'r lleoliad hanfodol yn ymestyn i'r gorllewin o ffin orllewinol y safle, ar draws dyffryn cul Afon Dulais, ac mae'n cynnwys ardaloedd coetir serth ar Fryn y Strade. Mae golygfeydd sylweddol yn edrych o'r castell ei hun, ar ffurf bwa o'r de-orllewin i'r de-ddwyrain.

3.8.18 Mae *Taliaris* yn safle Gradd II sydd wedi'i leoli ar ochr orllewinol Cwm Dulais, tua 4km i'r gogledd o Landeilo a 5km i'r de o Dalyllychau. Mae ganddo ardd ffurfiol fach sy'n amgylchynu'r tŷ, sy'n adeilad rhestredig Gradd I, tiroedd pleser i'r gorllewin, parcdir i'r de, a dwy ardd â wal i'r dwyrain. Mae hefyd yn cynnwys llyn gwneuthuredig, sydd bellach wedi'i leoli mewn coetir. Mae golygfeydd sylweddol o'r tŷ tua'r de.

## Ardaloedd Tirwedd Arbennig

3.9 Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn ddynodiad tirwedd lleol. Mae 18 o ardaloedd yn Sir Gaerfyrddin, sy'n cynnwys dyffrynnoedd afon a thirweddau ucheldirol ac arfordirol, y mae'r cyngor sir wedi'u dynodi fel Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Nod y dynodiad tirwedd lleol hwn yw darparu mesurau diogelu ychwanegol yn erbyn newidiadau difeddwl a allai ddigwydd trwy ddatblygiadau neu newidiadau mewn cyfundrefnau rheoli tir.

## Mathau o Dirwedd

3.10 Mae'r 80 o Unedau Tirwedd sydd wedi'u dynodi yn ardal yr astudiaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o 20 'math o dirwedd' sydd wedi'u nodi trwy ddefnyddio data LANDMAP ar Ddosbarthiad Lefel 3 ar gyfer yr Agwedd Weledol a Synhwyraidd. Isod, gweler disgrifiad o'r holl fathau o dirwedd a ddynodwyd. Mae'r disgrifiadau'n rhoi arwydd o gymhlethdod ac amrywiaeth cymeriad tirwedd Sir Gaerfyrddin, er bod hyn o fewn ardal ddaearyddol weddol fawr. Mae'r ardaloedd hyn yn amrywio o ddyffrynnoedd afon hirfain ac amlwg, sy'n gyfoethog mewn diddordeb hanesyddol ac sy'n rhedeg trwy dirweddau gwledig tonnog a hen bentrefi pyllau glo mewn

ardaloedd o ‘goedcae’ creiriol, i ardaloedd mawr o rostiroedd ucheldirol a choedwigoedd – ac mae'r rhain oll yn adlewyrchu'r prosesau daearegol a'r grymoedd geoffisegol sydd wedi llunio tirwedd y sir, yn ogystal â defnyddiau tir mwyngloddio a gwledig mwy diweddar.

3.11 Mae *Ffigwr 06* yn dangos y mathau o dirwedd sy'n bodoli yn Sir Gaerfyrddin, gan ddangos bod ardaloedd ucheldirol yn fwy cyffredin yng ngogledd a dwyrain y sir, ac ardaloedd iseldirol yn gyffredinol wedi'u lleoli yn rhannau’r de a’r gorllewin.

3.12 Mae'r testun canlynol yn disgrifio'r mathau o dirwedd sydd yn bodoli o fewn ardal yr astudiaeth (fel y diffinnir yn Adran 1.1 uchod).

*Tir Pori Ucheldirol*

3.13 Mae'r math hwn o dirwedd yn cynnwys ardaloedd ucheldirol gyda mwy na 50% o dir wedi'i orchuddio â glaswelltir. Yn gyffredinol, ychydig iawn o ffiniau caeau sydd i'r math hwn o dirwedd ac mae'r tir pori ar gyfer defaid, mewn dwyseddau stoc isel. Ychydig iawn o ddatblygiadau adeiledig sydd yn y math hwn o dirwedd ac mae'n gyffredinol wedi'i gyfyngu i ffermydd gwasgaredig. Yn gyffredinol, mae natur uchel y math hwn o dirwedd yn galluogi rhyngwelededd da rhwng y math hwn o dirwedd a mathau eraill o dirweddau uchel yn yr ardal gyfagos.

*Rhostir Ucheldirol*

3.14 Mae'r math hwn o dirwedd yn cynnwys ardaloedd ucheldirol gyda mwy na 50% o rostir, yn gyffredinol â diffyg ffiniau caeau. Mae amrywiaeth o ran y maint o ddatblygiad adeiledig yn y math hwn o dirwedd; mae'r rhain yn cynnwys mastiau telathrebu a thyrbinau gwynt. Mae cymeriad cyffredinol agored y math hwn o dirwedd yn aml yn galluogi rhyngwelededd rhyngddo a mathau eraill o dirwedd yn yr ardal, gan gynnwys rhannau o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

*Ucheldir a Llwyfandir Mosäig*

3.15 Mae'r math hwn o dirwedd yn cynnwys ardaloedd ucheldirol a llwyfandir sydd ag ardaloedd sylweddol o goedwigoedd conifferaidd yn tyfu ymysg rhostir a thir pori bras. Ychydig iawn o ddatblygiad adeiledig sydd yn y math hwn o dirwedd, ac mae wedi'i gyfyngu i ffermydd gwasgaredig yn gyffredinol; gall nifer bach o fastiau telathrebu fod yn weladwy mewn golygfeydd o’r nenlinell. Mae lleoliad cyffredinol uchel y math hwn o dirwedd yn galluogi rhyngwelededd rhyngddo a mathau eraill o dirweddau yn yr ardal.

*Dyffryn Ucheldirol Agored*

3.16 Mae'r math hwn o dirwedd wedi'i nodweddu gan ochrau dyffryn ucheldirol sydd yn gyffredinol yn cynnwys caeau pori gyda chymysgedd o fathau o ffiniau. Mae natur uchel ochrau uwch y dyffryn yn y math hwn o dirwedd yn galluogi peth rhyngwelededd gyda mathau eraill o dirweddau yn yr ardaloedd cyfagos, gan gynnwys rhannau o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Yn gyffredinol, mae datblygiadau adeiledig wedi'u nodweddu gan ffermydd ac anheddau gwasgaredig.

*Dyffryn Ucheldirol Mosäig*

3.17 Mae'r math hwn o dirwedd wedi'i nodweddu gan ardaloedd o ddyffrynnoedd uchel sy'n cynnwys llecynnau bach o goetir. Mae'r math hwn o dirwedd yn tueddu i fod ar raddfa lai na'r mathau o dirwedd ucheldirol cyfagos, a chyda llai o ryngwelededd. Mae'r amgylchedd adeiledig yn gyffredinol wedi'i gyfyngu i ffermydd ac aneddiadau llai gwasgaredig.

*Tir Pori ar Lethrau a Llethrau Sgarpiau*

3.18 Mae'r math hwn o dirwedd wedi'i nodweddu gan dir pori bras ar dir sydd â llethrau mwy na 10 gradd. Mae'r math hwn o dirwedd yn aml wedi'i leoli ar ochrau uwch dyffrynnoedd neu lethrau is, ac mae'n aml yn ardal sy'n cysylltu'r ucheldir a'r iseldir. Mae'r amgylchedd adeiledig yn gyffredinol wedi'i gyfyngu i ffermydd ac aneddiadau llai gwasgaredig. Mae lleoliad cyffredinol uchel y math hwn o dirwedd yn aml yn galluogi rhyngwelededd rhyngddo a mathau eraill o dirwedd yn yr ardal gyfagos.

*Rhostir ar Lethrau a Llethrau Sgarpiau*

3.19 Mae'r math hwn o dirwedd wedi'i nodweddu gan rostir ar dir llethrog sydd â diffyg ffiniau caeau yn gyffredinol. Mae'r math hwn o dirwedd yn aml wedi'i leoli ar ochrau uwch dyffrynnoedd neu lethrau is, ac mae hefyd yn ardal sy'n cysylltu'r ucheldir a'r iseldir yn aml. Ychydig iawn o ddatblygiadau adeiledig sydd yn y math hwn o dirwedd. Mae lleoliad cyffredinol uchel y math hwn o dirwedd yn aml yn galluogi rhyngwelededd rhyngddo a mathau eraill o dirwedd yn yr ardal.

*Mosäig ar Lethrau a Llethrau Sgarpiau*

3.20 Mae'r math hwn o dirwedd wedi'i nodweddu gan glytwaith o goetir conifferaidd ymysg tir pori bras ar dirffurf sydd ar lethr, yn serth mewn mannau, ac sydd wedi'i nodweddu gan batrwm rheolaidd o gaeau o faint canolig, wedi'u ffinio â chyfuniad o wrychoedd, ffensys a waliau cerrig. Mae'r amgylchedd adeiledig yn gyffredinol wedi'i gyfyngu i ffermydd gwasgaredig.

*Tir Pori ar Fryniau a Llwyfandiroedd Isel*

3.21 Mae'r math hwn o dirwedd wedi'i nodweddu gan dir pori ar lwyfandiroedd neu fryniau llyfngrwn bychain. Mae caeau naill ai wedi'u hamgylchynu gan gyfuniad o wrychoedd a chloddiau, neu maent yn gaeau agored; mae ychydig o goed. Mae amrywiaeth o ran y maint o ddatblygiadau adeiledig sydd yn bodoli yn y math hwn o dirwedd; mae'r rhain yn cynnwys tyrbinau gwynt. Mae cymeriad cyffredinol agored y math hwn o dirwedd yn galluogi peth rhyngwelededd rhyngddo a mathau eraill o dirwedd yn yr ardal gyfagos.

*Mosäig ar Fryniau a Llwyfandiroedd Isel*

3.22 Mae'r math hwn o dirwedd wedi'i nodweddu gan fosäig o dir pori bras a choedwigoedd ar lwyfandiroedd neu fryniau llyfngrwn bychain. Mae caeau fel arfer o faint canolig neu fawr ac maent wedi'u hamgylchynu gan gyfuniad o gloddiau a ffensys. Mae'r amgylchedd adeiledig yn gyffredinol wedi'i gyfyngu i ffermydd gwasgaredig.

*Bryniau Coediog a Llwyfandir Is*

3.23 Mae'r math hwn o dirwedd wedi'i nodweddu gan ardaloedd mawr o goedwigoedd conifferaidd a chymysg ar lwyfandiroedd neu fryniau llyfngrwn bychain. Ychydig iawn o ddatblygiadau adeiledig sydd yn y math hwn o dirwedd ac, yn gyffredinol, mae datblygiadau wedi'u cyfyngu i ffermydd gwasgaredig mewn ardaloedd o dir pori ucheldirol; gall mastiau telathrebu fod yn weladwy mewn rhai golygfeydd o'r nenlinell. Fodd bynnag, cymeradwywyd datblygiadau tyrbinau gwynt mawr yn ddiweddar yn y math hwn o dirwedd. Mae lleoliad uchel y math hwn o dirwedd yn galluogi peth rhyngwelededd rhyngddo a mathau eraill o dirwedd yn yr ardal gyfagos.

*Dyffryn Iseldirol Agored*

3.24 Mae'r math hwn o dirwedd yn cynnwys tir o fewn tirffurf dyffryn sydd â phellter o >50m rhwng gwaelod y dyffryn a'i grib. Yn gyffredinol, nid oes llawer o goed yn perthyn i'r dirwedd hon

ond gallai gynnwys rhai coed perth a llystyfiant glannau afon. Mae amrywiaeth o ran y maint a'r math o ddatblygiadau adeiledig sy'n bodoli yn y math hwn o dirwedd; mae hyn yn amrywio o ffermydd gwasgaredig i aneddiadau mwy. Mae cymeriad cyffredinol amgaeedig y math hwn o dirwedd yn galluogi rhyngwelededd cyfyngedig iawn rhyngddo a mathau eraill o dirwedd yn yr ardal gyfagos.

*Dyffryn Iseldirol Mosäig*

3.25 Mae'r math hwn o dirwedd yn cynnwys tir o fewn tirffurf dyffryn sydd â phellter o >50m rhwng gwaelod y dyffryn a'i grib. Mae'r maint o ddatblygiadau adeiledig yn y math hwn o dirwedd yn amrywio o ffermydd gwasgaredig i ardaloedd ag aneddiadau mwy a'u seilwaith cysylltiedig. Mae hefyd ambell i enghraifft o gynlluniau solar ffotofoltäig ar raddfa cae. Mae cymeriad cyffredinol amgaeedig y math hwn o dirwedd yn galluogi rhyngwelededd cyfyngedig iawn rhyngddo a mathau eraill o dirwedd yn yr ardal gyfagos.

*Dyffryn Iseldirol Coediog*

3.26 Mae'r math hwn o dirwedd wedi'i nodweddu gan ddyffrynnoedd coediog amgaeedig – o goetir llydanddail yn bennaf, wedi'i gymysgu ag ardaloedd o dir pori. Mae amrywiad o ran y maint a'r math o ddatblygiadau adeiledig sy'n bodoli yn y math hwn o dirwedd; mae hyn yn amrywio o ffermydd gwasgaredig i aneddiadau bach. Mae cymeriad amgaeedig y math hwn o dirwedd yn cyfyngu ar unrhyw ryngwelededd rhyngddo a mathau eraill o dirwedd yn yr ardal gyfagos.

*Iseldir Tonnog Agored*

3.27 Mae'r math hwn o dirwedd wedi'i nodweddu gan dir llethrog a thonnog. Yn gyffredinol, nid oes llawer o goed yn perthyn i'r dirwedd hon, ond gallai gynnwys coed perth ac ardaloedd gwasgaredig bach o goetir. Mae amrywiad o ran y maint a'r math o ddatblygiadau adeiledig yn y math hwn o dirwedd; mae hyn yn amrywio o ffermydd gwasgaredig i aneddiadau, gyda choridorau cludiant a seilwaith cysylltiedig. Mae cymeriad cyffredinol agored y math hwn o dirwedd yn galluogi peth rhyngwelededd rhyngddo a mathau eraill o dirwedd yn yr ardal gyfagos.

*Iseldir Tonnog Mosäig*

3.28 Mae'r math hwn o dirwedd wedi'i nodweddu gan glytwaith o gaeau sydd wedi'u hamgylchynu gan wrychoedd a choed perth, yn ogystal â choetir gwasgaredig ar dirffurf sy'n tonni'n ysgafn. Mae amrywiad o ran y maint a'r math o ddatblygiadau adeiledig sydd yn bresennol yn y math hwn o dirwedd; mae hyn yn amrywio o ffermydd gwasgaredig i aneddiadau, gyda choridorau cludiant a seilwaith cysylltiedig. Mae hefyd ambell i enghraifft o gynlluniau solar ffotofoltäig ar raddfa cae. Mae cymeriad cyffredinol amgaeedig y math hwn o dirwedd yn galluogi rhyngwelededd cyfyngedig iawn rhyngddo a mathau eraill o dirwedd yn yr ardal gyfagos.

*Iseldir Tonnog Coediog*

3.29 Mae'r math hwn o dirwedd wedi'i nodweddu gan dir tonnog, gweddol lethrog, gyda choetir llydanddail yn bennaf, wedi'i gymysgu â chaeau wedi'u hamgylchynu gan wrychoedd. Mae amrywiad o ran y maint a'r math o ddatblygiadau adeiledig sydd yn y math hwn o dirwedd; mae hyn yn amrywio o ffermydd gwasgaredig i aneddiadau bach. Mae cymeriad amgaeedig y math hwn o dirwedd yn cyfyngu ar unrhyw ryngwelededd rhyngddo a mathau eraill o dirwedd yn yr ardal gyfagos.

*Iseldir Gwastad Agored*

3.30 Mae'r math hwn o dirwedd wedi'i nodweddu yn bennaf gan dir gwastad a llethrau nad ydynt yn fwy na 3 gradd; gall hyn gynnwys dyffrynnoedd llydan a gwaelodion dyffrynnoedd. Yn gyffredinol, nid oes llawer o goed yn perthyn i'r dirwedd hon, ond gallai gynnwys rhai coed perth a llystyfiant glannau afon. Mae amrywiad o ran y maint a'r math o ddatblygiadau adeiledig sydd yn y math hwn o dirwedd; mae'n amrywio o ffermydd gwasgaredig i aneddiadau bach. Mae cymeriad agored y math hwn o dirwedd yn galluogi peth rhyngwelededd rhyngddo a mathau eraill o dirwedd yn yr ardal gyfagos, sydd wedi'i gyfyngu gan natur y tirffurf amgylchynol.

*Mosäig ar Iseldir Gwastad*

3.31 Mae'r math hwn o dirwedd wedi'i nodweddu gan glytwaith o gaeau wedi'u hamgylchynu gan wrychoedd a choed perth, a choetir gwasgaredig ar dirffurf sy'n wastad yn bennaf. Mae amrywiad o ran y maint a'r math o ddatblygiadau adeiledig sydd yn y math hwn o dirwedd; mae'n amrywio o ffermydd gwasgaredig i ganolfannau bywyd gwyllt. Mae cymeriad cyffredinol amgaeedig y math hwn o dirwedd yn galluogi rhyngwelededd cyfyngedig iawn rhyngddo a mathau eraill o dirwedd yn yr ardal amgylchynol.

*Iseldir Coediog Gwastad*

3.32 Mae'r math hwn o dirwedd wedi'i nodweddu gan goedwigoedd ar dir gwastad yn bennaf. Mae'r amgylchedd adeiledig wedi'i gyfyngu i adeiladau canolfannau ymwelwyr a'u seilwaith. Mae cymeriad cyffredinol amgaeedig y math hwn o dirwedd yn galluogi rhyngwelededd cyfyngedig iawn rhyngddo a mathau eraill o dirwedd yn yr ardal amgylchynol.

## Unedau Tirwedd

3.33 Dylid nodi nad yw'r Unedau Tirwedd y cyfeirir atynt yn yr astudiaeth hon yn dod o unrhyw asesiad blaenorol o gymeriad y dirwedd, ond eu bod wedi'u nodi, eu hamlinellu a'u mapio yn benodol at ddibenion yr astudiaeth hon; cânt hefyd eu disgrifio'n fras yn y paragraffau canlynol. Mae'r ffiniau rhwng unedau yn fynegol, a gall nodweddion gael eu rhannu rhwng unedau cyfagos. *O ganlyniad, dylai unrhyw gynigion sy'n agos at ffin Uned Dirwedd hefyd ystyried yr Unedau Tirwedd cyfagos wrth gwblhau asesiadau manwl a dilyn canllawiau. Mae Adran 4 isod yn cynnwys asesiad sensitifrwydd a chapasiti manwl ar gyfer pob Uned Dirwedd arwahanol.*

**1. Ucheldiroedd Efail-wen**

3.34 Mae ffiniau'r Uned Dirwedd hon yn cyfateb yn agos i ffiniau'r math o dirwedd Tir Pori ar Fryniau a Llwyfandiroedd Isel yn yr ardal. Mae wedi'i lleoli ar uchder rhwng oddeutu 150m uwchben datwm ordnans a 289m uwchben datwm ordnans yng Ngharn Wen, ac mae'n ymestyn i'r gogledd-orllewin o Hendy-gwyn ar Daf. Mae prif heol yr A478 rhwng Arberth ac Aberteifi yn croesi'r ardal o'r gogledd i'r de, gydag ardal bicnic wrth ochr yr heol a golygfan sy'n edrych tua Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, sy'n cydgyffwrdd â ffin ogleddol yr uned hon.

**2. Cwmfelin Boeth a Chanol Dyffryn Taf**

3.35 Mae'r Uned Dirwedd hon yn cynnwys cyfuniad o ddau fath o dirwedd sy'n rhannu nodweddion tirwedd a meini prawf cyffredin o ran sensitifrwydd, gan gynnwys graddfa, topograffi, y modd y maent wedi'u hamgáu, a nodweddion canfyddiadol. Mae tref Hendy-gwyn ar Daf yn gyfagos i'r ffin dde-ddwyreiniol, ac mae'r brif reilffordd o Gaerfyrddin i Hwlffordd yn croesi ac yn ail-groesi'r ffin dde-orllewinol bob yn ail mewn sawl man. Mae gan yr uned hon nifer bach o dyrbinau gwynt

sy'n weithredol ac wedi derbyn caniatâd, yn ogystal â gosodiad solar ffotofoltäig ar raddfa cae sydd wedi derbyn caniatâd.

**3. Cwm Taf Uchaf**

3.36 Uned Dirwedd gymhleth sy'n cynnwys dyffryn afon ag ochrau serth sy'n goediog yn bennaf ac sydd wedi'i leoli rhwng dwy ardal ucheldirol, gyda ffermydd gwasgaredig ac ambell i anheddiad bach, gan gynnwys Login a Llanglydwen. Mae Llwybr Gwlad y Landsker, sy'n llwybr hamdden a hyrwyddir, yn croesi rhan ddeheuol a chanolog yr uned hon.

**4. Cwm Gronw**

3.37 Mae hwn yn ddyffryn iseldirol a chanddo ochrau serth, gyda mosäig o laswelltir a choetiroedd llydanddail a chonifferaidd. Mae'n cynnwys ardal o barcdir yn Abaty Hendy-gwyn ar Daf, gyda ffermydd gwasgaredig fel y ffurf adeiledig bennaf, gyda'r unig anheddiad mwy, Llanboidy, yn ei ganol. Mae Llwybr Gwlad y Landsker, sy'n llwybr hamdden a hyrwyddir, yn croesi rhan ddeheuol yr uned hon.

**5. Brandy Hill a Whitehill Down**

3.38 Mae'r Uned Dirwedd hon wedi'i seilio ar ddwy ardal gyfagos o'r math o dirwedd Iseldir Tonnog Mosäig sy'n rhannu nodweddion a meini prawf sensitifrwydd cyffredin. Croesir yr ardal gan goridor cefnffordd prysur yr A477, lle nad yw'r gwaith adlinio diweddar eto'n cydweddu â'r dirwedd, ac mae llinellau foltedd uchel uwchben, a gaiff eu cynnal ar dyrau dur delltog, yn gwahanu echel hir yr uned hon. Y tŵr telathrebu ar Brandy Hill yw pwynt uchaf yr uned, sef 205m uwchben datwm ordnans. Mae gan yr uned nifer bach o dyrbinau gwynt gweithredol.

**6. Llanddowror, Old Pale a Choed Hendy-gwyn ar Daf**

3.39 Mae'r uned hon yn seiliedig ar gyfres gymhleth o ddyffrynnoedd afon ac ochrau dyffryn coediog iawn (coetir llydanddail yn bennaf), gydag ardaloedd bach o laswelltir mwy agored. Mae'r ardal ogleddol wedi'i lleoli yn Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Taf. Mae ffurfiau adeiledig yn cynnwys ffermydd gwasgaredig ac aneddiadau bach Llanddowror a New Mill.

**7. Bryniau Marros**

3.40 Mae'r Uned Dirwedd hon yn cyfateb yn agos i'r Iseldir Tonnog Mosäig math o dirwedd ac mae'n cynnwys y dyffrynnoedd iseldirol sy'n gwahanu'r llethrau deheuol sy'n edrych dros y corsydd arfordirol. Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gyfagos i ffin dde-orllewinol yr uned hon a saif yr ardal dde-ddwyreiniol yn Ardal Tirwedd Arbennig Bae ac Aberoedd Caerfyrddin. Mae ffurfiau adeiledig yn cynnwys ffermydd gwasgaredig ac anheddiad Pentywyn; mae nifer o dyrbinau gwynt gweithredol ac â chaniatâd, yn ogystal â gosodiad solar ffotofoltäig ar raddfa cae sydd wedi derbyn caniatâd.

**8. Hendy-gwyn ar Daf i Sanclêr**

3.41 Mae'r Uned Dirwedd hon yn cyfateb yn agos i'r Dyffryn Iseldirol Mosäig math o dirwedd. Mae'n cynnwys rhan o Ddyffryn Taf, er bod mwyafrif yr ardal yn cynnwys tir amaeth tonnog sy'n wynebu'r de. Mae coridorau cludiant cefnffordd yr A40 a'r prif reilffyrdd sy'n cysylltu Caerfyrddin a Doc Penfro a Chaerfyrddin a Hwlffordd yn rhedeg ar draws yr ardal, ar hyd gwaelod y dyffryn o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae ffermydd gwasgaredig yn ogystal â threfi bychain Sanclêr a Hendy-gwyn ar Daf.

**9. Dyffryn Taf Isaf**

3.42 Mae'r Uned Dirwedd hon, sydd wedi'i lleoli i'r de-orllewin o Sanclêr, wedi'i nodweddu gan ddyffryn gweddol agored a chanddo waelod pendant. Darperir peth amgaead gan ardaloedd o goetir ar ochrau'r dyffryn. Mae ffurfiau adeiledig yn gyfyngedig i ffermydd gwasgaredig ar ochrau'r dyffryn, ac mae'r ffin ddeheuol yn ffinio â phentref Llanddowror. Mae'r rhan fwyaf o'r uned hon wedi'i lleoli yn Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Taf. Mae prif heol yr A477 rhwng yr A40 yn Sanclêr a Doc Penfro yn croesi hanner dwyreiniol yr uned hon, ar aliniad a adeiladwyd yn ddiweddar sy'n osgoi Llanddowror, ac nid yw'n cydweddu â'r dirwedd leol eto. Mae'r brif reilffordd sy'n cysylltu Caerfyrddin a Doc Penfro yn croesi'r ardal fwyaf gorllewinol.

**10. Llanboidy ac Ucheldiroedd Blaen-waun**

3.43 Yn ôl LANDMAP, ucheldir yw'r ardal uchel hon – sydd â golygfeydd o Fynydd Preseli – o lwyfandir agored a dyranedig, oherwydd ei bod mor agored yn hytrach na'i thirwedd, sydd wedi'i nodweddu gan laswelltir wedi'i wella ac ychydig iawn o orchudd coed, gyda ffermydd gwasgaredig ac aneddiadau bach. Mae nifer o dyrbinau gwynt gweithredol ac sydd wedi derbyn caniatâd yn bresennol, gan gynnwys y fferm wynt hirsefydlog ger Llanboidy.

**11. New Mill Valley**

3.44 Mae'r Uned Dirwedd ddiarffordd hon yn cynnwys dyffryn afon gweddol gul a chanddo ochrau serth, gyda rhai ardaloedd o goetir sy'n cynyddu'r ymdeimlad o amgaead. Ychydig iawn o ffermydd gwasgaredig sy'n bresennol, er bod pentref mawr Talacharn wedi'i leoli yn union drws nesaf i'r ffin ddwyreiniol fer.

**12. Cwm Cych a Llethrau Cych**

3.45 Mae'r Uned Dirwedd hon yn seiliedig ar ddwy ardal gyfagos o'r Dyffryn Iseldirol Mosäig math o dirwedd sy'n rhannu nodweddion a meini prawf sensitifrwydd cyffredin. Mae gan y dirwedd serth, gymhleth hon sydd ar ochr dyffryn – a chanddi gymysgedd o goetir collddail a chonifferaidd – ffermydd gwasgaredig, gyda phentrefannau yn unig, sef Capel Iwan a Cwmorgan. Mae wedi'i hamgáu tua'r dwyrain gan y dirwedd o fath ucheldirol gyfagos ym Moelfre a Phen y Garn.

**13. West a East Marsh**

3.46 Mae'r Uned Dirwedd amlwg hon yn cynnwys cyfuniad o ddwy ardal gyfagos o'r tir ffermio Iseldir Gwastad Agored math o dirwedd sy'n rhannu nodweddion tirwedd a meini prawf sensitifrwydd cyffredin. Mae'n ardal agored o dir pori arfordirol sydd wedi'i lleoli tua'r tir ac yn union gerllaw twyni tywod Pentywyn. Ffermydd gwasgaredig yw'r unig ffurf o ddatblygiad, ar wahân i adeiladau'r Weinyddiaeth Amddiffyn a seilwaith cysylltiedig yn West Marsh.

**14. Llethrau Cenarth**

3.47 Saif yr ardal goediog iawn hon o iseldir tonnog rhwng Dyffryn Teifi a Chwm Cuch ac ucheldir Penrherber ac mae'n edrych dros ochr ddeheuol dyffryn Afon Teifi. Mae'r coetir llydanddail a chymysg yn creu ymdeimlad o amgaead ac yn cyfyngu ar y nifer o olygfeydd agored tuag allan o'r uned hon. Mae cymysgedd o ffermydd gwasgaredig a chalets gwyliau / parciau carafanau wedi'u gosod mewn patrwm mosäig o wrychoedd aeddfed a choetir, ac mae ochrau deheuol pentrefi Cenarth a Chastellnewydd Emlyn yn cydgyffwrdd â rhannau o ffin ogleddol yr Uned Dirwedd hon, sydd wedi'i lleoli yn Ardal Dirwedd Arbennig Dyffryn Teifi.

**15. Dyffrynnoedd Gorllewin Sir Gaerfyrddin**

3.48 Mae'r Uned Dirwedd gymhleth hon yn cynnwys rhwydwaith trwchus o ddyffrynnoedd cul a serth, sy'n gwahanu’n bendant yr ardal eang o lwyfandir ucheldirol wedi'i lleoli i’r gogledd-orllewin o Gaerfyrddin a’r gogledd o Sanclêr. Mae ochrau'r dyffrynnoedd yn goediog fel arfer, gyda chymysgedd o goed llydanddail a chonifferaidd. Mae ffermydd gwasgaredig ac aneddiadau bach wedi'u cysylltu gan rwydwaith o heolydd cul â gwrychoedd uchel sy'n cyfrannu at yr ymdeimlad o amgaead; mae rhai golygfeydd tuag i mewn i’r uned hon o'r ardal lwyfandirol gyfagos.

**16. Ucheldiroedd Penrherber**

3.49 Mae'r Uned Dirwedd eang hon yn cynrychioli ardal ryngbarthol rhwng ucheldir ac iseldir, ac mae wedi'i lleoli ar ochr orllewinol ardal o lwyfandir ucheldirol i’r de o Gastellnewydd Emlyn. Mae'n cynnwys tair adran wahanol, ac mae pob un ohonynt wedi'i nodweddu gan dir pori amgaeedig gyda gwrychoedd isel wedi'u gosod ar dirffurf tonnog. Mae ffermydd gwasgaredig wedi'u cysylltu gan rwydwaith o heolydd bach; mae nifer bach o dyrbinau gwynt gweithredol neu sydd wedi derbyn caniatâd.

**17. Pen y Garn a Moelfre**

3.50 Mae'r ddau fryn amlwg, llyfngrwn hyn o dir pori, sydd wedi'u hamgylchynu gan argloddiau a ffensys, yn codi uwchben y dirwedd lwyfandirol gyfagos. Ar wahân i sawl planhigfa gonifferaidd, ceir ychydig iawn o goed neu lwyni. Mae gan yr Uned Dirwedd wledig ac agored iawn hon nifer bach o dyrbinau gwynt gweithredol ac sydd wedi derbyn caniatâd.

**18. Dyffrynnoedd Taf Isaf a Chywyn**

3.51 Mae'r Uned Dirwedd hon, a chanddi ddyffryn llydan, yn ymestyn dros yr iseldir rhwng Caerfyrddin a Sanclêr, gyda rhai ardaloedd o goetir ar y llethrau deheuol, a ffiniau caeau â digon o lystyfiant gyda choed perth, sy'n creu patrwm mosäig dros y tir. Mae'n goridor cyfathrebu pwysig, gyda chefnffordd yr A40 a'r brif reilffordd sy’n cysylltu Caerfyrddin a Doc Penfro yn rhedeg ar draws yr ardal. Mae llinellau foltedd uchel uwchben, a gaiff eu cynnal gan dyrau dur delltog, yn croesi rhan ddeheuol yr uned hon, ac mae gosodiad paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae sydd wedi derbyn caniatâd.

**19. Dyffryn Coomb**

3.52 Dyffryn diarffordd a choediog, a chanddo ochrau serth, sydd wedi'i leoli yng nghanol tirwedd ehangach o dir ffermio tonnog ac aberoedd rhwng pentrefi Llangynog a Llan-y-bri. Nid yw'r Uned Dirwedd ddeniadol a thawel hon wedi'i difetha gan unrhyw ddatblygiad, ac eithrio'r llinellau foltedd uchel uwchben, a gaiff eu cynnal gan dyrau dur delltog, sy'n croesi ei rhan fwyaf gogleddol.

**20. Dre-fach Felindre**

3.53 Mae'r Uned Dirwedd hon yn cynnwys rhwydwaith o ddyffrynnoedd coediog iawn sydd wedi'u hendorri i’r llwyfandir i’r de o Ddyffryn Teifi, gyda phatrwm o aneddiadau llinellog sy'n cynnwys bythynnod teras yn bennaf, gan adlewyrchu dylanwad y diwydiant gwlân pwysig gynt. Mae’r coetir a’r ffiniau caeau ar ffurf gwrychoedd, ynghyd ag ochrau serth y dyffrynnoedd, yn darparu ymdeimlad sylweddol o amgaead sy'n darparu ychydig iawn o olygfeydd tuag allan i Unedau Tirwedd cyfagos.

**21. Llethrau Trefechan**

3.54 Mae'r Uned Dirwedd hon yn cynnwys dwy ardal ddaearyddol ar wahân, sydd wedi'u dynodi fel yr un math o dirwedd Iseldir Tonnog Mosäig, a leolir i’r gogledd-orllewin a’r gorllewin o

Gaerfyrddin. Mae'n dirwedd amaethyddol a chanddi laswelltir wedi'i wella, gwrychoedd a choedwigoedd bach, yn ogystal â ffermydd ac aneddiadau gwasgaredig; mae rhai datblygiadau mwy diweddar yn ardal ddwyreiniol yr uned hon, lle y mae'n rhannu ffin ag ochr ogleddol Caerfyrddin. Mae nifer bach o dyrbinau gwynt gweithredol neu sydd wedi derbyn caniatâd.

**22. Bryniau Arfordirol Llan-y-bri**

3.55 Mae'r Uned Dirwedd hon yn cynnwys tir eang o fryniau tonnog sydd wedi'u lleoli ar ochr orllewinol aber Afon Tywi, ac ar draws rhan o aber is Afon Taf, ac mae wedi'i gwahanu gan nifer o ddyffrynnoedd bach a chanddynt ochrau serth. Mae'n dirwedd amaethyddol o gaeau pori a gwrychoedd aeddfed sydd wedi'u plannu ar argloddiau serth, ynghyd â rhai ardaloedd bach o goetir, sydd, gyda'i gilydd, yn creu'r patrwm gorchudd tir mosäig nodweddiadol. Gan mwyaf, mae'r patrwm aneddiadau yn un o ffermydd gwasgaredig, gyda phentrefi yn Llan-y-bri a Llansteffan; mae llinellau foltedd uchel uwchben, a gaiff eu cynnal gan dyrau dur delltog, yn croesi rhan ogleddol yr uned hon. Mae nifer bach iawn o dyrbinau gwynt gweithredol ac sydd wedi derbyn caniatâd.

**23. Llethrau Aber Tywi**

3.56 Mae'r Uned Dirwedd hon yn cynnwys sawl ardal ddaearyddol ar wahân, sydd wedi'u dosbarthu fel yr un math o dirwedd Dyffryn Iseldirol Mosäig, sydd wedi'u lleoli ar ddwy ochr aber Afon Tywi. Mae eu hochrau yn nodweddiadol serth ac yn goediog iawn, ac mae golygfeydd godidog tuag allan ar draws yr aber. Mae aneddiadau'n brin, gyda ffermydd a thai gwasgaredig yn unig. Mae llinellau foltedd uchel uwchben, a gaiff eu cynnal gan dyrau dur delltog, yn croesi rhan ogledd-ddwyreiniol yr uned hon.

**24. Llethrau Rhos**

3.57 Mae'r Uned Dirwedd hon yn cynnwys llwyfandir dyranedig iawn a chanddo lethrau ysgafn sydd wedi'i lleoli rhwng y dyffryn afon iseldirol i'r gogledd a'r llwyfandir ucheldirol i'r de. Mae'n dirwedd amaethyddol o gaeau syth sydd â ffiniau gwrychoedd â rhai coed perth. Mae'r patrwm aneddiadau yn gymysgedd o ffermydd gwasgaredig ac aneddiadau llinellol bach, fel Saron a Rhos ar hyd priffordd yr A487.

**25. Rhos Blaen Esgair**

3.58 Mae'r Uned Dirwedd hon yn ardal o dir pori garw a phlanhigfeydd conifferaidd sydd wedi'i lleoli ar lwyfandir sy'n tonni'n ysgafn ac sydd wedi'i rhannu gan dirffurf dyffryn afon cymhleth. Mae'r caeau yn weddol fawr ac wedi'u hamgylchynu gan argloddiau a ffensys, gyda diffyg amlwg o wrychoedd a choed perth. Mae'r patrwm aneddiadau yn gymysgedd o ffermydd gwasgaredig ar wahân ac aneddiadau llinellol bach fel Hermon. Mae rhai tyrbinau gwynt gweithredol ac sydd wedi derbyn caniatâd.

**26. Dyffryn Teifi**

3.59 Mae'r Uned Dirwedd linellol hon yn cynnwys cyfuniad o sawl math o dirwedd sy'n rhannu nodweddion tirwedd a meini prawf sensitifrwydd cyffredin. Mae'r ddyffryn a'i ochrau yn goediog iawn mewn mannau, ond ceir tir ffermio, gwrychoedd a choed ar hyd rhannau canol isaf Afon Teifi. Mewn mannau eraill, mae'r dyffryn yn weddol gul, gyda golygfeydd wedi'u cyfyngu i waelod y dyffryn a'r llethrau yn gyffredinol.

**27. Cwm Duad a Chwm Gwili**

3.60 Mae'r Uned Dirwedd linellol hon yn cynnwys dyffryn iseldirol cymhleth a throellog, sy'n rhedeg tua'r gogledd-orllewin o ardal ogleddol Caerfyrddin. Mae'n goediog iawn ac mae tir pori wedi'i amgylchynu gan wrychoedd. Mae'r ardal yn goridor cyfathrebu lleol pwysig, gyda phrif heol yr A484 i Aberteifi ac atyniad treftadaeth Rheilffordd Ager Gwili yn rhedeg ar hyd gwaelod y dyffryn. Mae cymysgedd o ffermydd gwasgaredig yn ogystal â phentrefi Bronwydd, Cynwyl Elfed a Chwmduad.

**28. Bryniau Arfordirol Llansaint a Llethrau Arfordirol Llanismel**

3.61 Mae'r Uned Dirwedd hon yn seiliedig ar y ddwy ardal gyfagos o Iseldir Tonnog Mosäig math o dirwedd sy'n rhannu nodweddion a meini prawf sensitifrwydd cyffredin. Yn bennaf yn dir pori, gyda phriddoedd nodweddiadol goch, mae gan y bryniau tonnog a'r llethrau hyn olygfeydd eang dros aberoedd cyfagos Tywi a Gwendraeth. Mae'n bennaf yn cynnwys ffermydd gwasgaredig ac ambell i anheddiad mwy, gyda phentref cnewyllol mwy Llansaint wedi'i leoli ar frig y bryn, a’r anheddiad llinellol cyferbyniol Glanyfferi wedi'i leoli ar bwys aber Afon Tywi. Mae'r ffin dde-ddwyreiniol yn ffinio ag ochrau gorllewinol Cydweli. Mae'r brif reilffordd rhwng Llanelli a Chaerfyrddin yn dilyn yr arfordir yn agos ar hyd ochrau deheuol, gorllewinol a gogledd-orllewinol yr Uned Dirwedd hon, ond isffyrdd mynediad lleol yn unig sy'n croesi'r tir ffermio tawel. Mae llinellau foltedd uchel uwchben, a gaiff eu cynnal gan dyrau dur delltog, yn croesi rhan fwyaf gogleddol yr uned hon. Mae nifer bach o dyrbinau gwynt gweithredol ac sydd wedi derbyn caniatâd, yn ogystal â gosodiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae.

**29. Coedwig Pen-bre a Phen-y-bedd**

3.62 Mae'r Uned Dirwedd hon wedi'i seiliedig ar ardal nodweddiadol o blanhigfa goedwig gonifferaidd ddi-dor sydd gerllaw’r arfordir. Mae'r ardal ddeheuol, a oedd ym meddiant Ffatri Ordnans Frenhinol Pen-bre yn gynt, wedi'i throi’n barc gwledig, a chaiff y defnydd adloniadol hwn ei hwyluso a'i gynyddu gan bresenoldeb Llwybr Arfordir Cymru, y man cychwyn ar gyfer llwybr adloniadol hirbell a hyrwyddir Sant Illtyd, a rhan o Lwybr Beicio Cenedlaethol 4.

**30. Lefelau a Chwaraeon Moduron Pen-bre**

3.63 Mae'r Uned Dirwedd fach ond nodweddiadol hon yn seiliedig ar y tir ffermio Iseldir Gwastad Agored math o dirwedd. Mae'n cynnwys canolfan chwaraeon moduron, sydd wedi'i lleoli ar y maes awyr segur, mewn tirwedd ehangach o dir ffermio agored wedi'i ffinio â chymysgedd o wrychoedd a ffensys sydd yn aml yn rhedeg ar hyd ffosydd. Mae seilwaith trafnidiaeth yn cael dylanwad mawr ar yr uned, oherwydd presenoldeb prif heol yr A484 rhwng Llanelli a Chaerfyrddin, a’r brif reilffordd sy’n cysylltu Llanelli a Chaerfyrddin, sy'n rhedeg yn fras gyfochrog â’r heol ac yn agos iawn ati.

**31. Ucheldiroedd Banc-y-ffordd**

3.64 Mae'r Uned Dirwedd hon wedi'i seiliedig ar ardal fawr o ucheldir â llethrau graddol i’r de o Landysul a’r gorllewin o Bencader. Mae ganddi ffin fylchog ar hyd llawer o'i hyd ac mae wedi'i nodweddu gan gaeau unionlin, gyda ffermydd gwasgaredig drwyddi draw wedi'u cysylltu gan heolydd bach a chanddynt argloddiau wrth eu hochr. Yn gyffredinol, mae'n dirwedd agored gydag ychydig o goed neu goetiroedd. Mae nifer bach o dyrbinau gwynt gweithredol ac sydd wedi derbyn caniatâd yn bresennol.

**32. Gwastadeddau Gwendraeth**

3.65 Mae'r Uned Dirwedd amlwg hon yn seiliedig ar y Mosäig ar Iseldir Gwastad math o dirwedd ac mae'n cynnwys caeau is a gwlyptiroedd, gyda ffosydd draenio a gwrychoedd sydd wedi gordyfu, sy'n creu ymdeimlad sylweddol o amgaead ac o bellenigrwydd. Yn gyffredinol, mae ffurfiau adeiledig yn cynnwys ffermydd gwasgaredig a thai ar wahân, er bod yr ochr ogledd-orllewinol gerllaw tref Cydweli. Mae prif heol yr A484 rhwng Llanelli a Chaerfyrddin yn croesi cornel eithafol yr uned hon yn y gogledd-orllewin, ond, heblaw hynny, mae'n ardal weddol dawel a diarffordd. Mae Llwybr Arfordir Cymru yn croesi rhan o ardal ogledd-orllewinol yr uned ac mae Llwybr Sant Illtyd yn croesi'r rhan ddeheuol.

**33. Bryniau Llanpumsaint**

3.66 Mae'r Uned Dirwedd uchel hon, sydd wedi'i lleoli ychydig i'r de o Lanpumsaint, yn cynnwys bryniau tonnog o gaeau â gwrychoedd a ffermydd gwasgaredig, wedi'u hamgylchynu gan Afon Gwili ar dair ochr, gyda chysylltiadau â'r ucheldir uwch sy'n codi tua'r dwyrain. Mae gan lednentydd Afon Gwili ddyffrynnoedd rhychog ar ochrau deheuol a gorllewinol y dirwedd hon. Mae'r patrwm aneddiadau yn bennaf ar ffurf ffermydd a phentrefannau gwasgaredig, gydag aneddiadau llinellol mwy wedi'u lleoli ar hyd prif heol yr A485 rhwng Caerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan, fel Rhydargaeau.

**34. Basn Llanpumsaint**

3.67 Mae'r Uned Dirwedd eang hon wedi'i lleoli ar hyd rhannau canol Afon Gwili, ac mae wedi'i nodweddu gan waelod dyffryn eang ac ochrau dyffryn serth sydd yn aml yn goediog. Mae'r ffin ddwyreiniol wedi'i rhicio'n sylweddol gan blanhigfeydd conifferaidd ar ochrau Coedwig Brechfa. Mae prif heol yr A485 rhwng Caerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan yn croesi'r ardal o'r gogledd i'r de, ac mae'r ardal yn cynnwys cymysgedd o ffermydd a phentrefannau gwasgaredig, gydag aneddiadau llinellol ar hyd y brif heol ac aneddiadau mwy yn Alltwalis a Llanpumsaint. Mae nifer bach o dyrbinau gwynt gweithredol ac sydd wedi derbyn caniatâd.

**35. Afon Siedi, Pentre-cwrt a Chwm Tyweli**

3.68 Mae'r Uned Dirwedd gymhleth hon yn cynnwys dyffryn cul Afon Tyweli a'i hisafonydd, gydag ardal bellennig tua'r gorllewin ger Pentre-cwrt, ac mae'n cynnwys mosäig o gaeau a gwrychoedd, gydag ardaloedd coediog ar ochrau'r dyffryn. Mae'r aneddiadau'n gymysgedd o ffermydd gwasgaredig, pentrefannau ac anheddiad llinellol mwy Pencader. Mae rhan dde-ddwyreiniol yr uned hon yn gyfagos at Ardal Chwilio Strategol Coedwig Brechfa, ac mae fferm wynt weithredol Alltwalis yn nodwedd amlwg sy'n weladwy o rannau o'r uned hon.

**36. Gwendraeth Fach**

3.69 Ar ochr is dyffryn afon Gwendraeth Fach, mae'r Uned Dirwedd fawr hon, sy'n llinellol yn y bôn, yn seiliedig ar ddyffryn bas sy'n cynnwys mosäig o gaeau, gwrychoedd a pheth coetir, gyda chymysgedd o ffermydd gwasgaredig ac aneddiadau llai. Mae'r olaf yn bentrefi bach sydd wedi'u lleoli wrth fannau croesi neu sy'n edrych dros yr afon, fel Llangyndeyrn a Llandyfaelog. Mae ymdeimlad cryf o le ac mae awyrgylch gwledig gweddol ddigyffwrdd a diarffordd yn perthyn iddi. Mae'n rhedeg o'r A40, ger Porth-y-rhyd yn y gogledd-ddwyrain, i'r de-orllewin i'w chwr pellaf mwyaf deheuol, sy'n ffinio â chyrion gogleddol tref Cydweli, wrth ymyl aber Afon Gwendraeth.

**37. Mynydd Tre-beddau**

3.70 Mae'r Uned Dirwedd hon yn cynnwys dwy ardal ffisegol ar wahân, wedi'u lleoli ar lethrau gorllewinol Elenydd, ac mae'n bennaf yn dir pori ucheldirol, gyda rhai mannau yn yr ardal gerllaw

planhigfeydd conifferaidd Coedwig Brechfa. Mae dyffrynnoedd isafonydd Afon Tyweli yn y gorllewin yn rhicio ffin ogledd-orllewinol rhan ddeheuol yr ardal hon yn sylweddol. Mae'r rhan ogleddol yn edrych dros ddarn sylweddol o dir Dyffryn Teifi, ac, ar yr ochr dde-ddwyreiniol, mae'n ffinio â rhostir llwyfandirol agored Mynydd Llanllwni. Mae'r tyrbinau gwynt yn fferm wynt Alltwalis yn dirnod amlwg yn lleol, ac mae'r mwyafrif o'r ardal yn gorwedd o fewn Ardal Chwilio Strategol Coedwig Brechfa.

**38. Gwendraeth Fawr**

3.71 Mae'r Uned Dirwedd hon wedi'i seiliedig ar ddyffryn afon iseldirol o gaeau bach a gwrychoedd rhwng Ardal Tirwedd Arbennig Esgair Galchfaen Sir Gaerfyrddin i'r gogledd. Mae'n ymestyn ar hyd y dyffryn, o bentrefi Dre-fach a'r Tymbl yn y gogledd-ddwyrain, tua'r de-orllewin ac yn ymestyn at ochr ogledd-ddwyreiniol tref Cydweli ar aber Afon Gwendraeth. Mae tystiolaeth o hanes mwyngloddio'r ardal yn dal i fod yn amlwg yn yr aneddiadau pentrefi pyllau glo nodweddiadol a llinellol – fel Trimsaran, Pont-iets a Phontyberem – ynghyd â hen reilffyrdd a thir a adferwyd ar ôl gweithrediadau mwyngloddio brig sylweddol y gorffennol. Mae cae ras Ffos Las yn ddatblygiad mawr newydd wedi'i leoli ar safle mwyngloddio brig adferedig i'r gogledd o Drimsaran sydd wedi newid cymeriad rhan ddeheuol y dyffryn yn sylweddol. Mae hefyd nifer o osodiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae sydd wedi derbyn caniatâd.

**39. Parc Arfordir y Mileniwm**

3.72 Mae'r Uned Dirwedd hir a llinellog hon yn seiliedig ar ddarn cul o dir ar ymyl arfordirol aber Afon Llwchwr, rhwng cyrion pentref Pen-bre yn y gorllewin ac ardal Trostre rhan dde-ddwyreiniol Llanelli yn y dwyrain. Mae gan y ffin ogleddol gefndir trefol i raddau helaeth. Mae rhan ddwyreiniol y gwastatir, sy'n ymestyn o gyrion deheuol Llanelli i'r morfeydd heli a'r morglawdd, wedi'i datblygu fel Canolfan Gwlyptir Genedlaethol Cymru er mwyn creu rhwydwaith o gynefinoedd gwlyptir. Caiff y defnydd adloniadol ei adlewyrchu gan nifer o lwybrau cerdded a beicio a chuddfannau adar, ynghyd ag agosrwydd Llwybr Arfordir Cymru. Mae golygfeydd helaeth dros yr aber i arfordir gogleddol Penrhyn Gŵyr.

**40. Mynyddystyfflau Carn**

3.73 Mae'r Uned Dirwedd hon yn ardal fawr o lwyfandir pori sydd wedi'i lleoli i'r de o Goedwig Brechfa, gyda rhai ardaloedd agored o dir comin a phlanhigfeydd conifferaidd bach. Mae ei ffiniau wedi'u rhicio'n sylweddol. Mae'r patrwm aneddiadau yn yr ardal ddiarffordd hon wedi'i gyfyngu i ffermydd gwasgaredig, ac mae ambell i heol yn bresennol. Mae nifer bach o dyrbinau gwynt gweithredol neu sydd wedi derbyn caniatâd.

**41. Neuadd a Bryniau Middleton**

3.74 Mae hon yn ardal fawr o dir ffermio iseldirol tonnog sydd wedi'i lleoli rhwng Dyffryn Tywi a Gwendraeth Fach, ac mae wedi'i nodweddu gan gaeau o faint canolig a chanddynt wrychoedd wedi'u rheoli a phatrwm aneddiadau gwasgaredig yn bennaf. Mae'r ffin ddwyreiniol yn agos at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae cefnffordd yr A48 rhwng Caerfyrddin a Cross Hands yn rhedeg ar hyd y rhan ganol, ond nid yw'r heol brysur hon wedi effeithio ar weddill yr ardal. Mae rhan yr A483 sy'n cysylltu Llanelli a Llandeilo i'r gogledd o Landybïe yn croesi rhan fwyaf dwyreiniol yr ardal, ac mae rhan yr A484 rhwng Caerfyrddin a Llanelli yn croesi rhan fwyaf gorllewinol yr ardal. Mae to nodweddiadol y tŷ gwydr anferthol yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn dirnod lleol

o fewn y dirwedd. Mae nifer bach o dyrbinau gwynt gweithredol neu sydd wedi derbyn caniatâd yn bresennol, yn ogystal â gosodiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae.

**42. Cwm Lliedi**

3.75 Mae'r Uned Dirwedd weddol fach hon yn cynnwys dyffryn coediog ag ochrau serth a ffurfiwyd gan Afon Lliedi, ac mae'n cynnwys dwy gronfa storio dŵr ond heb unrhyw aneddiadau, ar wahân i bentrefan Horeb yn y rhan fwyaf gogleddol. Mae'n ardal ddeniadol a thawel, gydag ymdeimlad cryf o le, ac mae'n boblogaidd ymysg cerddwyr a beicwyr o dref gyfagos Llanelli ac ardaloedd eraill. Mae mynediad at yr ardal hon wedi'i hwyluso gan lwybr cerdded/beicio ar hyd yr hen reilffordd fwnol, ar hyd ochr orllewinol y dyffryn, yn ogystal â llwybr adloniadol hirbell a hyrwyddir Sant Illtyd, sy'n croesi'r dyffryn rhwng y ddwy gronfa ddŵr. Mae'r ffin dde-ddwyreiniol yn ffinio â phrif heol yr A476 rhwng Llanelli a Cross Hands, a'r ardaloedd tai yn ardal Swiss Valley, ond mae'r dyffryn ei hun yn ddiarffordd a thawel ar y cyfan.

**43. Mynydd Llanllwni**

3.76 Mae'r Uned Dirwedd hon yn ardal eang ac agored o rostir grugog ar dirffurf llwyfandirol sy’n tonni’n ysgafn. Mae'r rhan ddeheuol yn amgylchynu dyffryn afon sydd wedi'i ricio’n ddwfn yng Nghoedwig Brechfa. Mae golygfeydd godidog eang, yn enwedig tua'r gogledd ar draws Dyffryn Teifi, ac i'r de-ddwyrain tua Bannau Brycheiniog. Mae'r holl Uned Dirwedd wedi'i lleoli yn yr ardal a ddynodir fel Ardal Tirwedd Arbennig Mynydd Llanllwni. Ychydig iawn o ffurfiau adeiledig sy'n bodoli, ar wahân i'r mastiau telathrebu sydd wedi'u lleoli ar y man uchaf o 408m uwchben datwm ordnans – nodwedd amlwg mewn rhai golygfeydd. Er nad oes tyrbinau gwynt gweithredol nag sydd wedi derbyn caniatâd yn yr Uned Dirwedd hon, mae'r ardal ganolog wedi'i lleoli yn Ardal Chwilio Strategol Coedwig Brechfa. Ar ben hynny, mae rhannau deheuol a dwyreiniol yr uned hon yn gyfagos i Goedwig Brechfa, ardal sy'n cynnwys ffermydd gwynt sydd wedi derbyn caniatâd.

**44. Rhan Ganol Dyffryn Teifi**

3.77 Mae hon yn Uned Dirwedd weddol fawr a llinellol sy'n cynnwys ochrau deheuol Dyffryn Teifi, rhwng pwynt sydd ychydig i'r de o Lanbedr Pont Steffan yn y gogledd-ddwyrain a phentref Llandysul yn y de-orllewin, gyda phentref Llanybydder yn agos at y canol ar ei hochr ogleddol. Mae'n ardal o dir amaethyddol gyda llethrau ysgafn, a chanddi ffiniau caeau diffiniedig o wrychoedd a rhai coetir collddail. Ar wahân i'r pentrefi mwy hyn, mae cymysgedd o aneddiadau sy'n amrywio o ffermydd gwasgaredig i aneddiadau llinellol mwy megis Llanllwni. Mae prif heol yr A485 rhwng Caerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan yn croesi’r rhan ddeheuol i Lanybydder, lle y mae'n rhedeg yn agos at y ffin ogleddol mor bell â Chwm-ann, yn agos at ffin Ceredigion, lle y mae'n ymuno â'r A482 yn dod i fyny o'r de-ddwyrain.

**45. Cefn Crwbin**

3.78 Mae'r Uned Dirwedd fawr iawn a llinellol hon yn seiliedig ar nodwedd gref, sef cefn llydan o dir uchel agored, gan gynnwys ardaloedd o dir comin agored, porfeydd amgaeedig, a sawl chwarel galch. Mae'n cynnwys dau ddarn o dir sydd wedi'u gwahanu gan y cwm cul i'r gogledd o Landybïe, sy’n rhedeg o'r gogledd-ddwyrain i'r de-orllewin, ac sy’n ymestyn o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i bentref Mynyddygarreg i’r dwyrain o Gydweli. Mae Parc Gwledig Llyn Llech Owain, gyda'i blanhigfeydd conifferaidd a'i lyn, wedi'i leoli yn rhan ddwyreiniol yr uned. Mae cymysgedd o aneddiadau gwasgaredig ac aneddiadau llinellol mwy sy'n gysylltiedig â'r chwareli. Mae nifer bach o dyrbinau gwynt gweithredol ac sydd wedi derbyn caniatâd. Caiff y cefn ei groesi gan gefnffordd yr

A48 i'r gogledd o Cross Hands. Yn ogystal, caiff ei groesi gan linellau foltedd uchel uwchben, a gynhelir gan dyrau dur delltog, yn rhan ganol yr uned, rhwng Pontyberem a Phont-henri. Ceir golygfeydd helaeth o sawl lleoliad o'r cefn hwn.

**46. Coedwig Brechfa**

3.79 Mae'r Uned Dirwedd hon yn seiliedig ar ardal fawr o lwyfandir ucheldirol a gaiff ei goruchafu gan blanhigfeydd coedwig masnachol, gyda llwybrau cerbydau, ardaloedd lle mae'r coed wedi cael eu llwyrcwympo, a rhannau gyda chyfnodau gwahanol o dyfiant. Fodd bynnag, yn y planhigfeydd, mae ffiniau hen gaeau a gweddillion hen ffermydd yn dal i fod yn amlwg fel tystiolaeth y defnyddiwyd y tir at ddibenion amaethyddol yn y gorffennol. Mae mwyafrif yr uned wedi'i lleoli yn Ardal Chwilio Strategol G Coedwig Brechfa. Mae fferm wynt fawr sydd wedi derbyn caniatâd (Gorllewin Coedwig Brechfa), ac mae'r fferm wynt weithredol yn Alltwalis yn nodwedd amlwg yn y gorllewin.

**47. Mynydd Sylen, Bryniau Llanelli a Bryniau Arfordirol Pen-bre**

3.80 Mae'r Uned Dirwedd weddol fawr hon yn cynnwys yr Iseldir Tonnog Mosäig math o dirwedd yn bennaf, ond mae ardaloedd llai ynddi sy'n rhannu nodweddion tirwedd a meini prawf sensitifrwydd cyffredin. Mae'n amgylchynu Uned Dirwedd Cwm Lliedi, sy'n agos at ei chanol. Mae wedi nodweddu gan fryniau tonnog a dyffrynnoedd bach gyda rhwydwaith cryf o wrychoedd sy'n ffurfio ffiniau'r caeau, yn ogystal â rhai darnau bach o goetir. Mae ffermydd gwasgaredig a nifer o aneddiadau mwy; mae'r rhannau deheuol yn gyfagos i gyrion trefol Llanelli. Mae cefnffordd yr A48 yn croesi'r rhan ddwyreiniol, yn ogystal â phrif heol yr A476 rhwng Llanelli a Cross Hands. Yn ogystal, mae llinellau foltedd uchel uwchben, a gaiff eu cynnal gan dyrau dur delltog, yn rhedeg ar draws rhan ddwyreiniol yr uned. Mae nifer o dyrbinau gwynt gweithredol ac sydd wedi derbyn caniatâd yn bresennol, yn ogystal â nifer o osodiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae.

**48. Dyffryn Cothi Isaf**

3.81 Mae'r Uned Dirwedd hon yn cynnwys dyffryn iseldirol gwledig sy'n rhedeg tua'r de o bentref Brechfa bron hyd at Bontargothi yn y de. Mae iddi fosäig o gaeau sydd wedi'u hamgylchynu gan wrychoedd, yn ogystal â choetir glannau afon ar waelod y dyffryn ar hyd rhannau isaf Afon Cothi. Yn y dwyrain a'r gorllewin, mae ochrau'r dyffryn yn codi'n serth ac maent yn gymysgedd o borfeydd, coetir a rhedyn. Mae ffermydd gwasgaredig wedi eu cysylltu gan ffyrdd bach, ac mae'r rhain yn cynnig golygfeydd deniadol ar hyd yr afon.

**49. Gwernogle**

3.82 Mae'r Uned Dirwedd hon yn cynnwys dyffryn ucheldirol coediog cymhleth ag ochrau serth sy'n swatio ymysg planhigfeydd uwch Coedwig Brechfa, y mae'r dyffryn ar ffurf endoriad ynddi. Mae cymysgedd o dir ffermio a choetir ar waelod y dyffryn, gyda ffermydd gwasgaredig a phentref bach Gwernogle. Nid oes unrhyw dyrbinau gwynt gweithredol nag sydd wedi derbyn caniatâd yn yr uned hon. Fodd bynnag, mae rhannau dwyreiniol yr uned hon yn gyfagos i Goedwig Brechfa, ardal a chanddi ffermydd gwynt arfaethedig ac sydd wedi derbyn caniatâd.

**50. Llethrau Llangennech a Gwastadeddau Llanelli**

3.83 Mae'r Uned Dirwedd hon yng nghwr pellaf de-ddwyreiniol y sir. Mae'n ardal o dir gweddol donnog sydd wedi'i lleoli ar rannau uchaf aber Afon Llwchwr ac ochrau'r aneddiadau cysylltiedig ar hyd cyrion de-ddwyreiniol Llanelli, gan gynnwys Trostre, Bynea, Bryn a Llangennech, yn ogystal â Handy i'r gogledd o draffordd yr M4. Mae'n gymysgedd o dir pori a thir llwyd, ac mae trafnidiaeth a

seilwaith arall yn dylanwadu'n gryf ar ei chymeriad. Caiff ei chroesi gan brif reilffyrdd a rheilffyrdd lleol, traffordd yr M4 yn y rhan fwyaf gogleddol, a phrif ffordd yr A484 rhwng Llanelli ac Abertawe yn y de, ac mae'r A4138 yn ffurfio'r ffin rhwng Llangennech a'r M4. Mae llinellau foltedd uchel uwchben, a gaiff eu cynnal gan dyrau dur delltog, yn croesi canol yr uned hon. Mae hefyd gosodiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae sydd wedi derbyn caniatâd.

**51. Canol Dyffryn Cothi**

3.84 Mae'r dyffryn afon bach a deniadol hwn, gyda'i fosäig o gaeau, gwrychoedd a choetir, yn darparu ymdeimlad o amgaead, a dyma yw'r sylfaen ar gyfer yr Uned Dirwedd hon. Yn bennaf, y ffurfiau adeiledig yw ffermydd gwasgaredig, gyda sawl anheddiad mwy ym mhentrefi bach Brechfa ac Abergorlech, sydd ar waelod y dyffryn wrth fannau pontio'r afon. Mae lefelau cyfanrwydd uchel a chymeriad cryf yr ardal yn cael eu hadlewyrchu gan ei dynodiad fel Ardal Tirwedd Arbennig.

**52. Gogledd Llethrau Tywi**

3.85 Mae'r Uned Dirwedd hon yn ddarn llinellol a gweddol fawr o dir sy'n cynnwys bryniau tonnog a dyffrynnoedd uwchben ochr ogleddol Dyffryn Tywi ac sy'n ymestyn o ochr ogledd-ddwyreiniol Caerfyrddin tua'r dwyrain i Lanwrda. Mae'n cynnwys dwy ardal ffisegol ar wahân, wedi'u rhannu gan rannau isaf Dyffryn Cothi (Uned Dirwedd 48). Mae'n dirwedd amaethyddol sy'n cynnwys tir pori yn bennaf, gyda ffermydd gwasgaredig ac ambell i anheddiad mwy, fel yn Salem a Chapel Isaac. Mae nifer bach o dyrbinau gwynt gweithredol ac sydd wedi derbyn caniatâd.

**53. Ochrau Dyffryn Tywi a Pharc Dinefwr**

3.86 Mae hon yn Uned Dirwedd gul a llinellol, sy'n cyfateb yn agos i ochrau gogleddol y dyffryn ac sy'n cynnwys Parc Dinefwr yn union i'r gorllewin o Landeilo. Mae'r mwyafrif o'r uned hon o fewn Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Tywi, ac mae'n cynnwys caeau tonnog wedi'u hamgylchynu gan wrychoedd sydd â golygfeydd deniadol dros y dyffryn. Mae rhai tirweddau parcdir, yn enwedig ym Mharc Dinefwr, sydd ar y rhestr o Barciau a Gerddi Rhestredig. Mae ffurfiau adeiledig yn cynnwys ffermydd gwasgaredig yn bennaf, gydag ambell i bentref bach, sydd wedi'u cysylltu gan gymysgedd o heolydd llai, ac mae cefnffordd yr A40 rhwng Caerfyrddin a Llandeilo yn brif ffordd ar hyd echel hir yr uned.

**54. Mynydd Figyn**

3.87 Cefn llydan amlwg o dir pori agored – glaswelltir amgaeedig yn bennaf, a rhai ardaloedd o dir comin – sy'n sail ar gyfer yr Uned Dirwedd hon. Mae wedi'i halinio o'r gogledd-ddwyrain i'r de-orllewin, rhwng y tir sydd i'r gogledd o Lanfynydd a thir uchel Mynydd Cynros i'r gorllewin o Dalyllychau. Mae'n ardal wledig anghysbell gydag ychydig o ffermydd gwasgaredig yn unig. Mae golygfeydd helaeth i'r gogledd-orllewin ar draws Dyffryn Cothi cyfagos i Goedwig Brechfa, ac i'r de-ddwyrain ar draws Dyffryn Tywi at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

**55. Cross Hands – Capel Hendre**

3.88 Mae'r Uned Dirwedd hon yn seiliedig ar ardal fawr o'r hen faes glo rhwng Dyffryn Aman yn y dwyrain a blaen Cwm Gwendraeth Fawr yn y gorllewin, gyda rhan o Gefn Crwbin (Uned Dirwedd 45) yn ffurfio cefndir uchel i'r gogledd. Mae'n ardal sylweddol o dir tonnog, gyda phatrwm amlwg o aneddiadau llinellol, a grëwyd gan rwydwaith o hen bentrefi pyllau glo bach sydd wedi'u gosod ymysg tir pori a safleoedd cloddio glo brig adferedig, gyda ffiniau caeau cadarn o wrychoedd mewn sawl man – tirwedd coedcae greiriol a oedd yn bodoli cyn yr aneddiadau meysydd glo. Mae hefyd datblygiad masnachol diweddar ar raddfa fawr yn Cross Hands, yn gyfagos i gefnffordd brysur yr

A48, sy'n croesi rhan orllewinol yr uned hon. Mae prif heol yr A476 rhwng Cross Hands a Llanelli yn y de-orllewin, ac mae prif heol yr A483 o'r A48 rhwng Rhydaman a Llandeilo yn croesi'r rhan dde-ddwyreiniol. Mae nifer bach o dyrbinau gwynt gweithredol ac sydd wedi derbyn caniatâd a rhai gosodiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae.

**56. Esgairdawe a Basn Rhydcymerau**

3.89 Mae'r Uned Dirwedd fawr a gwledig hon yn cynnwys cyfres o ddyffrynnoedd sy'n rhedeg tua'r gogledd-ddwyrain o ochr Coedwig Brechfa. Mae'n dirwedd amaethyddol iseldirol o gaeau sydd wedi'u hamgylchynu gan wrychoedd, gydag ardaloedd o goetir collddail a phlanhigfeydd conifferaidd. Mae'r patrwm aneddiadau yn bennaf yn cynnwys ffermydd gwasgaredig, gyda'r unig bentref sylweddol, sef Rhydycymerau, wedi'i leoli yn y de-orllewin. Nid oes unrhyw dyrbinau gwynt gweithredol nag sydd wedi derbyn caniatâd yn yr uned hon. Fodd bynnag, mae rhannau gorllewinol yr uned hon yn agos at Ardal Chwilio Strategol Coedwig Brechfa, sef ardal sy'n cynnwys ffermydd gwynt sydd wedi derbyn caniatâd.

**57. Dyffryn Llwchwr**

Mae'r Uned Dirwedd gul a llinellol hon yn rhedeg ar hyd Afon Llwchwr a ffin Sir Gaerfyrddin. Mae'n cynnwys gorlifdir agored gyda chaeau mawr o faint afreolaidd, yn ogystal â ffosydd draenio. Mae'r llethrau'n fwy coediog, gyda chaeau llai wedi'u hamgylchynu gan wrychoedd. Mae'n ardal wledig ddiarffordd, gyda phatrwm aneddiadau wedi'i seilio'n bennaf ar ffermydd gwasgaredig wedi'u lleoli'n bennaf ar ochrau'r dyffryn; Llanedi yw'r unig bentref. Dim ond heolydd llai sydd yn yr ardal hon, ond mae'r B4297 yn rhan o ffin dde-orllewinol yr uned. Mae llinellau foltedd uchel uwchben, a gaiff eu cynnal gan dyrau dur delltog, yn croesi'r rhan fwyaf deheuol i'r de o Lanedi.

**58. Gorlifdir Dyffryn Tywi**

3.91 Mae'r Uned Dirwedd hir a llinellol hon wedi'i lleoli ar waelod Dyffryn Tywi rhwng Caerfyrddin a Llandeilo. Mae'n cynnwys gwaelod dyffryn amaethyddol llydan a gwastad, ynghyd â'r afon lydan sy'n dolennu ar hyd y gorlifdir, gyda therfyn y llanw ym mhentref Nantgaredig. Mae'n cynnwys porfeydd o ansawdd gwell yn bennaf, gyda rhai ohonynt yn diroedd âr, ac mae'r rhan fwyaf o'r caeau wedi'u hamgáu gan wrychoedd wedi'u rheoli. Mae rhai parcdiroedd hefyd yn bresennol. Mae aneddiadau yn bennaf ar ffurf ffermydd mawr gwasgaredig, a'r unig bentrefi yno yw Nantgaredig, gyda'i ffurf linellol yn croesi gwaelod y dyffryn, a Llanarthne ar ochr ddeheuol yr afon i'r dwyrain. Mae pob rhan o'r uned hon wedi'i lleoli yn Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Tywi.

**59. Llanfynydd, Cwm-du, Halfway a Thalyllychau**

3.92 Mae'r Uned Dirwedd hon yn cynnwys cyfuniad o dri math o dirweddau sy'n rhannu nodweddion tirwedd a meini prawf sensitifrwydd cyffredin. Mae'n cynnwys dyffrynnoedd iseldirol, tir ffermio tonnog gyda ffiniau ar ffurf gwrychoedd, a rhai ardaloedd o goetir. Yn gyffredinol, mae'r patrwm aneddiadau'n cynnwys ffermydd gwasgaredig gydag ychydig o bentrefi, yn arbennig anheddiad hanesyddol ar lan llyn Talyllychau yn y gogledd a Llanfynydd yn y de-orllewin. Heolydd bach, lleol yn unig sy'n bodoli yn yr ardal hon, sy'n wledig a thawel yn bennaf, ar wahân i'r B4302 rhwng Talyllychau a Llandeilo, sy'n croesi'r rhan fwyaf dwyreiniol.

**60. Bryniau Llansawel**

3.93 Mae'r Uned Dirwedd hon wedi'i lleoli i'r gogledd o bentref Llansawel ac mae'n cynnwys llethrau serth a phennau bryniau a gaiff eu nodweddu gan batrwm rheolaidd o gaeau glaswelltir, gyda chymysgedd o wrychoedd a ffensys. Mae sawl ardal fawr o goedwigoedd collddail a

chonifferaidd masnachol, a dim ond ffermydd gwasgaredig heb unrhyw aneddiadau mwy. Nid oes unrhyw dyrbinau gwynt gweithredol nag sydd wedi derbyn caniatâd yn yr uned hon. Fodd bynnag, mae rhan dde-orllewinol yr uned hon yn gyfagos i Goedwig Brechfa, sef ardal sy'n cynnwys ffermydd gwynt sydd wedi derbyn caniatâd.

**61. Banc Beli-tew**

3.94 Mae gan yr Uned Dirwedd weddol fach hon nenlinell leol amlwg, sef cefnen sy'n rhedeg o'r gogledd-ddwyrain i'r de-orllewin, ac mae'n bennaf yn cynnwys tir pori ucheldirol agored, gyda rhai ffiniau caeau o wrychoedd ar y llethrau isaf. Mae'n ardal ddiarffordd gydag ychydig iawn o heolydd a phoblogaeth denau mewn ychydig iawn o ffermydd gwasgaredig.

**62. Dyffryn a Llethrau Marlas/Llwchwr**

3.95 Mae'r Uned Dirwedd linellol hon yn cynnwys tirwedd fugeiliol dyffryn iseldirol Afon Marlas, sy'n rhedeg tua'r gogledd o'i gydlifiad ag Afon Aman, lle y daw'n Afon Llwchwr, i'r gogledd o Landybïe. Mae dylanwad y datblygiadau preswyl a diwydiannol yn ardal drefol gyfagos Rhydaman yn gryf ar yr uned, ynghyd â choridor cludiant prif heol yr A483 o'r A48 i Landeilo, a'r rheilffordd rhwng Llanelli a Llandeilo.

**63. Basn Llansawel**

3.96 Mae'r Uned Dirwedd weddol fawr hon yn cyfuno iseldiroedd gweddol donnog a gwaelod dyffryn mwy gwastad, ac yn cynnwys glaswelltir wedi'i wella yn bennaf, gyda gwrychoedd ac ambell i goedwig. Mae cymysgedd o ffurfiau adeiledig sy'n amrywio o ffermydd gwasgaredig i aneddiadau achlysurol mwy yn Llansawel a Phumsaint. Mae prif heol yr A482, sy'n cysylltu'r A40 â Llanbedr Pont Steffan, yn rhedeg drwy'r rhan ogleddol, tra bo'r B4302 yn ymadael â'r heol hon ac yn rhedeg tua'r de-orllewin tuag at Dalyllychau.

**64. Mynydd Pencarreg a Dalgylch Cothi Uchaf**

3.97 Dyma Uned Dirwedd weddol fawr a gwledig, sydd wedi'i lleoli yng nghornel ogledd-ddwyreiniol y sir, sy'n bennaf yn cynnwys tir pori ucheldirol agored gyda rhai ardaloedd mawr o blanhigfeydd conifferaidd. Mae poblogaeth yr ardal yn weddol denau, yn enwedig yn rhannau'r gogledd-ddwyrain, gydag ychydig o heolydd yn arwain at ffermydd gwasgaredig yn unig, heb unrhyw aneddiadau mwy. Mae prif heol yr A482 rhwng yr A40 a Llanbedr Pont Steffan yn croesi'r rhan dde-orllewinol. Mae'r rhan ogleddol yn ardal weddol anghysbell. Mae nifer bach o dyrbinau gwynt gweithredol ac sydd wedi derbyn caniatâd.

**65. Llethrau Gogleddol Mynydd y Betws a Chwm Cathan**

3.98 Mae'r Uned Dirwedd fawr hon wedi'i lleoli ar ochrau isaf y tir uchel ar ochr ddeheuol Dyffryn Aman, ar ffurf bwa o'r de o Rydaman yn y gorllewin hyd at fan uwchben Gwauncaegurwen yn y dwyrain. Mae'n cynnwys cyfuniad o ddau fath o dirwedd sy'n rhannu nodweddion a meini prawf sensitifrwydd cyffredin. Mae'n ardal o dir llethrog wedi'i rannu gan geunentydd a chymoedd bach, sydd yn aml yn goediog, gyda chaeau pori bras wedi'u hamgylchynu'n aml gan wrychoedd. Mae cymeriad ymyl drefol bendant ar hyd Dyffryn Aman i gyd ar ffin ogleddol yr uned hon, ar y llethrau isaf sy'n dal i ddangos ôl yr hen ddiwydiant glo a safleoedd cloddio glo brig adferedig, ond mae gweddill yr uned wedi'i nodweddu gan ffermydd gwasgaredig a thai ar hyd heolydd bach. Nid oes unrhyw dyrbinau gwynt gweithredol neu sydd wedi derbyn caniatâd yn yr uned hon. Fodd bynnag, mae rhannau deheuol yr uned hon o fewn ac yn gyfagos at Ardal Chwilio Strategol E: Pontardawe,

sef ardal sy'n cynnwys y fferm wynt weithredol ym Mynydd y Betws yn yr Uned Dirwedd gyfagos (rhif 68: Mynydd y Betws).

**66. Ochrau Deheuol Dyffryn Tywi a Gelli Aur**

3.99 Mae'r Uned Dirwedd hir a llinellol hon yn ymestyn ar hyd ochr ddeheuol Dyffryn Tywi rhwng cyrion Caerfyrddin a Llandeilo. Mae'n cynnwys sawl math o dirwedd sy'n rhannu nodweddion a meini prawf sensitifrwydd cyffredin. Mae'r llethrau sy'n wynebu am y gogledd wedi'u nodweddu gan gaeau o faint canolig, gyda phatrwm cryf o ffiniau ar ffurf gwrychoedd ac ardaloedd o goetir conifferaidd a chymysg; mae hefyd ardal o dirwedd parcdir ym Mharc Gwledig Gelli Aur. Mae aneddiadau yn bennaf ar ffurf ffermydd gwasgaredig gydag ychydig o bentrefi bach, yn aml wedi'u lleoli ar hyd heol y B4300.

**67. Llethrau Deheuol y Mynydd Du**

3.100 Yn ei hanfod, mae hon yn Uned Dirwedd sydd wedi'i lleoli ar lethrau gogleddol Dyffryn Aman, gyda rhan ehangach yn y gorllewin, i'r gogledd o Rydaman ac i'r dwyrain o Landybïe. Mae'n gyfagos i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mae cysylltiadau gweledol cryf i dir amhoblog sy'n codi at y Mynydd Du. Mae'n bennaf yn ardal wledig o gaeau pori o faint bach/canolig sydd wedi'u ffinio â gwrychoedd a waliau cerrig. Mae'r llethrau isaf wedi'u nodweddu gan ymyl drefol o ddatblygiad swbwrbaidd a hefyd yn dangos ôl yr hen ddiwydiant glo. Mae nifer bach iawn o dyrbinau gwynt gweithredol ac sydd wedi derbyn caniatâd.

**68. Mynydd y Betws**

3.101 Mae'r Uned Dirwedd hon yn seiliedig ar ddarn llydan o dirwedd rhostir ucheldirol ac agored sydd wedi'i lleoli rhwng ochrau uchaf Dyffryn Aman yn y gogledd a ffin y sir yn y de, gyda golygfeydd helaeth o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'r gogledd. Caiff ei goruchafu gan y pymtheg o dyrbinau gwynt 110 metr o uchder a'u seilwaith cysylltiedig fferm wynt Mynydd y Betws, sydd wedi bod yn gweithredu ers mis Ebrill 2013. Er bod yr ardal wedi'i lleoli mewn Ardal Tirwedd Arbennig, mae ei chymeriad bellach wedi newid yn sylweddol oherwydd y gwaith o adeiladu'r fferm wynt a'i seilwaith cysylltiedig. Mae llinellau foltedd uchel uwchben, a gaiff eu cynnal ar dyrau dur delltog, hefyd yn croesi rhan dde-orllewinol yr uned hon. Mae'r llwybr cerdded hirbell a hyrwyddir, Llwybr Sant Illtyd, yn croesi rhan ddwyreiniol yr ardal ar ffurf bwa, ac mae ganddo gysylltiad at lwybr a hyrwyddir arall, Ffordd Gŵyr, ar ffin y sir.

**69. Bryniau Caeo**

3.102 Mae'r Uned Dirwedd hon o fryniau tonnog, sydd wedi'i lleoli i'r gorllewin o Lanymddyfri ac i'r gogledd o Ddyffryn Tywi, yn gymysgedd o dir pori amgaeedig ac ardaloedd bach o goedwig gonifferaidd, gyda ffermydd gwasgaredig drwyddi draw. Mae llwyfandir ucheldirol amlwg, mwy agored Mynydd Mallaen yn codi i'r gogledd-orllewin o'r ardal hon. Mae'r patrwm aneddiadau yn bennaf ar ffurf ffermydd gwasgaredig, y gellir eu cyrraedd ar heolydd bach, ac nid oes unrhyw aneddiadau sylweddol yn bresennol yma. Mae prif heol yr A482 rhwng yr A40 yn Llanwrda a Llanbedr Pont Steffan yn croesi canol yr uned. Mae'r rhannau gogleddol, i'r dwyrain o Gaeo, yn weddol anghysbell ac yn goediog iawn.

**70. Cwm Dulais**

3.103 Mae'r Uned Dirwedd hon yn cynnwys dwy ran ar wahân, sy'n seiliedig ar ddau ddyffryn coediog, sydd wedi'u lleoli uwchben ochr ogleddol Dyffryn Tywi i'r gogledd o Lanwrda ac i'r gorllewin o Lanymddyfri. Mae'r rhan orllewinol yn troi o gylch dyffryn coediog cul a throellog Afon Dulais, sy'n

cael ei ddilyn gan brif heol yr A482 rhwng yr A40 yn Llanwrda a Llanbedr Pont Steffan. Mae’r rhan ddwyreiniol yn troi o gylch dyffryn llai Afon Mynys ac yn ddiarffordd iawn. Mae gan y ddau ddyffryn batrwm aneddiadau tenau, gyda ffermydd gwasgaredig yn bennaf, y gellir cael mynediad atynt trwy rwydwaith o heolydd bach a chul.

**71. Dyffrynnoedd Cothi a Thywi Uchaf**

3.104 Mae'r ardal hon wedi'i hendorri'n ddyfn gan ddyffrynnoedd afon i’r gogledd-ddwyrain o Bumsaint, sy’n amgylchynu ochr ogleddol Mynydd Mallaen. Mae'r dyffrynnoedd iseldirol mosäig hyn yn culhau tua'r gogledd, ac maent yn ffinio â llethrau coediog serth sy'n codi at ardaloedd ucheldirol agored. Mae'n dirwedd fugeiliol ddeniadol a heb ei difetha o gaeau â gwrychoedd, gyda rhai ardaloedd o goetir a ffermydd gwasgaredig heb unrhyw aneddiadau sylweddol. Mae'r ddau ddyffryn wedi'u lleoli yn Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Cothi ac Ardal Dirwedd Arbennig Dyffryn Tywi yn eu tro.

**72. Mynydd Mallaen**

3.105 Ardal fawr o lwyfandir ucheldirol agored sy’n ffurfio pob rhan o'r Uned Dirwedd hon, ac mae’n ffurfio nodwedd dirwedd drawiadol a nodweddiadol yng ngogledd-ddwyrain y sir, yn ogystal â bod yn gefndir pwysig i ddyffrynnoedd iseldirol deniadol Cothi Uchaf a Thywi. Mae iddi olygfeydd helaeth uchel, sy'n cynnwys ardaloedd o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'r de, ac mae wedi'i lleoli yn Ardal Tirwedd Arbennig Mynydd Mallaen. Mae'n ardal anghysbell iawn gydag absenoldeb amlwg o aneddiadau.

**73. Canol Dyffryn Tywi**

3.106 Mae'r Uned Dirwedd hon wedi'i seiliedig ar ddyffryn iseldirol deniadol yn yr ardal rhwng cyrion Llanymddyfri yn y de a phentref Rhandir-mwyn yn y gogledd. Mae wedi'i nodweddu gan dir ffermio bugeiliol a chanddo ffiniau caeau amlwg a rhai ardaloedd o goetir, ac mae ymdeimlad cryf o le yn perthyn iddi. Mae aneddiadau'n amrywio o ffermydd gwasgaredig i ychydig o aneddiadau llai, ac fe’u cysylltir gan heolydd bach. Mae’r ucheldiroedd ar ddwy ochr y dyffryn yn ffurfio cefndiroedd deniadol, ac mae'r dyffryn wedi'i leoli yn Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Tywi.

**74. Fforest, Llanymddyfri**

3.107 Mae'r Uned Dirwedd hon o dir pori ucheldirol serth wedi'i leoli i’r gogledd o Lanymddyfri yn ffurfio cefndir cadarn i rannau canol Dyffryn Tywi. Nid oes ffiniau i'r caeau yn gyffredinol, ac ychydig o ffermydd gwasgaredig ac ychydig iawn o heolydd bach sy'n bresennol yma. Mae wedi'i lleoli yn Ardaloedd Tirwedd Arbennig Dyffryn Tywi a Chwm Brân.

**75. Dalgylch Tywi Uchaf**

3.108 Mae'r Uned Dirwedd fawr hon, sy'n llwyfandir ucheldirol tonnog ac agored, wedi'i lleoli yng nghornel ogledd-ddwyreiniol Sir Gaerfyrddin, yn gyfagos i ffin y sir gyda Phowys. Mae'n cynnwys mosäig o borfeydd ucheldirol amgaeedig a thir pori garw agored, gydag ardaloedd mawr o blanhigfeydd conifferaidd, ac ychydig iawn o ffermydd gwasgaredig. Mae'n ardal ddiarffordd a chanddi ddiffyg heolydd.

**76. Gorlifdir Afon Brân**

3.109 Mae'r Uned Dirwedd linellol hon yn seiliedig ar ddyffryn afon iseldirol llydan sydd wedi'i leoli i'r gogledd o Lanymddyfri. Mae'n cynnwys mosäig o gaeau a amgylchynir gan wrychoedd a llystyfiant glannau afon, gydag aneddiadau tenau o ffermydd gwasgaredig ac anheddau ar wahân wedi'u lleoli ar hyd heol yr A483 sy'n arwain tua'r gogledd o Lanymddyfri yng nghyfeiriad Powys. Mae ychydig o heolydd bach yn bresennol. Mae wedi'i lleoli yn Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Brân.

**77. Llethrau Dyffryn Brân**

3.110 Mae'r Uned Dirwedd hon yn cynnwys caeau a choetir conifferaidd a llydanddail ar y llethrau sy'n amgylchynu gorlifdir Afon Brân. Mae prif heol yr A483, sy'n mynd tua'r gogledd o Lanymddyfri i Bowys, yn croesi rhan ogleddol yr ardal hon. Mae rheilffordd hynod o hardd Calon Cymru yn rhedeg ar hyd holl ochr orllewinol y dyffryn, ac mae'r draphont rheilffordd yng Nghynghordy yn dirnod lleol amlwg. Mae'r mwyafrif o'r uned hon wedi'i lleoli yn Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Brân.

**78. Pentre-tŷ-gwyn**

3.111 Mae'r Uned Dirwedd hon wedi'i hamgylchynu gan lethrau coediog uwch Crychan i'r gogledd a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'r de a'r dwyrain, gydag Afon Gwydderig yn rhedeg ar hyd cyfran fawr o'i hochr ddeheuol. Mae'n dirwedd amaethyddol donnog o gaeau, gwrychoedd ac ardaloedd o goetir, gyda ffermydd gwasgaredig ac anheddiad bach ym Mhentre-tŷ-gwyn. Mae ei rhan ddwyreiniol yn ddiarffordd, ac ni ellir ond cael mynediad ati ar ychydig o heolydd bach.

**79. Cwm Gwennol, Llanymddyfri**

3.112 Mae'r Uned Dirwedd hon yn ddyffryn afon llinellol cul sy'n rhedeg tua'r gogledd-ddwyrain i fyny o ddyffryn Afon Gwydderig ac mae wedi'i lleoli rhwng Coedwig Halfway a Chrychan i'r dwyrain o Lanymddyfri. Mae wedi'i nodweddu gan lethrau coediog, y mae rhai ohonynt wedi'u torri, ac mae'n ardal ddiarffordd a chanddi ychydig o ffermydd gwasgaredig yn unig. Mae'r tir uwch i'r de-ddwyrain wedi'i oruchafu gan blanhigfeydd conifferaidd, sy'n ychwanegu at yr ymdeimlad o amgaead.

**80. Crychan a Choedwig Halfway**

3.113 Mae hon yn Uned Dirwedd fawr sydd wedi'i lleoli yn gyfagos i ffin y sir gyda Phowys yng ngogledd-ddwyrain Sir Gaerfyrddin. Mae wedi'i goruchafu gan blanhigfeydd helaeth o goedwig gonifferaidd fasnachol, sy'n gorchuddio'r bryniau ac ymylon y llwyfandir, ac mae wedi'i gwahanu gan ddyffrynnoedd afon bach a chanddynt ardaloedd bach o goetir llydanddail. Mae'n ardal weddol ddiarffordd ac mae ychydig iawn o aneddiadau a heolydd yn bresennol yma.

# Adran 5:

# CANLLAWIAU AR GYFER DATBLYGU YNNI SOLAR

## Ffactorau sy'n Ymwneud â'r Dyluniad

5.1 Mae'r canllawiau hyn yn unol ag arweiniad ac arferion gorau cyfredol, fel y cyfeiriwyd atynt yn *Atodiad 2*.

**Cynllun Paneli Solar Ffotofoltäig**

5.2 Wrth leoli datblygiad, mae yr un mor bwysig ystyried golwg y datblygiad arfaethedig fel y byddai'n ymddangos wrth edrych arno o'r onglau hynny lle byddai'r fframiau cynnal yn fwy gweladwy, yn ogystal ag o'r blaen, sy'n dangos y paneli solar yn llawn. Dylai'r dyluniad sicrhau bod yr araeau yn dilyn cyfuchlinellau lle bo hynny'n bosibl, ac yn cyd-fynd â phatrymau amgaeedig presennol – dylid osgoi gosod paneli sy'n bell oddi wrth weddill y grŵp.Bydd yn bwysig cynnal defnyddiau tir ar y safle sy'n cyd-fynd â chymeriad yr ardal.

5.3 Ar gyfer safleoedd lle mae tir uwch yn edrych drostynt sy'n ddigon agos y gellir gweld yn glir nodweddion manwl y datblygiad arfaethedig, bydd dyluniad y safle a sut mae'n ymwneud â'r dirwedd (neu'n cydweddu iddi) yn hynod bwysig.Lle cynigir datblygiad paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae nad yw'n llenwi ardal gyfan un neu fwy o gaeau, yna rhaid archwilio'n ofalus y potensial ar gyfer cyflwyno nodweddion ffiniol newydd, megis gwrychoeddd neu leiniau llinellol o goetir, mewn perthynas â phatrwm a gwead presennol y dirwedd a fydd yn derbyn y datblygiad.

5.4 Dylai uchder dyluniad y paneli solar ffotofoltäig fod mor anymwthiol â phosibl yn y dirwedd. Mewn ardaloedd lle mae gwrychoedd aeddfed yn ffurfio ffiniau'r caeau, dylid anelu at leoli'r araeau yn is nag uchder gwrychoedd ffiniol y caeau, a ddylid eu rheoli i uchder uchaf o tua thri metr uwchben lefel bresennol y ddaear ar ochr y cae.

## Ffactorau sy'n Ymwneud â Chyd-destun y Safle

**Cymeriad y Dirwedd**

5.5 Mae'r rhan hon o'r astudiaeth yn cynnig y sail ar gyfer adnabod nodweddion tirwedd allweddol y safle a'r ardal ehangach.Mae hefyd yn nodi sensitifrwydd y dirwedd i osodiadau paneli solar ffotofoltäig o wahanol raddfeydd, ac unrhyw nodweddion arbennig y dylid eu gwarchod. Fodd bynnag, astudiaeth *strategol* yw hon ac – ym mhob achos – *dylid ystyried ceisiadau yn ôl eu teilyngdod unigol;* mae angen dadansoddiad manwl er mwyn canfod natur y datblygiad, nodweddion y safle a'r tir o'i gwmpas yn llawn.

5.6 Mae'n debyg y bydd effeithiau ar gymeriad y dirwedd yn ymwneud â'r canlynol:

- Graddfa'r dirwedd – p'un ai ydyw'n fawr neu'n fach, ac a yw'r datblygiadau paneli solar ffotofoltäig arfaethedig o raddfa briodol sy'n gydnaws â'r dirwedd sy'n eu derbyn;
- Topograffi – gall datblygiad paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae oruchafu dros dirffurfiau cymhleth neu ar raddfa fach os nad yw'n cael ei leoli'n ofalus;

- Nenlinellau – gall datblygiad paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae effeithio ar y canfyddiad o symlrwydd y nenlinell neu gefnennau os yw'n cael ei leoli ar y nodweddion hyn neu'n union islaw iddynt;
- Patrwm y dirwedd – dylid lleoli datblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae yn ofalus er mwyn osgoi gwrthdaro â phatrymau sylweddol presennol yn y dirwedd sy'n eu derbyn;
- Patrwm aneddiadau – dylid lleoli datblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae yn ofalus mewn perthynas ag aneddiadau sy'n bodoli eisoes.

**Ardaloedd sydd ag Ymdeimlad o Bellenigrwydd**

5.7 Dylid lleoli datblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae i ffwrdd o ardaloedd sy'n cael eu gwerthfawrogi oherwydd eu pellenigrwydd, ardaloedd nad ydynt dan ddylanwad pobl ac ardaloedd sy'n ymddangos yn wyllt, e.e. rhannau helaeth o rostir ucheldirol.

**Tirweddau a Werthfawrogir ac Asedau Treftadaeth Ddiwylliannol**

5.8 Mae'r astudiaeth hon yn nodi tirweddau sydd wedi'u dynodi oherwydd eu nodweddion a werthfawrogir yn rhyngwladol, yn genedlaethol neu'n rhanbarthol. Mae hon yn astudiaeth strategol ac – ym mhob achos – dylid ystyried ceisiadau yn ôl eu teilyngdod unigol. Felly, bydd angen dadansoddiad manwl a phenodol er mwyn gwerthfawrogi'n llawn natur y datblygiad, y safle a'r tir o'i gwmpas, a'r effeithiau sy'n debygol ar unrhyw dirweddau dynodedig neu werthfawr lleol, gan gynnwys eu lleoliad hanfodol lle bo hynny'n briodol. Dylid felly ystyried y gwaith o leoli gosodiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae yn ofalus er mwyn diogelu golygfeydd tuag at nodweddion canolog sy'n bwysig o ran tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol a'r golygfeydd a gynigir gan y nodweddion hyn (gan gynnwys adeiladau cofrestredig a henebion cofrestredig), ynghyd â'u lleoliad yn y dirwedd ehangach, gan gynnwys 'lleoliad hanfodol' diffiniedig parciau a gerddi cofrestredig.[1]

## Ffactorau sy'n Ymwneud â Lleoli

**Tirffurf**

5.9 Dylid lleoli datblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae ar iseldiroedd gwastad neu ar lethrau is yng nghanol tirweddau iseldir sy'n tonni'n ysgafn; mae tirffurfiau mwy serth – yn benodol y llethrau uwch – yn debygol o fod yn fwy sensitif. Dylid lleoli datblygiadau paneli solar ffotofoltäig o'r fath ar lwyfandiroedd mewn ardaloedd helaeth a thonnog, a'u gosod yn ôl o'r ymyl, er mwyn lleihau unrhyw effeithiau ar y golygfeydd a gynigir gan ardaloedd ucheldirol cyfagos

**Patrwm y Dirwedd**

5.10 Dylid lleoli datblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae er mwyn adlewyrchu a chyd-fynd â phatrymau sylweddol yn y dirwedd sy'n eu derbyn – er enghraifft, y rhai a gynhyrchir gan ffiniau cae a choetir sydd wedi'u diffinio'n dda. I'r gwrthwyneb, dylid cymryd gofal i sicrhau na leolir araeau o baneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae fel y byddent yn gwrthdaro â phatrymau o'r fath yn y dirwedd.

---

[1] *'The Essential Setting is a concept developed for the register in order to safeguard areas adjacent to the historic parks and gardens which, although outside them, form an essential part of their immediate background and without which, in their present state, the historic character of the site in question would be diluted and damaged.'* Cofrestr o Barciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru: Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro; Rhan 1: Parciau a Gerddi (Cadw, CCGC a Llywodraeth Cymru, 2002); Nodiadau Esboniadol, tudalen xv.

5.11 Ar y cyfan, mae patrymau cae canoloesol ar raddfa fach yn fwy sensitif i ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae na chaeau amgaeedig mwy diweddar, sy'n debygol o fod yn rheolaidd o ran siâp ac ar raddfa fwy.Dylid dylunio araeau o baneli solar fel eu bod yn cydweddu'n briodol i batrwm presennol y caeau, gan osgoi gosod ymylon caled anghydnaws a llinellau syth o fewn tirweddau sydd â ffiniau caeau afreolaidd neu grwm. Yn ogystal, wrth ddylunio cynllun ar draws sawl cae, dylid ystyried y canllawiau canlynol yn llawn:

- Cadw eglurdeb patrymau'r caeau drwy leihau nifer y caeau cyfagos sy'n cael eu datblygu, a thrwy leoli araeau o baneli solar ffotofoltäig yn ôl o ymylon caeau. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i'r gwaith o reoli gwrychoedd ffiniol yn effeithlon ac mewn modd cost-effeithiol barhau;
- Bydd dylunio cynllun safle o amgylch gwrychoedd ffiniau caeau presennol sydd wedi'u cadw a'u gwella, neu leiniau o goetir, yn cyfrannu at leihau’r effaith sy’n deillio o faint canfyddedig araeau solar cydgyffyrddol ar raddfa cae.

**Coetiroedd a Choed**

5.12 Dylid lleoli datblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae mewn tirweddau sydd wedi'u hamgáu i ryw raddau (oherwydd y tirffurf neu gan goetiroedd neu wrychoedd – neu gyfuniadau o'r elfennau hyn), yn hytrach nag mewn tirweddau agored neu rai cymharol anamgaeëdig.

**Nodweddion Canolog**

5.13 Wrth ystyried lleoliad datblygiad paneli solar ffotofoltäig yn y dirwedd, ystyriwch y golygfeydd a gynigir gan olygfannau lleol, llwybrau poblogaidd a thirweddau dynodedig, ynghyd â golygfeydd cydnabyddedig neu nodedig sy’n eiconig.Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo tirnod blaenllaw neu amlwg yn bodoli, megis Tŵr Paxton, sy'n bwynt canolog pwysig yn y dirwedd. Dylid lleoli datblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae mewn modd fel y gallant gael eu cuddio’n dda neu fel eu bod yn ymdoddi'n briodol mewn golygfeydd sensitif. Dylid felly ystyried lleoliad araeau solar yn ofalus er mwyn diogelu golygfeydd tuag at dirweddau a nodweddion treftadaeth ddiwylliannol pwysig, a’r golygfeydd a gynigir ganddynt, *fel y disgrifir ym mharagraff 5.8 uchod*.

**Aneddiadau a Thirweddau Trefol**

5.14 Dylid lleoli datblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae yn ofalus mewn perthynas ag aneddiadau, adeiladau a strwythurau eraill cyfagos. Mewn tirweddau gwledig sydd ag aneddiadau gwasgaredig, dylid lleoli datblygiadau paneli solar ffotofoltäig ger adeiladau neu strwythurau sy'n bodoli eisoes. Dylid ystyried yn ofalus y golygfeydd tuag at ac oddi wrth aneddiadau, neu wrth agosáu atynt (gan gynnwys eiddo gwasgaredig), wrth leoli datblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae.

5.15 Dylid lleoli datblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae yn y lleoliad sydd lleiaf amlwg yn weledol, a dylid eu lleoli mewn modd a fydd yn lleihau'r effeithiau andwyol ar olygfannau cyhoeddus sensitif, llwybrau hamdden a hyrwyddir, heolydd, a hawliau tramwy cyhoeddus eraill.

**Seilwaith Atodol**

5.16 Dylai datblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae wneud defnydd o bwyntiau mynediad a llwybrau mynediad presennol lle bynnag y bo'n bosibl, er mwyn lleihau'r angen i gyflwyno llwybrau newydd i'r dirwedd, yn ogystal â chreu mesurau mynediad dros dro y gellir eu

tynnu'n llwyr ar ôl cwblhau cyfnod adeiladu'r cynllun.Dylid osgoi lleoli llwybrau mynediad rhwng araeau o baneli lle bynnag y bo'n bosibl.

5.17 Ceisiwch osgoi defnyddio elfennau gwaith caled a allai gael effaith 'trefoli' – megis ymylon a physt concrid – mewn sefyllfaoedd gwledig, a lleihau maint yr arwynebau caled sydd wedi'u selio, y defnydd o ffensys perimedr a gatiau diogelwch sydd ag arddulliau trefol neu ddiwydiannol,y seilwaith teledu cylch cyfyng, a'r defnydd o oleuadau, yn enwedig yn y tirweddau hynny sydd heb unrhyw oleuadau artiffisial amlwg. Dylid osgoi defnyddio goleuadau oni bai fod hynny'n hollol angenrheidiol. Os ystyrir ei bod yn hanfodol, yna dylai dyluniad y gosodiadau a'r colofnau fod yn gydnaws â'r cyd-destun gwledig, a dylai pob golau ddefnyddio technoleg is-goch oddefol (PIR) i'w weithredu. Dylai dyluniad y gosodiadau leihau faint o olau sy'n cael ei golli – yn enwedig ar wrychoedd, coetir neu brysgwydd gerllaw neu gyfagos – lle gallai gael effaith niweidiol ar fywyd gwyllt.

5.18 Dylid defnyddio nodweddion tirwedd presennol neu newydd er mwyn cyfuno nodweddion diogelwch i'r dirwedd, megis ffensys diogelwch perimedr. Gellir gwneud ymddangosiad ffensys diogelwch yn llai amlwg yn y dirwedd os ydynt yn cael eu gosod yn ôl o ffiniau gwrychoedd ar berimedr y safle – effaith hyn yw lleihau eu huchder cyffredinol wrth edrych arnynt o'r tu allan i'r safle. Lle bo modd, dylid osgoi ffensys diogelwch er mwyn lleihau'r effaith weledol. Er enghraifft, fel dewis arall, gall fod yn bosibl adeiladu ffosydd ac ysgafellau, a fyddai'n rheoli mynediad ond mewn ffordd sy'n fwy cydnaws. Fodd bynnag, os tybir bod angen ffensys diogelwch, dylid eu hadeiladu o ddeunyddiau sy'n gydnaws â'r cefn gwlad ac yn caniatáu i fywyd gwyllt symud yn rhydd – er enghraifft, trwy godi ffensys ceirw yn hytrach na ffensys diogelwch confensiynol o amgylch y terfyn allanol. Gall plannu ochr yn ochr â'r ffens leihau ei heffaith, er efallai y bydd angen ystyried cyfyngiadau gwyliadwriaeth.

5.19 Gellir plannu gwrychoedd neu leiniau coetir newydd er mwyn cuddio golygfeydd o'r ffensys perimedr.Mewn sawl achos, bydd gwrychoedd neu leiniau o goed yn rhan bwysig o ran creu lleoliad sy'n dderbyniol yn weledol o fewn tirwedd ehangach arae o baneli solar ffotofoltäig. Mae'n rhaid i nodweddion tirwedd newydd o'r fath fod yn addas i gymeriad y dirwedd leol, megis dewis rhywogaethau o goed a llwyni lleol, neu greu cloddiau yn y ffordd sy'n gyffredin yn lleol.Mae angen osgoi cysgod posibl o ganlyniad i driniaethau cuddio ffiniau. Mae'r berthynas rhwng uchder llystyfiant y ffin a'i bellter o'r araeau yn ffactor pwysig yn y dyluniad.

5.20 Dylai cynigion sicrhau bod yr holl geblau ar y safle yn cael eu claddu dan ddaear (heb wneud gormod o niwed i wrychoedd neu archeoleg bresennol), er mwyn lleihau'r effeithiau andwyol ar gymeriad y dirwedd a'r amwynder gweledol.Dylid gosod cysylltiadau grid dan ddaear lle bynnag y bo'n bosibl.

5.21 Dylid cadw gwrthdroyddion mewn adeiladau presennol lle bo'n bosibl, yn enwedig pan fo'r rhain ar ffurf sy'n gyffredin yn lleol, a dylai dyluniad y cynllun osod y cyfleusterau hyn mor agos â phosib i'r safle. Dylid lleoli cyfarpar cyfnewid ('switchgear') a chypyrddau rheoli neu adeiladau rheoli yn ofalus, a dylid osgoi lleoliadau uchel neu agored ar y cyfan, gan wneud y defnydd gorau posibl o lystyfiant neu waliau ffiniau cae presennol a lleol er mwyn cymhathu'r nodweddion hyn i'r dirwedd sy'n eu derbyn. Dylid osgoi gosod adeilad gwrthdroyddion yng nghanol araeau solar ar bob cyfrif. Dylai fod angen i adeiladau newydd a adeiladwyd fel rhan o ddatblygiad paneli solar ffotofoltäig ar

raddfa cae gyd-fynd â'r arddull pensaernïol lleol o ran eu ffurf a'u maint, ynghyd â'r deunyddiau a'r lliwiau allanol i'w defnyddio.

5.22 Gall darpariaethau draenio gael effeithiau gweledol sylweddol. Yn aml, ar dir gwastad, gall paneli solar ddraenio i'r tir heb fawr o broblem, ond gall safleoedd ar lethr achosi mwy o anawsterau, gyda'r potensial i ddŵr ffo gasglu ac arwain at ffurfio ceunentydd erydu.Mae'n debyg mai cynlluniau draenio ar ffurf system ddraenio gynaliadwy, sy’n defnyddio rhwydwaith o ffosydd, pantiau ac ysgafellau a ddyluniwyd yn briodol, yw'r dulliau mwyaf cost-effeithiol a derbyniol yn weledol o gasglu dŵr ffo arwynebol a chael gwared arno mewn modd derbyniol mewn cyd-destun gwledig.

**Ymddangosiad Araeau o Baneli Solar Ffotofoltäig – Deunyddiau a Gorffeniadau**

5.23 Wrth ddylunio'r cynllun a dewis y deunyddiau ar gyfer y paneli, dylai'r broses ddylunio bob amser ystyried golwg y datblygiad fel y byddai'n ymddangos wrth edrych arno o bob ongl, nid yn unig fel y byddid yn gweld yr araeau wrth edrych arnynt o'r tu blaen.Yn gyffredinol, ystyrir bod lliwiau tywyll, enciliol mewn tonau naturiol – a deunyddiau nad ydynt yn adlewyrchol ar gyfer strwythurau sy'n gysylltiedig â'r paneli solar ffotofoltäig (gan gynnwys fframiau ategol, cypyrddau rheoli a physt) – yn llai ymwthiol yn weledol na deunyddiau adlewyrchol a lliwiau llachar ar gyfer gorffeniadau.

**Ystyriaethau o Effeithiau Cronnol**

5.24 Dylid ystyried effeithiau tirwedd a gweledol cronnus posibl yn ofalus fesul achos, gan gael cymorth, lle bo'n briodol, drwy gynhyrchu Parthau Gwelededd Damcaniaethol (ZTV) a delweddau (yn ddelfrydol, o olygfannau y cytunwyd arnynt â swyddogion cynllunio priodol Cyngor Sir Caerfyrddin).Wrth ystyried gosod a dylunio datblygiadau paneli solar ffotofoltäig lluosog ar raddfa cae yn yr un Uned Dirwedd, dylid ystyried y canllawiau canlynol yn fanwl:

- Wrth ddylunio unrhyw ddatblygiad paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae, mae'n bwysig ystyried sut y mae'r cynllun yn cyd-fynd â chynlluniau ynni adnewyddadwy gweithredol, cydsynedig ac arfaethedig eraill (gan gynnwys y rhai a leolwyd mewn awdurdodau cynllunio cyfagos) neu gyda datblygiadau eraill a allai fod â nodweddion tebyg, e.e. twnelau polythen neu dai gwydr, er mwyn lleihau'r effeithiau cronnol niweidiol a allai godi;
- Dylai'r dyluniad anelu at fod yn debyg i gynlluniau eraill a fyddai'n digwydd yn yr un math o dirwedd (o ran lleoliad, cynllun, graddfa, ffurf a pherthynas â nodweddion allweddol), er mwyn cynnal effaith weledol syml a chyson sy'n gydnaws â’r nodweddion tirwedd presennol;
- Wrth ddylunio estyniadau i safleoedd paneli solar ffotofoltäig gweithredol ar raddfa cae, bydd yn bwysig fod graddfa ac ymddangosiad y paneli a'r araeau yn gydnaws.Ar y cyfan, dylai datblygiadau paneli solar ffotofoltäig unigol ymddangos fel eu bod ar wahân, oni bai eu bod wedi'u cynllunio'n benodol i ymddangos fel un datblygiad cyfun;
- Sicrhewch fod ardal y datblygiad cyfunol yn parhau'n gydnaws â'r dirwedd y mae ynddi;
- Bydd yn bwysig sicrhau nad yw datblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae yn cael dylanwad diffiniol ar y profiad cyffredinol o'r dirwedd, a bod rhai golygfeydd agored heb ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig yn cael eu cynnal yn Sir Gaerfyrddin (h.y. sicrhau bod

y cymeriad gwledig yn parhau ac nad yw datblygiadau paneli solar ffotofoltäig yn goruchafu dros unrhyw un ardal);

- Os oes modd gweld dau neu fwy o ddatblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae yn glir o'r un golygfan ac yn yr un Uned Dirwedd, dylent ymddangos o'r un faint (oni bai fod y datblygiad cyntaf yn cael ei ystyried yn rhy fawr ar gyfer ei gyd-destun tirwedd) a dylai eu dyluniad fod yn gysylltiedig â'r dirwedd sylfaenol yn yr un modd;
- Ni ddylid peryglu'r golygfeydd a gynigir gan aneddiadau drwy leoli sawl datblygiad paneli solar ffotofoltäig ar raddfa cae yn agos iawn iddynt, gan greu'r argraff fod yr anheddiad wedi'i amgylchynu gan osodiadau o'r fath.